



Bannau'r Dyfodol

Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol
Bannau Brycheiniog 2022-2027

Ymgynghoriad Drafft



Hydref 2021

RHAGAIR

Mae'n bleser gen i gyflwyno'r Cynllun Rheoli drafft hwn ar eich cyfer, sydd wedi'i fedyddio'n addas yn Bannau'r Dyfodol gan Gynulliad Dinasyddion y Parc, i gael eich barn a'ch adborth arno.

Erbyn 2030, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ostyngiad o 63% yn y cyfanswm allyriadau carbon. Ni ellir gorbwysleisio natur brys y targed hwn. Rydym yn wynebu bygythiad dwbl, sef argyfwng hinsawdd ac argyfwng bioamrywiaeth. Os na lwyddwn ni i fwrw'r targedau hyn a chymryd camau brys, radical, rydym mewn perygl o fynd uwchlaw'r trothwy cynhesu 1.5 gradd, a fydd yn arwain at ansefydlogrwydd byd-eang di-droi'n-ôl. Mae hwn yn berygl dirfodol, all fygwth bywydau ac achosi difrod di-droi'n-ôl i'n cartref, sef planed y Ddaear.

Un Parc Cenedlaethol 520 o filltiroedd sgwâr yn unig ydym ni, wrth gwrs; ond rydym yn dirwedd fyw arbennig ac unigryw, a thrwy dderbyn bod modd ac angen inni weithredu i daclo'r bygythiad dwbl rydym yn ei wynebu, gobeithiwn y gallwn nid yn unig arwain y ffordd ar gyfer ein cymunedau a'n partneriaid, ond ysbrydoli eraill i weithredu yn ogystal.

Bydd y cynllun hwn, pan gaiff ei fabwysiadu, ar waith hyd at 2027. Mae'n hanfodol felly bod amcanion y cynllun hwn yn ein llywio'n ôl i fodolaeth sy'n gytbwys ag adnoddau prin y Ddaear. Dyna pam y mae'r cynllun hwn yn ddiedifar o uchelgeisiol: mae'n rhaid iddo fod. Mae llai na dau gylchdro cynllunio i fynd erbyn y dyddiadau targed allweddol ar gyfer lleihau carbon, ac ni allwn anwybyddu'r gloch rybudd sy'n canu dro ar ôl tro am system sy'n dymchwel, ac sy'n atseinio trwy'r dystiolaeth sy'n sylfaen i'r cynllun drafft hwn.

Pan ddechreuais i fel Prif Weithredwr y Parc Cenedlaethol ychydig fisoedd yn ôl, roeddwn yn awyddus i sicrhau bod y Parc oedd dan fy ngofal yn fwy nag amgueddfa o dirwedd. Mae fy ngweledigaeth i yn un o Barc sy'n enghraifft ddeinamig o gynaliadwyedd. Parc sy'n amgylcheddol gydnherth ac yn economaidd ffyniannus; sy'n croesawu newid, sy'n agored, ac sy'n croesawu pawb sy'n chwilio am harddwch ac antur.

Rwy'n gwybod nad fy ngweledigaeth i yn unig yw hon. Yn ystod fy nghyfnod gwaith byr yma rwyf wedi cwrdd, sgwrsio ac ymweld â nifer fawr o unigolion a sefydliadau ysbrydoledig, sydd wedi ail-bwysleisio i mi'r angen brys am y cynllun hwn, ar yr adeg hon, i'n tywys tuag at ddyfodol cynaliadwy. Cefais fy ysbrydoli gan bŵer, gwybodaeth ac angerdd ein Cynulliad Dinasyddion newydd. Rwy'n croesawu'n llwyr yr her a osodwyd ganddynt inni fabwysiadu rôl fwy arweiniol o fewn y rhanbarth, i helpu i ddiffinio economi atgynhyrchiol ar gyfer yr ardal, lle mae natur a phobl yn gweithio ar y cyd yn hytrach na thynnu'n groes i'w gilydd.


Mae'r her hon wedi ysbrydoli cynllun sy'n ceisio manteisio ar werth cysylltu â natur ym mhopeth a wnawn. Dyma'n ffagl gobaith ni bod dyfodol gwell a mwy cynaliadwy nid yn unig yn bosib, ond bod modd ei wireddu os gweithiwn ni gyda'n gilydd, gyda natur, i wneud iddo ddigwydd. Mae'r ffaith ein bod yn dirwedd fyw, weithredol, lle mae pŵer pobl a natur yn cyfuno, yn darparu cyfle unigryw i greu llwybr tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy a ffyniannus.

Rydym yn gobeithio y bydd y cynllun hwn yn ysbrydoliaeth i eraill ledled y byd. Rwy'n gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen y cynllun hwn ac y bydd, efallai, yn eich ysbrydoli i gymryd rhan yn ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.



Prif Weithredwr
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog





**Fel rydym ninnau'n
gynnyrch ein
hamgylchedd, mae
ein hamgylcheddau
hefyd yn gynnyrch
ohonom ni.**

Darren McGarvey

CRYNODEB GWEITHREDOL

Bannau'r Dyfodol yw enw newydd yr Ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Drafft

Mae'n ofynnol bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, yn paratoui ac yn adolygu Cynllun Rheoli ar gyfer ei ardal.

Dylai'r Cynllun Rheoli osod sut y bydd y Parc Cenedlaethol yn cwrdd â'i ddibenion a'i ddyletswyddau (ein hamcanion statudol) o fewn ardal ddaearyddol y Cynllun. Llunnir y Cynllun gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd, ond oherwydd ei ofynion pellgyrhaeddol, caiff ei ddatblygu mewn partneriaeth â nifer o randdeiliaid, gyda'r nod o ddiffinio cydweledigaeth ar gyfer yr ardal.

Cyhoeddwyd ein Cynllun diwethaf, Rheoli Newid Gyda'n Gilydd was published in 2010, yn 2010, cafodd yr adolygiad cyntaf ei gwblhau a'i gyhoeddi yn 2015, sef Rhoi Llesiant Wrth Galon y Parc Cenedlaethol. Ers hynny, bu nifer o newidiadau o ran cyd-destun y polisi mae'r cynllun yn gweithredu oddi tano, sef yn bennaf, y ffaith bod arweinwyr y byd yn cydnabod erbyn hyn ein bod yn wynebu Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Bioamrywiaeth. Mae'r ffactorau hyn ynddyn nhw'u hunain yn arwydd bod angen newid radical o ran llunio polisiau a gweithredu o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd yn y cynlluniau gwta bum mlynedd yn ôl. Hefyd mae'r Cynllun Rheoli ar ei newydd wedd yn dod ar adeg pan mae'r byd wrthi'n rhyddhau ei hun yn araf o grafangau pandemig y coronafeirws, sef digwyddiad trasig ac ofnadwy yn ddiamau, gyda chanlyniadau pellgyrhaeddol, yn arbennig o ran sut mae pobl yn gweld ac yn gwerthfawrogi amgylcheddau 'naturiol' fel yr un mae'r cynllun am ei warchod. Am y rheswm hwn, mae'r Cynllun hwn yn dod yn hwyrach na'r cyfnod arferol o bum mlynedd rhwng cynlluniau, mae hefyd yn wahanol iawn i Gynlluniau Rheoli blaenorol. Mae'r ddau beth hyn yn ganlyniad anorfod i amgylchiadau cynhyrchu'r cynllun.

Rhan o'r newid radical yn y Cynllun yw'r ffocws ar amcanion yr ardal ddynodedig fel system holistig sydd dan straen difrifol. Ffynhonnell ein hysbrydoliaeth yw model a fabwysiadir yn eang sef Y Doesen ('The Doughnut'), a ddyfeisiwyd gan yr Athro Kate Raworth, i ddarlunio'n glir i ba raddau y mae'r Parc yn mynd y tu hwnt i lefelau gweithredu amgylcheddol a chymdeithasol diogel.



Rydym yn rhy ddibynol ar garbon, mae ein bioamrywiaeth yn dirywio, mae ansawdd y dŵr yn rhai o'n hafonydd harddaf dan fygythiad mawr, mae niferoedd ymwelwyr yn uwch nag erioed o'r blaen, sy'n arwain at wrthdaro â'n cymunedau, ac mae yna argyfwng fforddiadwyedd tai digynsail yn sgil y gyfran uchel o ail gartrefi a thai gwyliau, heb sôn am yr argyfwng iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y rhan fwyaf o'n pobl ifanc yn gadael trefi a phentrefi'r Parc hwn ac mi fydd yna rai yn eu plith na fydd yn dychwelyd, er eu bod yn awyddus i wneud hynny, a bydd eu cyfalaf dynol a chymdeithasol yn diflannu gyda nhw. Mae'r demograffig yn mynd yn hŷn ac yn hŷn wrth i'r blynyddoedd fynd heibio. Mae model Y Doesen yn dangos i ba raddau y mae angen i'r nodwydd symud os ydyn ni am lwyddo i roi ein dibenion a'n dyletswydd ar waith i fynd i'r afael â'r problemau cymhleth hyn.

O'r darlun hwn o sefyllfa bresennol y Parc, gallwn nodi lle mae angen gweithredu ar y cyd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, i sicrhau newid llwyr o fusnes fel arfer i ddyfodol cynaliadwy.

- Newid o ran rheoli'r tir, o ddull echdynnol gyda chostau allanol uchel i ddull atgynhyrchiol, gan ddal a storio carbon, ochr yn ochr ag adferiad natur ac ecosystemau cydnerth.
- Newid o ran systemau trafnidiaeth, o danwydd ffosil i ynni adnewyddadwy, ynghyd â'r angen i greu trafnidiaeth gyhoeddus ymarferol a chynaliadwy ac opsiynau teithio llesol.
- Newid o ran ynni, o danwydd ffosil i ddeunyddiau adnewyddadwy, ar lefel leol a chenedlaethol.
- Newid o ran y ddarpariaeth dai, i greu opsiynau mwy fforddiadwy gyda safonau gwresogi a phweru uwch.
- Newid o ran ein heconomi, o ddulliau echdynnol i ddulliau cylchol ac atgynhyrchiol gyda phwyslais ar sgiliau digidol, sgiliau gwledig newydd a thwf gwyrdd.
- Newid yn y ffordd rydym yn rheoli iechyd a lles ein dinasyddion, o ddulliau adweithiol i ymyriadau ataliol.

Mae'r cynllun hwn yn diffinio'r polisiau sy'n gosod ein nod hirdymor ochr yn ochr â map trywydd lefel uchel ar gyfer ei gyflawni. Mae'r polisiau'n mapio'r daith angenrheidiol, a gobeithiwn y bydd yr ymgynghoriad hwn yn helpu i gyfuno'r parodrwydd â'r syniadau, adnoddau a chymau gweithredu i gyflawni'r nod.

Rydym yn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd drwy osod cyllideb garbon ar gyfer y Parc, gyda'r nod o fod yn sero carbon erbyn 2037, gyda chymorth polisiau adfer mawndir, plannu coed a theithio llesol.

Rydym yn gweithredu ar yr argyfwng bioamrywiaeth drwy osod y nod o adfer natur ar draws y parc a fydd yn gweld cynnydd yn nifer y rhwydweithiau ecolegol gydnerth, sy'n fwy, yn well, ac yn fwy cydgyssylltiedig, gyda chymorth polisiau penodol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

Rydym yn gweithredu ar yr argyfwng iechyd drwy fanteisio ar fuddiannau'r Parc o ran iechyd a llesiant, drwy hyrwyddo defnydd penodol o'r Parc fel gwasanaeth iechyd naturiol.

Rydym yn gweithredu ar yr argyfwng economaidd drwy hyrwyddo twf gwyrdd gyda ffocws ar adferiad natur a sgiliau gwledig. Cefnogir yr agenda hwn â pholisiau ar daliadau am wasanaethau ecosystemau, a thrwy greu economi fwyd leol.

Rydym yn gweithredu ar greu cymunedau â chydbwysedd oedran, drwy ymrwymo i gynllunio bro, rhoi grym i gymunedau lleol i osod yr agenda ar gyfer eu dyfodol cynaliadwy.

Nod y polisiau hyn, ar y cyd, yw gweithredu i wireddu'n gweledigaeth. Mae'r weledigaeth hon, a osodir drosodd, a'r polisiau ar gyfer ei gwireddu, yn dal i gael eu datblygu. Rydym yn eu cyhoeddi nawr er mwyn cael barn ac adborth pellach cyn eu cwblhau a'u rhoi ar waith.

EIN GWELEDIGAETH

Bydd ein Parc Cenedlaethol yn ffagl o ysbrydoliaeth, a fydd yn sbardun i weithio tuag at ddyfodol llewyrchus a chynaliadwy.

Byddwn yn harneisio'r pŵer o gael natur a phobl yn gweithio mewn ffordd gytbwys i'n helpu i wynebu'r newid yn yr hinsawdd, dirywiad bioamrywiaeth, yr adferiad economaidd ar ôl Covid, a'r argyfwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn 2045 bydd Bannau Brycheiniog yn ecolegol gydnerth a byddwn yn sero carbon. Bydd ein cymunedau'n ffynnu a byddant yn cydgysylltu ac yn cydweithio â'i gilydd. Bydd diwylliant, tirwedd ac amgylchedd y Parc yn dod ag ysbrydoliaeth a llawenydd i bawb sy'n byw yma ac yn ymweld â'r lle.

CYNNWYS

1	Bannau Brycheiniog.....	9
2	Ein rhinweddau arbennig.....	10
3	Pam cael Cynllun Rheoli ar gyfer y Parc Cenedlaethol?	22
4	Y Parc Cenedlaethol heddiw.....	30
5	Parc Cenedlaethol y Dyfodol	38
6	Polisïau ar gyfer gweithredu.....	42
7	Eich Parc Chi.....	101

ATODIAD: Toesen y Parc.....	103
-----------------------------	-----





PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn un o deulu o 15 o Barciau Cenedlaethol yn y DU. Ein gwaith yw sicrhau bod y tirweddau dan ein gofal yn cael eu rheoli'n gynaliadwy er mwyn i bawb eu mwynhau mewn heddwch.

Mae Parciau Cenedlaethol yn genedlaethol ym mhob ystyr. Ond nid yw hynny'n golygu y dylid diystyru buddiannau lleol; llesiant y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc Cenedlaethol yw'r ystyriaeth bennaf bob tro. Disgrifiodd y pensaer a'u creodd, sef John Dower, eu gwerth yn 1945:

Ychydig o ddibenion cenedlaethol sy'n fwy hanfodol neu'n fwy cyfoethog o ran addewid o iechyd a hapusrwydd na darparu darnau mawr, agored a hardd o wlad lle gellir mwynhau gwyliau'n rhydd ac yn rhad.

Nid yw Parciau Cenedlaethol ar gyfer unrhyw ran freintiedig neu gyfyngedig o'r boblogaeth, ond i bawb sy'n gofalu adnewyddu eu meddyliau a'u hysbryd ac ymarfer eu cyrff mewn lleoliad heddychlun o harddwch naturiol.

Mae'r ethos sylfaenol hwn yn dal i fod yn ganolog i waith yr Awdurdod ac mae'n fframio'r broses o ddatblygu polisiau i reoli'r Parc yn y dyfodol.

Cafodd Bannau Brycheiniog eu dynodi'n ffurfiol yn Barc Cenedlaethol yn 1957. Mae'r ffin yn amgylchynu tua 520 o filltiroedd sgwâr o gefn gwlad hardd. Mae'r ffin yn ymestyn o ganol cefn gwlad Canolbarth Cymru yn y gogledd i gymunedau ôl-ddiwydiannol cyn-lofaol Cymoedd De Cymru. O'r dwyrain i'r gorllewin mae'r Parc yn ymestyn o'r Gororau i ymylon Llandeilo. Mae'r Parc yn gartref i tua 33,000 o bobl.



Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw'r corff sydd wedi'i awdurdodi'n gyfreithiol i ofalu am dirweddau cyfoethog ac arbennig y Parc. Mae dau ddiben arbennig i Awdurdod y Parc Cenedlaethol, sef:

Cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol; a

Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol

Mae'r gyfraith hefyd yn dweud bod yn rhaid i'r Awdurdod ystyried, wrth gyflawni'r dibenion hyn:

Ceisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol, o fewn y Genedlaethol Parc.

Mewn amgylchiadau lle mae'r diben cyntaf a'r ail ddiben yn gwrthdaro, bod Egwyddor Sandford yn nodi, os na ellir datrys y sefyllfa, mai'r diben cyntaf ddylai gael blaenoriaeth.

2

RHINWEDDAU ARBENNIG Y PARC

Mae holl Barciau Cenedlaethol y DU yn dirweddau arbennig sydd wedi'u dynodi am eu gwerth hanfodol i'r genedl. Fodd bynnag, mae pob Parc Cenedlaethol yn unigryw o ran cymeriad, ac am y rheswm hwnnw, rhan allweddol o unrhyw Gynllun Rheoli yw diffinio hanfod y lle, sef beth sy'n ei wneud yn arbennig ac yn apelgar, ac yn werth ei warchod. Gelwir y rhain yn 'Rhinweddau Arbennig' y Parc. Mae gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 10 o Rinweddau Arbennig diffiniedig sydd wedi'u grwpio yn ôl tirwedd, cymuned, profiadau a bywyd gwyllt.

Am fod ein rhinweddau arbennig yn aml o natur reddfodol yn hytrach na rhesymegol, mae'r Cynllun hwn yn mynegi'r rhinweddau gan ddefnyddio nifer o gerddi a darnau o gelf, yn ogystal â'r datganiadau polisi mwy safonol. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn gymorth i gyfleu hanfod y cynllun arbennig hwn mewn ffyrdd sy'n berthnasol i wahanol brofiadau.



TIRWEDDAU ARBENNIG



Celf wreiddiol gan Clarissa Kate Price Art

Copa Pen y Fan

Nis oes tir arafach
na chyflymach; 'does
dim pridd disymud lletach,
fflam, heb fflach o ymffrost
er pob goncwest, llam a charlam,
yn gyson ei guriad, er heb galon –
ar risgl y ddear, ni a'n cymgogion
gorfoledd craith, gorfoledd oedran,
gorfoledd carnedd Pen y Fan.

David Greenslade

Mawredd ysgubol a harddwch naturiol eithriadol

Mae mawredd ysgubol a harddwch naturiol eithriadol y Parc i'w weld ar draws amrywiaeth o dirweddau sy'n dod at ei gilydd mewn harmoni, gan gynnwys ceunentydd a rhaedrau godidog, daeareg garst glasurol gydag ogofeydd a llync-dyllau, tirffurfiau rhewlfol cyferbyniol megis clogwyni a dyffrynnoedd llydan wedi'u cerfio o dywodfaen coch hynafol, a chopaon uchel gyda golygfeydd eang i bob cyfeiriad.

Cyferbyniad o batrymau, lliwiau a gweadau

'Clytwaith' gweithredol, byw o batrymau, lliwiau a gwead, gan gynnwys tirwedd ffermio raenus, ucheldir agored, llynnoedd ac afonydd troellog, ynghyd â choetiroedd bach, lonydd gwledig, gwrychoedd, waliau cerrig ac aneddiadau gwasgaredig.

Garw, anghysbell a heriol

Yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig, tirweddau sy'n ddaearyddol arw, anghysbell a heriol.

TIRWEDDAU ARBENNIG

POBL ARBENNIG





Celf wreiddiol gan Clarissa Kate Price Art

Blaen y Glyn

(Mae Glyn wedi bod yn enw yn ein teulu ni
byth ers i'm hen-dadcu adael Cwm Caerfanell yn yr 1880au.
Roedd ei dad yn porthmona merlod mynydd i Lundain)

Ni ddaw'r dŵr yn ei ôl
o Hafren, i Wysg, i Gaerfanell;
na merlod Torpantau chwaith,
o'u heol garlam tua'r dwyrain
dan ofal fy hynafiaid gynt.

Ond fe ddown ninnau
o ferw ein strydoedd a'n cul-de-sacs
i geisio ein gwynfyd dros dro,
rhwng Carreg Cennen a Sgyryd Fawr.

Down yma yn westeion
i hen, hen gymdogaeth,
i gael ein meddiannu gan y mynyddoedd hyn
a'n hawlio gan eu cymoedd coediog.
Bydd rhai'n morgruga'n ufudd
ar lwybr Pen y Fan,
tra bo eraill yn mynd gyda'r gwynt,
o Gwm Aman neu Gwm Iou,
ar drywydd y llonydd
sy'n meddwi'r synhwyrâu...

A dof innau i'r Glyn yma,
dan lethrau Allt Forgan,
lle aeth cartre 'nheulu gynt
yn furddun ac yna'n sarn;
ond mae'r enw o leiaf
yn dal i ffrydio drwof,
a iaith y lle hwn
ar drot ar fy nhafod o hyd.

Ifor ap Glyn
Bardd Cenedlaethol Cymru

Ymdeimlad o gymuned glos

Ymdeimlad o gymuned glos, lle mae trefi a phentrefi bach, gwledig yn gymharol ddiogel, cyfeillgar a chroesawgar, a lle mae ysbryd o gydweithrediad yn dal i fodoli.

Ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol

Ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol - “Cymreictod” – a nodweddir gan yr iaith frodorol, sef y Gymraeg, y cysylltiadau crefyddol ac ysbrydol, yr arferion a'r digwyddiadau unigryw, y bwydydd a'r crefftau traddodiadol, trefi a phentrefi hanesyddol dilychwin, ffermydd teuluol a pharhad y sgiliau traddodiadol a ddatblygwyd gan y trigolion lleol i fyw ac ennill bywoliaeth yma, megis arferion a phori tir comin.

POBL ARBENNIG

PROFIADAU ARBENNIG





Celf wreiddiol gan Clarissa Kate Price Art

Ar Bnawn o Fai ar Ben y Fan

Heb un gair a minnau'n byw yn gaeth
dihengais i Aberhonddu at ffrind ffraeth;
ond fy ffrind, ni fynnw'n fynd i Ben y Fan...

Mynnw'n gilio'n neb mewn i'r gwely'n wan
a meddwi o hyd ym medd dyddiau a aeth,
cilio'n glyd rhag y byd a'i bedwar ban.

Ddoe gwelwn angladd a neb yn y llan,
neb ond y ficer, drwy'i reidrwydd fe ddaeth;
a bu ynof ofn mynd i Ben y Fan;

Ofn rhag imi fyw wrth ddringo am lan,
ofn byw'n rhydd fel bod yn droednoeth ar draeth,
ofn byw i weld y byd a'i bedwar ban.

Ond o gam i gam, dod i wneud ei ran
wnaeth yr awyr iach, a'm sobri a'i faeth
wrth i'r hen boenau fynd wrth Ben y Fan.

A daeth ambell air a gwên yn y man,
wrth i'r cip o'r copa ein dal fel saeth
a ninnau'n un â'r byd a'i bedwar ban,
ar bnawn o Fai ar Ben y Fan.

Aneirin Karadog

Difyr a hygyrch

Cefn gwlad difyr a hygyrch gyda chyfleoedd helaeth, eang ac amrywiol i fwynhau cerdded, beicio, pysgota, gweithgareddau dŵr, a mathau eraill o weithgareddau hamdden ac ymlacio cynaliadwy.

Bywiogrwydd a Llesiant

Teimlad o fywiogrwydd a llesiant sy'n dod o fwynhau awyr iach, dŵr glân, lleoliad gwledig, tir agored y Parc, a bwydydd sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol.

Cyfle i ddarganfod

Cyfle i bobl archwilio a darganfod cyfrinachau a straeon cudd y Parc, megis hanesion achyddol, safleoedd defodau cynhanesyddol, olion aneddiadau gwledig canoloesol, safleoedd diwydiannol cynnar, mythau a chwedlonau lleol, a thrysorau daearegol o gyfnodau cyn cof.

Heddwch, llonyddwch a thywyllwch

Parc Cenedlaethol sydd ag awyr dywyll fin nos, heddwch a llonyddwch, a chyfleoedd i fwynhau mewn tawelwch, i gael ysbrydoliaeth, i ymlacio a chael adnewyddiad ysbrydol.

PROFIADAU ARBENNIG

NATUR ARBENNIG

Yr amrywiaeth o fywyd gwyllt a'r cyfoeth o gynefinoedd lled-naturiol

Mynediad eang a helaeth at yr amrywiaeth o fywyd gwyllt a'r cyfoeth o gynefinoedd lled-naturiol a geir yn y Parc, megis coetiroedd brodorol, rhostir a glaswelltir, llynnoedd naturiol a chynefinoedd torlannol, gwrychoedd hynafol, calchbalmentydd a gorgorsydd, gan gynnwys rhai sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol.



Gwyfynod y Bannau

Pellter na phair
ball ar ffyddlondeb
na therfyn ar deyrngarwch;
'does ffin
ar bili-palas
ar ieir bach yr haf,
nac ar löynod y pellteroedd
sy'n fythol alltud
yn eu gwlad eu hunain –
tlysau caled mewn bro haearn –
symudliw, gadarn,
rhodd hael
gwyfynod gwynlas
sêr y bannau.

David Greenslade

3

PAM CAEL CYNLLUN RHEOLI?

Fel y tystia'n hamrywiaeth o rinweddau arbennig, mae Bannau Brycheiniog yn lle unigryw a hynod. Mae ein dynodiad fel Parc Cenedlaethol yn diffinio yn ogystal â gwarchod yr ardal ddaearyddol am ei gwerth tirweddol cynhenid. Fe'n cydnabyddir yn rhyngwladol fel tirwedd weithredol, fyw, lle mae'r rhyngweithio rhwng pobl a natur dros amser wedi siapio'n harddwch naturiol eithriadol.

Mae'r cynllun rheoli hwn yn gweithredu lle mae'r rhyngweithio hwn yn digwydd i sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli'n gynaliadwy, er mwynhad y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, mae'r rhyngweithio hwn yn gymhleth a gall elfennau ohono wrthdaro â'i gilydd. Mae'r Parc hwn yn nifer o bethau gwahanol i nifer o bobl wahanol – o fywoliaeth, i barc chwarae, i gartref. Mae angen rheoli'r gofynion niferus hyn, all gystadlu â'i gilydd ar adegau, er lles y genedl. Dyma ddiben y Cynllun Rheoli.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi manylion pellach am ddibenion y Cynllun Rheoli, sut y cafodd ei ddatblygu a sut rydym yn defnyddio Dibenion a Dyletswydd Parc Cenedlaethol i strwythuro'r ymyriadau polisi a geir yn y cynllun.

BETH YW'R CYNLLUN RHEOLI?

Y cynllun hwn, sef *Bannau'r Dyfodol*, yw ein Cynllun Rheoli statudol ar gyfer yr ardal. Yn statudol, mae'r Cynllun Rheoli'n gofyn bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn diffinio sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau o fewn yr ardal sydd dan ei ofal. Mewn gwirionedd mae'r Cynllun yn fwy o lawer na hynny. Mae'n gyfrwng ar gyfer cydweithio, lle mae'r holl bartneriaid yn dod at ei gilydd i ddiffinio'r problemau mae'r Parc yn eu hwynebu, ac yna'n cytuno ar yr hyn sydd ei angen i sicrhau dyfodol cynaliadwy a chydnerth.

CYNLLUN O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL



Mae Parciau Cenedlaethol yn ardaloedd a ddynodir yn genedlaethol, a sefydlir drwy ddeddfwriaeth, ac a ddiffinnir gan ddibenion y Parc Cenedlaethol. Mae Adran 62(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn gofyn bod pob awdurdod perthnasol yn rhoi ystyriaeth i ddibenion y Parc Cenedlaethol yn unrhyw waith a allai effeithio ar y Parc (oddi mewn ac oddi allan i'w ffiniau).

Mae hyn yn golygu bod hwn yn gynllun o Arwyddocâd Cenedlaethol ac mae'r polisïau a'r strategaethau a geir ynddo'n goruchafu dros unrhyw bolisïau rhanbarthol a lleol a geir o fewn y Parc Cenedlaethol, ac fel y cyfryw, dylai'r cynllun hwn ddylanwadu ar unrhyw gynlluniau all effeithio ar ein Parc a'i Rinweddau Arbennig.

RÔL AWDURDOD PARC BANNAU BRYCHEINIOG



Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol dan ofyniad cyfreithiol i lunio Cynllun Rheoli. Felly Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd wedi goruchwyllo datblygiad y cynllun hwn, wedi ffurfio partneriaethau, ac wedi cydweithio â chymunedau i roi'r cynllun hwn at ei gilydd.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu'r cynllun a'i ddefnyddio i lywio'i holl waith yn y dyfodol am y cyfnod dan sylw. Bydd y cynllun terfynol a fabwysiadir yn cael ei gefnogi gan Gynllun Gweithredu Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a fydd yn diffinio sut y byddwn yn hyrwyddo camau i gyflawni'r amcanion allweddol dros gyfnod pum mlynedd y cynllun.

SUT Y PARATOWYD Y CYNLLUN HWN

Mae'r cynllun hwn yn ffrwyth cyfres o sgysiau a gynhaliwyd â'n rhanddeiliaid, dinasyddion, grwpiau cymunedol, Aelodau a gweithwyr yr Awdurdod. Mae'n dilyn yr ymgynghoriad ar Faterion, Gweledigaeth ac Amcanion a gynhaliwyd yn gynnar yn 2021, a ganiataodd inni ddeall y problemau sy'n wynebu'r Parc ar hyn o bryd o nifer o safbwyntiau gwahanol. Yn ogystal, fel dogfen statudol, mae'n ofynnol ei bod hi'n cael ei harchwilio at ddibenion rheoleiddio, i bennu ei heffeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'r asesiadau hyn yn darparu golwg 360 ar bolisiau ac amcanion y cynllun o safbwynt cynaliadwyedd hirdymor.

GWEITHIO Â PHARTNERIAID

Datblygwyd y cynllun hwn mewn cydweithrediad â'n rhanddeiliaid a'n dinasyddion. I wneud hynny, roedd angen creu sianeli ymgysylltu penodol i ganiatáu trafodaeth fanwl a mewnbwn.



Eleni, am y tro cyntaf, sefydlodd a gweithiodd yr Awdurdod gyda Chynulliad Dinasyddion, i helpu i sicrhau bod barn y gymuned yn cael ei hymgorffori yn strategaethau a pholisïau'r cynllun. Cawsom y fraint o weithio gyda grŵp ymroddedig o wirfoddolwyr a ddaeth â phersbectif unigryw oedd yn herio ac yn ysbrydoli ar yr un pryd. Roedd y profiad yn un mor bositif fel bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i gadw'r model cynulliad dinasyddion fel mecanwaith hirdymor, i ganiatáu mewnbwn cymunedol wrth ddatblygu polisiau a'u rhoi ar waith.

Derbyniodd y cynllun fewnbwn cynnar hefyd drwy ein panel cyfeirio rhanddeiliaid, a ddaeth at ei gilydd yn ystod Haf 2021 i adolygu drafftiau cynnar, a rhoi mewnbwn i'n helpu i fframio'r cynllun hwn. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at y tudalennau hyn.

ASESIAD AMGYLCHEDDOL



Yn unol â chyfraith y DU bydd y cynllun hwn yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd ac asesiad dan reoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol a Rheoliadau Cynefinoedd.

Canfu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig a gynhaliwyd ar gyfer y cynllun hwn bod y cynllun yn darparu buddiannau positif lluosog ar draws y pedair colofn cynaliadwyedd.


Mae'r Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd yn ystyried sut y gallai polisiau'r cynllun effeithio ar safleoedd Natura 2000, a elwir yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig dan ddeddfwriaeth y DU. Bu'r Cynllun Rheoli hwn yn destun Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd yn unol â'r canllawiau a osodwyd yn y Llawlyfr Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd. Canfu bod angen i raglenni a pholisïau a ddaw yn sgil gweithredu'r cynllun hwn fod yn destun Asesiadau o Reoliadau Cynefinoedd manwl. Os caiff hynny ei gyflawni mae'r Asesiad yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw agweddau ar y cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol, un ai'n unigol neu ar y cyd.

SUT BYDD Y CYNLLUN YN CAEL EI DDEFNYDDIO

Mae Bannau'r Dyfodol yn gynllun ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan a bydd yn cael ei ddefnyddio i ddiffinio gweledigaeth ar y cyd ar gyfer ein holl weithredu yn y dyfodol.

Mae'r diagram isod yn dangos sut mae'r Cynllun Rheoli'n darparu cyd-destun strategol cyffredinol ar gyfer amryw o gynlluniau a pholisïau o fewn y Parc Cenedlaethol, a luniwyd gan yr Awdurdod ac mewn partneriaeth ag eraill.

Yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Cynllun Rheoli yw'r Cynllun Llesiant ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yr amcanion a nodir yn y tudalennau hyn yw amcanion llesiant y Parc Cenedlaethol, i'w cyflawni drwy weithio ar y cyd (y pum ffordd o weithio fel y'u diffinnir yn y ddeddf).



YSGOGWYR POLISI ALLANOL

Nid yw Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn bodoli mewn gwactod. Fe'i lluniwyd o fewn, ac mewn ymateb i gyd-destun cymdeithasol, economaidd a pholisïau ei leoliad ar adeg ei ysgrifennu. Er bod y Cynllun Rheoli'n gosod y cyfeiriad lleol ar gyfer gweithgaredd o fewn y Parc, mae polisïau allanol a osodwyd ar lefel genedlaethol yn darparu cyd-destun ehangach y mae'n rhaid i'r Cynllun hwn ymateb iddo. Gosodir y dogfennau polisi a'r ddeddfwriaeth allweddol sydd wedi dylanwadu ar y Cynllun a'r broses o'i gynhyrchu isod.

Gwerthfawr a Chydnerth

Mae'r ddogfen Gwerthfawr a Chydnerth, a gyhoeddwyd yn 2018 gan Lywodraeth Cymru, yn diffinio'r blaenoriaethau ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol. Mae wedi'i fframio o amgylch pedair egwyddor allweddol, sef:

- Lleuedd gwerthfawr
- Amgylcheddau cydnerth
- Cymunedau Cydnerth, a
- Ffyrdd cydnerth o weithio.

Mae'r ddogfen yn amlinellu cred Llywodraeth Cymru y dylai Parciau Cenedlaethol fod yn esiamplau o ddatblygu cynaliadwy, sy'n darparu mynediad cyfartal i bawb sydd am ymweld â nhw, gan sicrhau bywyd o ansawdd da ar yr un pryd i bawb sy'n byw o fewn eu ffiniau. Mae hefyd am osod dyletswydd Rheolaeth Gynaliadwy o Adnoddau Naturiol ar Barciau Cenedlaethol ar y cyfle deddfwriaethol cyntaf. Mae Bannau'r Dyfodol wedi'i lunio i sicrhau y bydd Awdurdod y Parc yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon os gosodir dyletswydd arno i wneud hynny yn ystod oes y cynllun hwn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

Mae Cymru'n cael ei llywodraethu gan ddeddfwriaeth sy'n sicrhau bod ystyriaeth i lesiant cenedlaethau'r dyfodol wrth wraidd pob polisi a gweithgaredd cyhoeddus. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn diffinio cyfres o nodau llesiant ar gyfer y Genedl, ac yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn ymgorffori'r nodau hyn wrth iddynt osod eu hamcanion a'u polisïau eu hunain. Mae'r Ddeddf hefyd yn sicrhau bod dogfennau polisi fel hon yn cael eu cynhyrchu ar y cyd a'u hintegreiddio ar draws yr holl ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus gwahanol.

Datganiadau Ardal

Mae Datganiadau Ardal a lunnir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â'i ddyletswyddau dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod strategaeth ar gyfer gwell rheolaeth o Adnoddau Naturiol er budd cenedlaethau'r dyfodol. Fel mae'r enw'n awgrymu, mae'r datganiadau'n seiliedig ar ardaloedd gofodol. Mae saith ohonynt yng Nghymru, gyda phedair o'r rheiny o fewn ardal y Parc Cenedlaethol, sef:

- De-ddwyrain Cymru
- Canol De Cymru
- De-orllewin Cymru
- Canolbarth Cymru

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2020)

Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi adroddiad yn cynnwys asesiad o Sefyllfa Adnoddau Naturiol yng Nghymru. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn ddogfen allweddol yn y broses o baratoi Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol mwyaf diweddar yn tanlinellu'r angen i sectorau cyhoeddus bwysu am newid ar draws ecosystemau, a systemau economaidd a chymdeithasol.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar y Parc Cenedlaethol fel awdurdod cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag ardal y Parc, a thrwy wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

RHOI EIN DIBENION A’N DYLETSWYDD AR WAITH

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddeddfwriaeth allweddol sy'n gorfodi llunwyr polisïau i fabwysiadu meddylfryd system. Mae'n dangos sut mae llesiant yn dibynnu ar y cydbwysedd gofalus o gael yr amgylchedd a chymdeithas yn gweithio mewn harmoni. Mae hyn yn arbennig o wir o fewn y Parc Cenedlaethol, sy'n cael ei reoli gan ein dibenion a'n dyletswydd statudol, ac sydd hefyd angen ymateb polisi sy'n deall y Parc fel system gymhleth o brosesau naturiol a chymdeithasol. Pan fydd y prosesau hyn yn llwyddiannus maent yn creu perthynas lwyddiannus a ffyniannus rhwng pobl a natur.

Yr her i'r Cynllun hwn yw deall beth sy'n gwneud i'r system lwyddo, sy'n golygu gallu diffinio beth mae rhoi ein dibenion a'n dyletswydd ar waith yn llwyddiannus yn ei olygu.

Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang



Rydym am ganolbwyntio yma ar yr amcan Llesiant o greu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, a sut mae hyn wedi'n helpu i ganolbwyntio'n meddyliau ar ein heffeithiau ein hunain. Mae'r nod o gael Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, fel y'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu creu "cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol ar lesiant byd-eang". Yn yr un modd, ein hamcan wrth roi ein dibenion a'n dyletswydd ar waith yw gwneud hynny mewn ffordd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang, gan osgoi gweithredu mewn ffordd a allai fod yn niweidiol i'r amgylchedd, cymdeithas, a'r economi.

Gall siarad am y Parc Cenedlaethol fel un cyfrifol ar lefel fyd-eang awgrymu ein bod yn gweithredu y tu hwnt i'n cylch gwaith, ac mai canolbwyntio ar gyfrifoldebau lleol ddylai fod yn flaenoriaeth bennaf bob amser. Er y dylem weithredu ar lefel leol, yr hyn rydym yn ceisio'i fynegi yma yw bod y Parc Cenedlaethol yn bodoli o fewn cyd-destun byd-eang o systemau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae ein gweithredoedd ar lefel leol yn effeithio ar y systemau hynny, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Does dim diben mewn meddwl yn unig am y ffordd mae ein dibenion a'n dyletswydd yn berthnasol yma yn y Parc os yw ein heconomi ymwelwyr, er enghraifft, yn defnyddio cyfran annheg o'r carbon byd-eang gan gyfrannu at y newid yn yr hinsawdd, yn codi prisiau tai tu hwnt i gyflogau lleol gan olygu bod pobl yn gadael yr ardal, ac yn rhoi pwysau ar wasanaethau mewn ardaloedd sydd eisoes yn ddifreintiedig ar gyrion y Parc. Mae gweithredu lleol yn cael effaith yn fyd-eang.

Mae'r sylweddoliad hwn yn un brawychus ac eto'n un hynod o gyffrous, ac mae'n golygu bod yn rhaid i'r Cynllun hwn gael mecanwaith clir, i ganiatáu inni ystyried canlyniadau ein gweithredoedd ar raddfeydd lluosog, ac o fewn fframiau cyfeirio lluosog.

DEALL LLWYDDIANT

Prif swyddogaeth Bannau'r Dyfodol yw diffinio sut fyddwn ni'n rhoi ein dibenion a'n dyletswydd ar waith. Ein diben cyntaf yw gwarchod yr amgylchedd a'i asedau, amgylchedd sydd wedi'i siapio gan ryngweithiad pobl â'r byd naturiol. Ein hail ddiben yw cysylltu pobl ag amgylcheddau naturiol a diwylliannol er eu difyrrwch a'u llesiant. Mae ein dyletswydd yn ymwneud â sut mae ein cymunedau'n gweithredu o fewn y Parc i sicrhau eu bod yn ffynnu o fewn y dirwedd ddynodedig. Mae'r Parc Cenedlaethol yn bodloni amryw o anghenion gwahanol, gan gynnwys yr amgylchedd naturiol, diwylliant, a chymunedau lleol. I wneud hyn, rhaid inni gydbwyso gofynion croes ein dau ddiben. Nid yw'n gyfrinach bod cyswllt dynol â natur yn aml yn dod ar gost i'n byd naturiol. Rhaid inni droedio'r llinell rhwng ein dau ddiben, gan ddod o hyd i fan canol lle gall pobl fwynhau ecosystemau ffyniannus heb unrhyw effaith negyddol. Rydym wedi addasu model 'toesen' Kate Raworth o ffiniau cymdeithasol ac ecolegol i'n helpu i leihau'r cymhlethdod o roi ein dibenion a'n dyletswydd ar waith yn llwyddiannus. Rydym yn defnyddio'r model hwn am ei fod yn rhagweld byd lle gall y bobl a'r blaned ffynnu mewn harmoni, yn union fel rydym ni'n rhagweld Parc lle mae'r amgylchedd a'r bobl yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu tirwedd er llesiant cenedlaethol.

Mae model y Doesen, sy'n cymryd ei enw o'r siâp a ffurfir, yn gwmpawd sy'n ein pwyntio i gyfeiriad Parc Cenedlaethol cynaliadwy. Mae'n dangos y ffactorau sy'n cyfrannu at lewyrch cymdeithasol, ochr yn ochr ag iechyd ecolegol a phlanedol.

Mae'r doesen yn cynnwys dau gylch consentrig.


Sylfaen cymdeithasol a ffurfiwyd o'n dyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mae'r sylfaen hwn yn gosod ein huchelgais i sicrhau na fydd unrhyw un sy'n byw yn y Parc dan anfantais oherwydd y dynodiad a'n gweithgaredd ni.

Mae'r ail gylch ar ymylon allanol y doesen yn dynodi'n terfyn uchaf ecolegol, a ffurfiwyd o'n diben cyntaf. Mae'r terfyn uchaf ecolegol hwn yn diffinio'n terfynau amgylcheddol ar gyfer parc cynaliadwy.


Rhwng y ddwy set hyn o ffiniau y mae bwlch siâp toesen sy'n ecolegol ddiogel yn ogystal â bod yn gymdeithasol gyfiawn. Man canol lle gall gweithgareddau ein hail ddiben, sef bod pobl yn gallu mwynhau'r parc at ddibenion hamdden, ffynnu.

Felly, mae Toesen y Parc yn fframwaith ar gyfer rhoi ein dibenion a'n dyletswydd ar waith yn llwyddiannus, gyda set o dargedau mesuradwy i bennu llwyddiant. Mae hefyd yn ffordd o ddangos bod yn rhaid i unrhyw weithgaredd a gynhaliwn ni i gwrdd â'n hail ddiben gymryd lle o fewn ffiniau cymdeithasol ac ecolegol, heb achosi niwed y naill ffordd na'r llall.

Mae'r Doesen yn darparu ciplun cyfannol o sefyllfa'r Parc heddiw ac mae'n fan cychwyn ar gyfer y meddylfryd darlun cyfan a geir yn y Cynllun hwn. Gallwch ddarllen mwy am fodel Raworth a'n dehongliad ni ohono yn yr atodiad i'r Cynllun hwn, yn ogystal â'r dangosyddion a ddefnyddir i ddiffinio llwyddiant.



MEINTIOLI LLWYDDIANT



Mae'r ddelwedd uchod yn dangos sefyllfa bresennol y Parc mewn perthynas â'n cymunedau a'n hamgylchedd. Mesurir pob dimensiwn yn erbyn o leiaf un dangosydd allweddol ac mae'r lletymau coch yn dangos i ba raddau rydym yn ddiffygiol neu'n rhagori o ran cyflawni'n dibenion a'n dyletswydd mewn ffordd ddelfrydol (hynny yw, pa mor bell yr ydym o fwrw'n targedau). I rai sectorau, megis newid hinsawdd, a thai – mae'r newid sydd ei angen i ddychwelyd i'r doesen yn enfawr.

Mae gwireddu gweledigaeth Bannau'r Dyfodol yn golygu cael gwared â'r holl rannau coch o ddiagram y Doesen, a rhaid i'r naill ochr a'r llall wneud hynny ar yr un pryd.

Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn cafwyd ceisiadau di-rif i newid y term 'toesen', gyda rhai'n teimlo bod y term yn rhy 'wamal' ac eraill o'r farn bod 'toesen' yn gysylltiedig ag iechyd gwael. Ein hymateb yw mai dyna'r enw a roddwyd i'r model gan y sawl a'i creodd. Rydym wedi cadw'r enw am ein bod yn falch o fod yn rhan o symudiad byd-eang tuag at lesiant ecolegol a chymdeithasol.

Bydd y Doesen yn gosod y sylfaen ar gyfer monitro'r cynllun hwn ac adrodd ar sefyllfa'r Parc yn y dyfodol.

4

Y PARC CENEDLAETHOL HEDDIW

Model yn unig yw'r doesen, ond mae ei neges greiddiol yn ganolog i'r cynllun hwn – ni all ein cymunedau ffynnu oni ellir eu sicrhau na fyddwn yn mynd tu hwnt i derfynau ein defnydd o adnoddau amgylcheddol.

Mae'r tudalennau canlynol yn edrych ar sefyllfa'r Parc yn erbyn y nodau hirdymor a ddiffinnir ar ein cyfer gan y doesen, i nodi'r materion allweddol sydd angen sylw os ydy'r Parc Cenedlaethol am fod yn gynaliadwy yn y dyfodol.



Y PARC HEDDIW

Mae'r llun uchod yn bortread o dirwedd nodweddiadol y Parc fel y'i gwelwn heddiw.

Mae ucheldir moel a garw'n ildio i dirwedd amaethyddol, yn glytwaith o gaeau gwyrdd lle mae da byw'n pori, wedi'u hamgylchynu â gwrychoedd taclus a thraddodiadol.

Mae'r pridd coch sydd mor nodweddiadol o'r ardal i'w weld yn y caeau tir âr.


Mae'r ychydig o ffermdai yn y llun yn tystio bod hon yn dirwedd lle mae pobl yn byw ac yn gweithio.

Mae'r afon i'w gweld yn ymlwybro'n araf ar hyd gwely'r dyffryn.

Eidyl wledig sy'n nodweddu cymhlethdod y rhyngweithio rhwng pobl a natur, yn cyfuno i greu darlun o harddwch naturiol. Ond nid tirwedd gwbl ddiniwed mo hon.

Mae'r tudalennau dilynol yn trafod rhai o'r problemau sydd wrth wraidd sefyllfa'r Parc fel y mae heddiw. Gwnawn hyn drwy ddefnyddio'n model toesen i ddangos pa mor bell i ffwrdd yr ydym o'n nod polisi o greu man cyfiawn a diogel.

CIELIO ECOLEGOL HEDDIW



CYFLWR NATUR YN Y PARC CENEDLAETHOL

>50% 

RHESTR GOCH RHYWOGAETHAU
ADAR 8 wedi gostwng fwy na 50% ym
Mannau Brycheiniog rhwng 1995 a 2018



10% o **SoDdGAau** yn y Parc o
dan reolaeth briodol



56% o **ACA** mewn cyflwr
anffafriol

Yn 2016 cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru [Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol](#). Canfyddiad yr adroddiad oedd nad oedd gan unrhyw un o ecosystemau Cymru yr holl briodoleddau angenrheidiol ar gyfer cydnerthedd. Yn 2018, cyhoeddodd WWF [Living Planet Report](#) a chanfod fod meintiau poblogaethau bywyd gwyllt wedi disgyn 60% yn fyd-eang ers 1970. Yn 2019, gwnaeth y [State of Nature Report](#) (SONARR) amlygu'r golled o 73 o rywogaethau o Gymru gyda 666 pellach mewn risg o ddiiflannu'n gyfan gwbl.

Mae'r ciplun uchod yn amlygu fod natur mewn argyfwng a, thros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi dysgu rhagor am raddau colli cynefin a rhywogaeth ar raddfa fyd-eang a chenedlaethol. Yn 2020, ar ôl cyhoeddi Adroddiad Cyflwr y Parc, gwnaethon ni gyflwyno tystiolaeth am sut yr oedd yr argyfwng hwn i'w weld yn y Parc.


Er enghraifft, ein data am adar yn paru a nythu. Mae adar yn ddangosyddion grymus i ddangos cyflwr iechyd amgylcheddol da. Saif nifer o adar ar frig cadwyni bwyd tir a môr ac wrth ddeall yr hyn sy'n sbarduno ac yn effeithio ar boblogaeth adar cawn fewnwelediad i mewn i statws bywyd gwyllt yn gyffredinol. Gwelwyd bod cyfanswm o 8 rhywogaeth 'rhestr goch' wedi disgyn mwy na 50% yn ardal y Parc, yn cynnwys y wren ddu, llinos werdd, siglen lwyd, bras melyn, y gylfinir, y gynffonwen a'r ydfran. Gwelwyd bod rhai o'n hadar mwyaf cyfarwydd fel yr asgell fraith a'r titw Tomos las wedi disgyn rhwng 25-50%. Gwelwyd y dirywiad hwn ar draws llawer o rywogaethau a chynefinoedd, ac mae hyn yn ddatganiad bod ystod eang o broblemau mewn ecosystemau. Gallai hyn arwain at ganlyniadau dinistriol i'r ddynoliaeth.

Nid stori unigryw i dirluniau a chynefinoedd y Parc Cenedlaethol yw hwn, ond y mae'n wirionedd anghyfforddus, oherwydd diben cyntaf yr Awdurdod yn cadw a gwella holl weithgaredd bywyd gwyllt. Nid yn unig wnaeth adroddiad RSPB [Degawd Coll Natur](#) (2020) amlygu fod y DU wedi methu â chyrraedd unrhyw un o dargedau Aichi a osodwyd allan gan y Cenhedloedd Unedig yn 2019 i stopio'r golled ddinistriol o ran bioamrywiaeth, ond yn fwy arwyddocaol ei fod yn ymddangos fod Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn llai abl nac ardaloedd eraill i ddiogelu'r cynefinoedd mwyaf arwyddocaol yn eu gofal. [Gwnaeth astudiaeth yn Lloegr](#) ganfod bod cyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol yn waeth y tu fewn i'r Parciau Cenedlaethol nac y maent y tu allan. Er nad yw asesiad cyflwr cymharol y tu fewn a'r tu allan i ffiniau'r Parc wedi cael eu cwblhau, rydym yn cydnabod fod cyflwr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (56% mewn cyflwr anffafriol) a SoDdGAau (35% mewn cyflwr anffafriol a dim ond 10% o dan reolaeth briodol) oddi fewn i'r Parc yn is na ble y byddem am iddo fod o ran ecosystem iach, ac yn sicr yn bell iawn i ffwrdd o gael ei wella.

Mae'r rhesymau dros y darlun hwn yn niferus ond mae SONARR (2019) a dogfen WWF [Argyfwng Hinsawdd Cymru](#) (2020) yn amlygu'r canlynol fel y pethau sy'n gyrru'r golled o ran bioamrywiaeth yn y DU:-


- Rheoli Amaethyddol
- Newid hinsawdd
- Newid hydrolegol
- Trefoli
- Rhywogaethau estron goresgynnol
- Llygredd
- Rheoli coetiroedd

Yn y fersiwn hon o'r doesen cymerwn olwg fanylach ar y 'nenfwd cymdeithasol' i geisio gweld lle rydym arni o ran y gwahaniaeth rhwng ein nodau polisi a sefyllfa bresennol y Parc.




Y SYLFAEN GYMDEITHASOL HEDDIW

BYW A GWEITHIO YN Y PARC



Anghenion o ran tai fforddiadwy 2007-2022



35.8%
Cyfran o gyfanswm poblogaeth ein preswylwyr dros 65 erbyn 2031

48.8%
Cyfran o gyfanswm poblogaeth ein preswylwyr rhwng 16-64 erbyn 2032

Mae ein cymunedau wrth galon y Parc Cenedlaethol, ond nid yw byw gwledig heb ei anawsterau. Ymhlith y nifer o ystyriaethau sy'n wynebu cymunedau yn y Parc ar hyn o bryd ceir - newid hinsawdd; cynnydd mewn risg o lifogydd; tloidi tanwydd; mynediad at wasanaethau; newidiadau i gyfundrefnau cymhorthdal amaethyddol (gweler nesaf); tloidi gwledig; prisiau tai; poblogaeth sy'n heneiddio; cydraddoldeb a chynhwysiant; ecwiti rhyng-genhedlaeth; pobl ifanc yn symud i ffwrdd a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus. Cafodd effaith nifer o'r ystyriaethau hyn eu gwaethygu gan bandemig COVID-19.

Ystyriaeth allweddol arall sy'n effeithio ar ein cymunedau yw newid demograffig. Dros yr ychydig ddegawdau diwethaf, collwyd pobl ifanc o'r ardal. Mae'r rheswm pam fod hyn yn digwydd yn gymhleth – yn rhannol y mae yn sgil atynfa cyffro'r ddinas fawr, ond y mae hefyd yn sgil diffyg cyfleoedd cyflogaeth yn y Parc a phrisiau uchel tai. Yn sgil colli pobl ifanc, mae poblogaeth y preswylwyr yn heneiddio, ac yna'n mynd yn hŷn gan fod yr ardal yn boblogaidd ar gyfer symud iddi i ymddeol. Mae pobl sy'n rhydd o ofynion teithio'n ddyddiol i'r gwaith yn dymuno treulio eu hymddeoliad yn y wlad. Canlyniad hyn yw prisiau tai uwch a cholli gwasanaethau a chyfleusterau fel ysgolion o'r cymunedau. Mae hyn yn gosod pwysau sylweddol ar ein pentrefi i amsugno rhagor o dwf a darparu tai fforddiadwy i bobl iau, tra saif y stoc tai cyfredol yn wag fel tai haf ac ail gartrefi – sy'n arwain at greu 'pentrefi noswyllo'.

Rydym ni hefyd yn dyst i ddirywiad digynsail canol ein trefi. Mae cyfraddau gwacter wedi bod yn uchel ers peth amser. Rydym yn disgwyl gweld y sefyllfa hon yn gwaethygu yn sgil effaith COVID-19 ar fanwerthu ar y stryd fawr.

Mae ein strwythur economaidd yn gymaint o ganlyniad i'n fframwaith fel cyrchfan ag ydyw fel Parc Cenedlaethol. Rydym yn llai dibynnol ar sectorau economaidd traddodiadol (fel gweithgynhyrchu a diwydiant) ond yn fwy dibynnol ar economi gwasanaethau sy'n amgylchynu'r fasnach dwristaidd. Yn ei thro, mae ein hapêl fel cyrchfan i dwristiaid yn dibynnu'n gryf ar dirwedd sy'n bennaf amaethyddol, â chymeriad a chydnerthedd sy'n ddibynnol ar weithredoedd ffermwyr sy'n gwneud eu bywoliaeth ar y tir.

Gellir gweld bod ffyniant economaidd a fynegir drwy ddangosyddion allweddol y farchnad lafur yn dangos sifft o fod yn fwy ffyniannus i lai ffyniannus wrth i chi deithio o ardaloedd gogleddol yr Awdurdod i'r de. Mae ardaloedd amaethyddol gwledig y Parc Cenedlaethol yn arddangos ar gyfartaledd lefelau incwm uwch nag aneddiadau trefol meysydd glo Cymoedd De Cymru (anghyfannedd bellach) sydd ar ein hymylon deheuol. Caiff y gwahaniaeth gofodol hwn ei weld hefyd yn y lefelau o gyflogaeth, addysg ac aml-fesurau amddifadedd, yr oll yn dangos tuedd o waethygu o'r Gogledd i'r De.

Cafodd economïau byd-eang eu dinistrio gan effeithiau Coronafeirws a'r shift mewn ymddygiad a achoswyd gan hyn. Nid yw economi'r Parc Cenedlaethol yn anhydraidd i'r sioc a deimlir yn llym oddi fewn i sectorau fel manwerthu a thwristiaeth. Ar y cyd â'r ansicrwydd economaidd sy'n greiddiol i argyfwng Coronafeirws, caiff effeithiau ychwanegol eu rhagweld o gwmpas Brexit, a chytundeb masnach â'r UE yn y dyfodol. (Anhysbys ar adeg ysgrifennu hwn). Rhagwelir y bydd hyn yn cael yr effaith fwyaf lem ar y sector Amaethyddol, ond bydd hefyd yn effeithio ar yr holl sectorau sy'n dibynnu ar allforio a mewnfario nwyddau a gwasanaethau gyda Ewrop, gan gynnwys twristiaeth.

CRAIDD Y PARC CENEDLAETHOL HEDDIW

TARGED

Y ffactorau sy'n cyfrannu at ein llonyddwch yn cael eu mesur a'u mapio a'u cadw fel y maent. Dim newid uwch na >0.5% o ran disgleirdeb o fewn ardal y PC.

TARGED

Dim colled net o ran digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol traddodiadol, e.e. Sioeau Amaethyddol ac Eisteddfodau.

PRESENNOL

Cynhaliwyd 64 o ddigwyddiadau diwylliannol yn 2019.

TARGED

Yr holl ymwelwyr yn cael profiad positif wrth ymweld â'r Parc.

PRESENNOL

Dewisodd 85% o'r ymwelwyr a holwyd yn 2016/17 y lefel uchaf o foddhad ymwelydd (Da iawn).

PRESENNOL

Mae mapiau ardaloedd tawel Cyfoeth Naturiol Cymru'n dangos bod 83.6% o'r Parc yn dod dan y categori 'llonydd'. Mae mwyafrif y Parc yn dod dan y lefel isaf o allyriadau disgleirdeb, sy'n golygu ein bod yn ardal o awyr dywyll yn bennaf.

PRESENNOL

Mae data a gasglwyd yn 2019 yn dangos bod 18% o'r 385 o Henebion sydd yn y Parc mewn cyflwr anffafriol.

TARGED

Yr holl nodweddion hanesyddol o fewn ein trefluniau a'n tirluniau mewn cyflwr ffafriol, p'un ai ydynt wedi'u rhestru ai peidio.

PRESENNOL

Roedd meysydd parcio mewn mannau prysur (Bro'r Sgydau a Storey Arms) wedi'u gordanysgrio 62.5% a <200%. O'r 423 o ymwelwyr a holwyd ym Mro'r Sgydau yn 2017, dim ond 1% a ddaeth yno ar drafnidiaeth gyhoeddus.

TARGED

O leiaf 75% o ymweliadau â'r Parc yn elwa o drafnidiaeth gynaliadwy o ryw fath, gan gynnwys cerbydau trydan neu drafnidiaeth gyhoeddus.

TARGED

1. Dim newid niweidiol
2. Gwellu'r ardaloedd a nodwyd fel rhai gwael
3. Chwilio am ffyrdd o wella ansawdd a chyflwr y Parc cyfan.

PRESENNOL

Mae Asesiad Tirwedd Prifysgol Reading 2021 yn nodi 4 allan o 12 math o gymeriad tirwedd sydd angen eu hadfer.

TARGED

Rhwydwaith o hawliau tramwy hygyrch sydd wedi'u cysylltu'n dda.

PRESENNOL


Mae data a gasglwyd yn 2019 yn dangos pa ganran o hawliau tramwy'r Parc Cenedlaethol oedd yn 'hawdd eu defnyddio'. Roedd ychydig dros 10% ar gau ac roedd arwyddbyst ar 76%.

TARGED

Gwellu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Parc.

PRESENNOL

Mae'r data ar gyfer y dangosydd hwn yn dangos faint o wybodaeth a gaiff ymwelwyr â'r Parc am ei fywyd gwyllt, treftadaeth a heriau, yn ystod eu hymweliadau. Mae casglu data yn un o anghenion ymchwil - ond ym mhrofiad staff y Parc, nifer fach iawn o ymwelwyr sy'n ymddwyn yn heriol. Ar hyn o bryd, yn ôl y dangosydd hwn, ni chedwir bob tro o fewn y ffiniau ecolegol a chymdeithasol.



Yn y fersiwn hon o'r doesen, cymerwn olwg fanylach ar Graidd y Parc Cenedlaethol i geisio gweld lle rydym arni o ran y gwahaniaeth rhwng ein nodau polisi a sefyllfa bresennol y Parc.

CYFLEOEDD I FWYNHAU'R PARC

22% 

CYNNYDD i ganran Hawliau Tramwy yn y Parc a ddosberthir fel 'Hawdd Eu Defnyddio' ers 2011



342 Amcangyfrifir bod 342 yn fwy o geir ymwelwyr yn parcio yn ardal

Storey Arms ar adegau brig nag oes yna o fannau parcio ar eu cyfer (<200% dros y capasiti)



650 Cyrhaeddodd 650 yn fwy o geir ymwelwyr ar adegau brig yng Ngwlad y Sgydau ar ôl cyfnod clo 2020 nag oedd yna o fannau parcio ar eu cyfer (62.5% dros y capasiti)

31% 

CYNNYDD i ganran Hawliau Tramwy yn y Parc a ddosberthir fel 'Ar Agor' ers 2011.

Gweledigaeth penseiri dynodi Parc Cenedlaethol oedd darparu cyfleoedd mynediad am ddim i gefn gwlad i holl aelodau'r gymdeithas, ar gyfer yr hyn a alwyd yn hamdden awyr agored. Roedd hyn yn elfen allweddol i adferiad cymdeithasol a gyflwynwyd ar ôl erchyllterau'r ail ryfel byd ac fe'i hystyriwyd yn hanfodol ochr yn ochr â chreu'r wladwriaeth les, GIG a chyflog yn ystod gwyliau.

Mae'r modd y mae pobl yn cael mynediad i gefn gwlad a'i ddefnyddio wedi trawsnewid y weledigaeth ôl-ryfel hon yn llwyr. Nid yn unig yw poblogaeth y DU wedi tyfu'n sylweddol – ceir tua 13 miliwn yn fwy o bobl yn y DU heddiw nag oedd ym 1949 – ond mae perchnogaeth ceir wedi cynyddu'n esbonyddol. Ym 1950, roedd 4 miliwn o geir ar y ffyrdd, mae hyn wedi cynyddu i 38.4 miliwn erbyn heddiw. Mae'r twf hwn o ran pobl a'r defnydd preifat o geir wedi cael effaith fawr ar y Parc Cenedlaethol a'n gallu i reoli pwysau ymwelwyr. Mae twristiaeth, sef ymwelwyr sy'n aros neu'n ymweld am y dydd, yn un o elfennau mwyaf arwyddocaol yr economi leol. Yn wir, mae gwariant ymwelwyr wedi cynyddu gymaint â 45% ar y cyfan ers 2007. Daw ymwelwyr i'r Parc Cenedlaethol am nifer fawr o resymau, ond yn y bôn maen nhw'n dod i'r Parc Cenedlaethol am ei fod yn arwain at deimladau o lesiant sydd o fudd i iechyd emosiynol a hapusrwydd. Nid y bobl yw'r broblem, ond y modd y mae'r bobl yn cael mynediad i'r Parc.

Ni fu eleni'n flwyddyn arferol. Am y tro cyntaf mewn degawd roedd ardaloedd mawr o'r Parc Cenedlaethol wedi cau ac roedd mynediad cyhoeddus yn anghyfreithlon. 'Dewch i ymweld yn ddiweddarach' oedd tiwn gron y Parc yn ystod cyfnod clo 2020.

Yn ystod y cyfnod clo, yr unig gysur i lawer oedd mynd am dro lleol yn ddyddiol. Mae'r cyfle newydd i dreulio amser hamdden mewn mannau awyr agored wedi dod yn gyfystyr ag iachâd, ac yn gytras â gweledigaeth Dower a Hobhouse am y Parciau Cenedlaethol yn ôl yn y 1940au. Ar ôl i'r cyfnodau clo ddod i ben, gwelwyd ymwelwyr yn dychwelyd mewn niferoedd na welwyd o'r blaen, fel petaent yn profi'r pwynt.

Mae llawer o ymwelwyr yn ymgynnull mewn lleoliadau eiconig penodol fel yng nghanol y Bannau yn Storey Arms a Gwlad y Sgydiau ym Mhontneddfechan. Yn aml mae hyn yn golygu ein bod ni'n gweld ymwelwyr yn cyrraedd mewn nifer sydd y tu hwnt i'r hyn all yr ardal ymdopi ag e. Mae hyn yn arwain at amrywiaeth o effeithiau nad ydynt yn unig yn andwyol i ansawdd profiad yr ymwelydd ond hefyd yn effeithio'n groes ar y cymunedau sy'n eu derbyn ac yn cael eu llethu gan ormod o ymwelwyr.

Ystyriaethau sy'n gysylltiedig â phwysau gormod o ymwelwyr y tu hwnt i'r capasiti:-

- Allyriadau trawsgludo
- Ystyriaethau tagfa draffig a pharcio
- Cynnydd mewn tai haf ac ail gartrefi
- Gweithgaredd hamdden amhriodol
- Llygredd sŵn
- Erydiad uwchdirol
- Effaith ar gynefinoedd sensitif ac amharu ar fywyd gwylt
- Newid croes oddi fewn i rinweddau arbennig
- Effaith ar gymunedau, treftadaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg

5

PARC CENEDLAETHOL Y DYFODOL

I weithredu mewn ymateb i'r materion a nodwyd a sicrhau bod y gweithredu hwnnw o fewn y terfyn uchaf ecolegol a'r sylfaen cymdeithasol, mae gofyn cymryd camau trawsnewidiol a chydweithredol.

I lywio'r gweithredu hwn, mae'r cynllun yn diffinio gweledigaeth 25 mlynedd, sy'n anelu at roi ein dibenion a'n dyletswydd ar waith o fewn cyd-destun yr 21ain ganrif, gan fod yn effro i broblemau'r hinsawdd a'r argyfwng natur.

Cefnogir y weledigaeth gan dri amcan allweddol sy'n anelu at sicrhau ein bod yn rhoi ein dibenion a'n dyletswydd ar waith yn llwyddiannus, i greu Parc Cenedlaethol ffyniannus i bawb.





PARC Y DYFODOL

Mae'r llun hwn yn mynd â ni nôl i'r un olygfa nodweddiadol yn y Parc Cenedlaethol. Ond y tro hwn, rydym wedi symud y cloc ymlaen 25 mlynedd i greu darlun o dirwedd bosib yn y dyfodol.

Mae'r dirwedd hon yn un lle mae natur a ffermio'n gweithio ochr yn ochr i greu tirwedd gydnherth a bioamrywiol.

Bydd dyfodol cynaliadwy ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn arddel adferiad natur, atebion seiliedig ar natur i'r newid yn yr hinsawdd, twf gwyrdd, a throi ein cymunedau'n rhai all gynnal bywyd carbon isel sy'n hygyrch i bawb.

Gobeithiwn y bydd eraill yn cael eu hysbrydoli i weithredu, a bod ein hymwelwyr yn elwa ac yn dysgu o gael cyswllt agosach â byd sy'n gyforiog o natur. Dyma sy'n sbarduno'n gweledigaeth ac rydym yn gwahodd ein holl bartneriaid i'w rhannu gyda ni.

Credwn ei bod hi'n hanfodol gweithredu ar hyn nawr, a lle bo modd, ar y cyd â phawb sydd am sicrhau hyfywedd y Parc ar gyfer pobl a natur.

EIN GWELEDIGAETH


Bydd ein Parc Cenedlaethol yn faner o ysbrydoliaeth, a fydd yn ein hysgogi i weithio tuag at ddyfodol llewyrchus a chynaliadwy.

Byddwn yn harneisio'r pŵer o gael natur a phobl yn gweithio ochr yn ochr i'n helpu i wynebu'r newid yn yr hinsawdd, dirywiad bioamrywiaeth, yr adferiad economaidd ar ôl Covid, a'r argyfwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn 2045, bydd Bannau Brycheiniog yn ecolegol gydnherth a byddwn yn sero carbon. Bydd ein cymunedau'n ffynnu a byddant yn cydgysylltu ac yn cydweithio â'i gilydd. Bydd diwylliant, tirwedd ac amgylchedd y Parc yn dod ag ysbrydoliaeth a llawenydd i bawb sy'n byw yma ac yn ymweld â'r lle.

EIN HAMCANION

Rydym yn defnyddio'n dibenion a'n dyletswydd statudol i fframio'n hamcanion ar gyfer y cynllun hwn, ar sail ein dealltwriaeth o weithredu llwyddiannus fel y'i diffinnir gan y Doesen. Caiff pob amcan ei gefnogi gan gyfres o bolisiâu ar wahanol bynciau, gyda'r nod o osod y trywydd ar gyfer eu gwireddu. I gyflawni'r amcanion hyn, bydd angen inni newid ein harferion gwaith i sicrhau bod cydweithio a chydweithredu wrth wraidd popeth a wnawn. Mae cyfres o bolisiâu i gloi yn ymwneud â'r modd y caiff y cynllun ei weithredu.



6

POLISIAU AR GYFER GWEITHREDU

Mae'r adran nesaf yn diffinio cyfres o bolisiau ar gyfer rheoli'r Parc Cenedlaethol yn y dyfodol yn unol â'n dibenion a'n dyletswydd. Mae pob datganiad polisi'n dilyn patrwm tebyg, gan ddiffinio'r amcan lefel uchel ac yna rhoi braslun o'r trywydd ar gyfer ei weithredu, gan gynnwys mesurau llwyddiant.

Mae pob datganiad polisi'n cynnwys diagram sy'n dangos pa sectorau o'r doesen y bydd yn cyfrannu tuag atynt. Fel hyn gallwn ddangos sut mae'r polisiau'n helpu i roi'n dibenion a'n dyletswydd ar waith ar draws amryw o sectorau rhyngweithiol.

Am fod hon yn ddogfen ymgynghori, mae rhai o'r datganiadau polisi'n cynnwys yr un faint o gwestiynau ag atebion. Mae Awdurdod Cenedlaethol y Parc yn defnyddio'r cyfnod ymgynghori hwn i gasglu barn bellach ar sut y gallwn fynd ati i gyflawni pob amcan. Mae'r Awdurdod hefyd am ysbrydoli partneriaid i ddod at ei gilydd, i greu clymblaid o rai sy'n barod i ymrwymo i'n helpu i sicrhau'r newidiadau angenrheidiol

POLISIÂU SY’N GYSYLLTIEDIG Â’N DIBEN PENNAF

I gyflawni’r amcan sy’n gysylltiedig â’n diben pennaf a’n terfyn uchaf ecolegol, rydym wedi nodi cyfres o ymyriadau polisi sy’n canolbwyntio ar adfer iechyd ecolegol a phlanedol, gyda’r nod o gael y Parc yn gweithredu o fewn ei derfynau amgylcheddol unwaith eto, er budd pawb.

POLISIÂU AM DDARPARU

AMCAN: byddwn yn gwarchod ac yn cyfoethogi prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

DEILLIANT: mae’r Parc yn gweithredu o fewn capasiti amgylcheddol a phlanedol, yn cefnogi ecosystemau iach a thirweddau ffrwythlon, gwydn.

Polisi	Tudalen
NEWID HINSAWDD	44
TIRWEDD	46
ADFER NATUR	48
COEDLINIAU	50
MAWNDIR	53
DWR	56




Mae camau gweithredu'r cynllun hwn yn ymrwymo pawb sydd â chyfran yn y Parc i fynd i'r afael a'r argyfwng hinsawdd. Mae'r ymrwymiad yn gofyn ein bod bron yn sero carbon neu'n sero carbon erbyn 2039.

Yn unol â Chytundeb Paris, bydd gofyn i'r Parc Cenedlaethol gadw o fewn uchafswm cyllideb allyriadau carbon deuocsid cronol o 1,557 mil o dunelli (ktCO₂) am y cyfnod 2020 i 2100.

Ar lefel allyriadau CO₂ 2017, byddai'r gyllideb gyfan wedi'i gwario o fewn 6 blynedd o 2020, ac felly mae angen sefydlu rhaglen i ostwng lefelau CO₂ ar unwaith, sy'n cyd-fynd â'r cyfnodau cyllidebu a ddiffiniwyd, i sicrhau gostyngiad blynyddol cyfartalog o 14% mewn allyriadau ar draws y Parc Cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae'r gyllideb garbon hon yn berthnasol i allyriadau CO₂ o'r system ynni'n unig. Serch cydnabod bod angen inni leihau'r holl allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr i gwrdd â nodau newid hinsawdd, yn arbennig i leihau methan (CH₄) ac ocsid nitrus (N₂O), nid yw'r data i osod cyllideb ar gael ar lefel leol. Er bod angen lleihau'r allyriadau hyn, mae cynhyrchu bwyd hanfodol yn golygu na ddisgwylir i'r allyriadau hyn ostwng i sero – gan olygu bod angen cynllun ar gyfer Defnyddio Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth (LULUCF) sy'n cynnwys dal a storio digon o CO₂ i helpu i wneud iawn am allyriadau heb fod yn CO₂.

NEWID HINSAWDD



Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae'r argyfwng hinsawdd yn fygythiad difrifol i'r Parc Cenedlaethol, cymunedau lleol, bioamrywiaeth, a'n hamgylchedd naturiol a hanesyddol.

Mae ein tirweddau a'n bywyd gwyllt yn arbennig o agored i niwed ac rydym eisoes yn dechrau gweld effeithiau newid hinsawdd yn y Parc. Disgwylir y bydd yr effeithiau hyn yn cynyddu.

Nid man sy'n goddef newid hinsawdd yn unig yw'r Parc Cenedlaethol, a gall fod yn ysgogwr atebion grymus. Mae'n hanfodol ein bod yn gwarchod tirweddau, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ein Parciau Cenedlaethol rhag effeithiau newid hinsawdd, ac yn datblygu ffyrdd o addasu, er mwyn cyflawni'n dibenion statudol, ac felly hefyd helpu eraill i ddeall sut allan' nhw helpu.

Mae yna ddealltwriaeth gyffredinol erbyn hyn ein bod yn wynebu argyfwng newid hinsawdd a cholled bioamrywiaeth fyd-eang, ac mae'r ddau beth hyn yn cydberthyn. Mae angen gweithredu ar frys i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a lliniaru cynhesu pellach, i addasu i'r newidiadau sydd i'w gweld eisoes, ac i godi ymwybyddiaeth ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r cyhoedd yn gyffredinol o'r hyn allan' nhw ei wneud i fynd i'r afael â'r her hon.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys amryw o bolisiau sy'n anelu at ddal a storio carbon a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond gwyddom na fydd hyn yn ddigon. Mae angen gweithredu ymhob sector ac ar bob lefel, o'r dinesydd unigol i lywodraethau cenedlaethol.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym am ddatblygu cynllun gweithredu i leihau carbon a nwyon tŷ gwydr, ac rydym am gael ein partneriaid i ymrwmo i'r gyllideb garbon hon ar gyfer pobl ac amgylchedd y Parc Cenedlaethol.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Lliniaru: Bydd allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (allyriadau CO₂ a heb fod yn CO₂) wedi gostwng, a bydd dal a storio carbon drwy Ddefnyddio Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth (LULUCF) wedi cynyddu, yn unol â gofynion y gyllideb.

Addasu: Bydd y dirwedd a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn fwy cydnerth yn sgil creu cynefinoedd ac adfer iechyd, swyddogaeth a chysylltedd ecosystemau.

Addysg: Bydd ein cymunedau'n llythrennog o ran carbon ac wrthi'n lleihau eu defnydd ohono. Bydd ein hymwelwyr yn deall y camau rydym ni a'n cymunedau'n eu cymryd, ac mae'r ddealltwriaeth honno'n parhau y tu hwnt i'w hymweliadau.

Ymchwil: Bydd ymchwil academaidd a gwyddonol ar droed, yn edrych ar dechnegau arloesol i reoli tir yn gynaliadwy, megis adfer mawndir a gweundir, creu coetiroedd cynaliadwy, arferion ffermio atgynhyrchiol, a newid ymddygiad.

Y tir a chael gwared â nwyon tŷ gwydr: Bu trawsnewidiad ym myd amaeth a'r defnydd o dir ffermio, gan gynnal yr un lefelau o fwyd y pen ac a gynhyrchir heddiw; mae mawndiroedd wedi'u hadfer a chânt eu rheoli'n gynaliadwy; mae mwy o goetiroedd brodorol llydanddail cymysg; mae tir amaethyddol yn cyfrannu at greu bio-ynni, ac mae arferion ffermio carbon isel wedi'u mabwysiadu ar raddfa eang.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Byddwn yn adrodd yn flynyddol ac yn dryloyw ar Gyllideb Garbon y Parc Cenedlaethol, gan ddefnyddio ystadegau cenedlaethol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar allyriadau carbon deuocsid.

Byddwn hefyd yn adrodd ar gynnydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn perthynas â dod yn sefydliad sero carbon, ac ar ein gwaith partneriaeth i geisio dal a storio mwy o garbon drwy LULUCF.

Byddwn yn cydnabod cynnydd drwy dystiolaeth o ostwng allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a dal a storio mwy o garbon.

The background image is a landscape photograph showing rolling hills with patches of green and brown vegetation. A river flows through the middle ground, reflecting the sky. The sky is filled with soft, grey clouds. Two semi-transparent blue text boxes are overlaid on the image. The top box contains text about the importance of the park for its natural heritage. The bottom box contains text about the definition of 'Tirwedd' (landscape) and the impact of human activity on it.


Mae'r dirwedd yn hanfodol i bopeth sy'n gwneud y Parc Cenedlaethol yr hyn ydyw. Mi fyddwn, yn ein holl ymdrechion i arwain a chydgordio newidiadau angenrheidiol i'r dirwedd, yn gweithio i sicrhau bod yr hanfod hwn yn parhau'n gryf ac yn hollbwysig.

Byddwn yn mynd ati i gadw a gwella nodweddion y dirwedd sydd o werth hanfodol yn sgil eu gwerth daearegol, geomorffolegol, ecolegol, treftadol neu esthetig.

Mae'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd yn diffinio "Tirwedd" fel "ardal, wedi'i dehongli gan bobl, y mae ei chymeriad yn ganlyniad i weithredu a rhyngweithio rhwng ffactorau naturiol a/neu ddynol". (Cyngor Ewrop, 2000).

Mae ein Rhinweddau Arbennig yn deillio o ryngweithiad pobl â'r dirwedd, ac felly amcan pennaf y cynllun hwn yw sicrhau bod cymeriad y dirwedd yn cael ei gadw a'i wella ym mhopeth a wnawn.

TIRWEDD



Pam mae hyn yn bwysig?

Ein tirwedd sy'n gyfrifol am ein henwogrwydd, ac mae'n cael ei gwerthfawrogi gan filiynau o ymwelwyr bob blwyddyn, ond mae ansawdd y dirwedd yn fregus.

Un ffordd hwylus o ystyried yr angen i reoli'r dirwedd yw ei ystyried drwy lygad economegydd, sy'n gweld y Parc Cenedlaethol fel 'adnodd cronfa gyffredin' – un sy'n agored i broblemau megis tagfeydd, gorddefnydd, llygredd, a difrod posib, oni chaiff ei reoli'n ofalus.

Mae'n dilyn felly na fydd ein tirweddau, oni chânt eu meithrin (fel adnodd craidd) yn gallu parhau i gynorthwyo'r Parc Cenedlaethol i ddarparu arena ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored llesol, gan barhau ar yr un pryd i gefnogi datblygiad cymunedau lleol, gweithgareddau economaidd, ac ymateb i orchmynion mewn perthynas â'r hinsawdd ac adferiad natur.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Mae'r amrywiaeth eang o fuddiannau a rhanddeiliaid, pob un â'i flaenoriaethau a'i ofynion ei hun, yn gofyn am systemau pwysig a chymhleth, a gwneud penderfyniadau cam wrth gam.

Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau hyn yn ei rôl ffurfiol fel Awdurdod Cynllunio Lleol. Fodd bynnag, mae gan Awdurdod y Parc bwerau pellach hefyd i weithredu i gyflawni ei ddibenion.

Felly gall Awdurdod y Parc Cenedlaethol weithio mewn partneriaeth ar sail gofodol neu thematig i sicrhau'r newid a ddymunir:

- o fewn y cyd-destun polisi a'r penderfyniadau strategol sy'n dylanwadu ar newidiadau i'r dirwedd;
- yn y ffordd mae tir yn cael ei ddefnyddio a'i reoli; ac
- o ran gweithredoedd a dewisiadau unigol pobl a busnesau.

Mae rheolaeth ofalus o'r fath hefyd yn gyfrifoldeb allweddol ar yr holl 'awdurdodau perthnasol' eraill sy'n ymarfer unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â, neu sy'n effeithio ar dir o fewn Parc Cenedlaethol.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?


Mae astudiaeth 2021 yn darparu methodoleg ar gyfer pennu cyflwr y dirwedd, ar sail i ba raddau mae ardaloedd yn cadw eu cymeriad gweledol, diwylliannol ac ecolegol.

Mae'n dilyn felly y byddai llwyddiant yn gwella cyflwr cyffredinol yr holl fathau o dirwedd na chafodd sgôr dda yn eu hasesiad, ac yn cynnal neu'n gwella sgorau da neu dda iawn y mathau o dirwedd a aseswyd felly.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Byddwn yn ailadrodd yr asesiad o gyflwr tirweddau fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Rheoli hwn ar gyfer ein cymunedau a'n hymwelwyr.


Byddwn yn cynnal asesiad blynyddol o fewn ardaloedd a aseswyd fel rhai gwael neu wael iawn.



**Byddwn yn gwrthdroi'r dirywiad
mewn bioamrywiaeth drwy
ganolbwyntio ar ddatblygu
rhwydweithiau sy'n ecolegol gydnerth,
yn fwy amrywiol, yn ehangach, mewn
cyflwr ecolegol gwell ac yn fwy
cydgysylltiedig.**

Mae'n ffaith amlwg bod bioamrywiaeth yn dal i ddirywio ar lefel ryngwladol. Yn anffodus, nid yw Ardaloedd Gwarchodedig y DU, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, wedi'u heithrio rhag y duedd hon.

ADFER NATUR



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae bioamrywiaeth wrth wraidd ein hamgylchedd naturiol a'r buddiannau lluosog a ddarperir gan ecosystemau iach, gweithredol, megis dŵr glân, peiliad, a dal a storio carbon. Hefyd, mae yna werth cynhenid difesur i fioamrywiaeth. O ystyried yr heriau sy'n wynebu bioamrywiaeth a'n dibyniaeth ar y byd naturiol am ein llesiant corfforol a meddyliol, awgrymwyd ein bod wedi cyrraedd man di-droi'n-ôl, a'i bod hi'n annhebygol bellach y gellir gwrthdroi dirywiad natur. O ganlyniad, mae ein bodolaeth dan fygythiad, ac mae angen gweithredu ar frys. Mae'r Parc Cenedlaethol yn fan lle gall pethau mawr ddigwydd. Mae nifer o'r cyfleoedd i adfer byd natur yn y Parc wedi'u gosod o fewn ecosystemau a chynefinoedd o faint, graddfa ac ansawdd eithriadol.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Dim ond trwy gydweithio y gellir adfer natur ar raddfa ystyrlon, a hynny ar draws ffiniau daearyddol a defnyddiau tir gwahanol, gan gynnwys yr holl bobl, dros flynyddoedd, ac weithiau, dros genedlaethau lawer.

Mae'r heriau yn rhy fawr i unrhyw un asiantaeth lywodraethol, sefydliad anlywodraethol, cymuned neu dirfeddiannwr i fynd i'r afael â nhw ar eu pennau'u hunain, ac felly bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu drwy'r Bartneriaeth Natur Leol, fel fforwm ar gyfer arloesedd, rhyddid meddwl, a dadleuon sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gyflawni ei Gynllun Gweithredu i Adfer Natur, gan wneud y mwyaf o'i arbenigedd ac ymateb yn effeithiol i gyfleoedd i weithio ar y cyd fel bo modd. Rydym yn awyddus i annog mwy o sefydliadau i ddod yn fwy gweithredol mewn mwy o lefydd am fwy o'r amser ar draws eu Parc Cenedlaethol.

Rydym yn defnyddio'r ymgynghoriad hwn i annog pawb i ymrwymo i'n helpu i roi'r polisi hwn ar waith. Mae gennym ddiddordeb yn syniadau pobl eraill, ac rydym yn agored i arbenigedd a syniadau'n partneriaid.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Rhwydweithiau sy'n ecolegol gydnerth, sy'n fwy amrywiol, yn ehangach, mewn cyflwr ecolegol gwell ac yn fwy cydgysylltiedig.


Yn ogystal, byddwn wedi:

- Gwella'n tystiolaeth, dealltwriaeth a'n dull o fonitro cydnertheddd ecolegol.
- Uno gweithredu lleol i adfer natur a sicrhau ei fod wedi'i integreiddio â chynlluniau a strategaethau adnoddau naturiol perthnasol.
- Cynyddu cydnertheddd ein hamgylchedd lleol drwy warchod y cynefinoedd lled-naturiol presennol, adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio, a chreu cynefinoedd newydd.
- Nodi a chymryd camau wedi'u targedu ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd allweddol fel rhan o raglen weithredu integredig ehangach i adfer natur; ac
- Ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol ynghylch adferiad natur gan ddefnyddio iaith a thechnegau gwahanol i danlinellu perthnasedd natur i bob un ohonom, a thrwy hynny sicrhau bod yna ymgysylltu a gweithredu ar bob lefel.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Byddwn yn cydnabod cynnydd fel gwelliant o ran iechyd ecolegol ac yn ei weld trwy ddadansoddi arwyddion hanfodol sydd wedi'u harolygu a'u monitro'n benodol.

Bydd y Bartneriaeth Natur Leol yn parhau i weithio gyda Phrifysgolion a sefydliadau addysgol eraill i gael gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol.




Byddwn yn datblygu tirwedd sy'n gyforiog o goed, coedwigoedd a gwrychoedd, ynghyd â choetiroedd sydd wedi'u rheoli'n well, coetiroedd hynafol sydd wedi'u hadfer, a mwy o goed, i sicrhau'r buddiannau cymdeithasol ac ecolegol a ddaw yn eu sgil.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Cynllun Coedliniau, i ehangu ac adfer coetiroedd a choed ar draws y Parc Cenedlaethol, gan sicrhau bod y cynigion:

- yn cyfrannu at iechyd, swyddogaeth a chydnerthedd ecosystemau;
- yn helpu i liniaru ac addasu i ganlyniadau newid hinsawdd; ac
- wedi'u cysylltu'n dda ac yn integreiddio â rhwydweithiau Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Teithio Llesol a Bwyd Lleol.

Byddwn hefyd yn cefnogi ymdrechion i gofnodi a gwarchod coed hynafol a nodedig, yn ogystal â chefnogi ffyrdd cynhwysol a hygyrch o gymryd rhan mewn prosiectau i reoli, ymchwilio, monitro, dathlu ac elwa o gymeriad hardd ac amrywiol y coed sydd yn y Parc Cenedlaethol.



Pam mae hyn yn bwysig?

Coetiroedd er lles pawb

Mae nifer o goedliniau gwahanol yn y Parc Cenedlaethol. Yn rhan o'n Hamgylchedd Hanesyddol, maent yn darparu ystod eang o fuddiannau o ran bioamrywiaeth a phobl, gan gynnwys:

- Coetir hynafol lled-naturiol
- Coetir brodorol llydanddail
- Coed ffriddoedd, rhostir a gweundir
- Gwrychoedd
- Perllannau
- Planhigfeydd a choetir brodorol newydd
- Coedwigoedd glaw tymherus
- Coed a choetir trefol
- Coetir gwlyb a thorlannol
- Tir pori coediog a thir parc

Yn seiliedig ar bedair thema, mae Coetiroedd i Gymru yn amlinellu gweledigaeth a thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer coed, coetiroedd a choedwigoedd Cymru sef:

- ymateb i newid yn yr hinsawdd
- coetiroedd i bobl
- sector coedwigaeth integredig a chynaliadwy
- ansawdd amgylcheddol.

Mae sylfaen tystiolaeth y goedwigaeth genedlaethol yn darparu adnodd gwyb i ddechrau ar y gwaith hwn yng nghyd-destun y Parc Cenedlaethol.

I gyrraedd 'sero net' o ran allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr, bydd angen gwneud newidiadau mawr i'r ffordd rydym yn rheoli tir, ochr yn ochr â datgarboneiddio ynni, trafnidiaeth, a sectorau eraill.

Mae yna werth cynhenid i goed a choetiroedd. Maent hefyd yn cynnal bioamrywiaeth, yn ffordd naturiol o liniaru, yn ogystal ag addasu i effeithiau newid hinsawdd, yn cyfrannu at lesiant, a gallant fod o werth diwylliannol ac economaidd. Canfu adolygiad diweddar o'r sylfaen tystiolaeth gwyddonol o allu cynefinoedd lled-naturiol i ddal a storio carbon, mewn perthynas â'u cyflwr a/neu reolaeth:

• Bod coetiroedd brodorol llydanddail yn ddalfeydd carbon dibynadwy sy'n parhau i amsugno carbon am ganrifoedd lawer, er budd bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau eraill, er bod y raddfa'n amrywio'n fawr yn ôl rhywogaeth ac oedran y coed, ac mae priddoedd a hinsawdd hefyd yn ddylanwad mawr.

• Gall coetir brodorol sy'n cael ei reoli gyda'r lleiaf posib o ymyrraeth fod yn gyfrwng effeithiol i liniaru effeithiau newid hinsawdd.

• Gall cynhyrchu coed helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd pan fydd cynnyrch coed yn storio carbon dros yr hirdymor neu'n cymryd lle deunydd a thanwydd sy'n defnyddio mwy o danwydd ffosil.

• Bod rhywogaethau coed anffordorol fel arfer yn cynnal lefelau isel o fioamrywiaeth, ac mae planhigfeydd ar fawndiroedd wedi arwain at golli bioamrywiaeth yn ogystal â charbon.

• Gall gwrychoedd, perllannau a choed unigol hefyd ddal a storio carbon, yn ogystal â darparu buddiannau eraill o fewn cyd-destun amaethyddiaeth a bioamrywiaeth.



Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Y nod fydd gweithio mewn partneriaeth i lunio cynllun adfywio coedliniau ac ehangu coetiroedd ar gyfer y Parc Cenedlaethol, ac eiriol dros ei gynnwys o fewn Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cynghori a dylanwadu ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n annog plannu coed, a rheoli coetiroedd a choedliniau.

Rhoi'r polisi hwn ar waith i gyfleu negeseuon cyson ar gynlluniau adnoddau coedwigaeth a sgrinio Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol, a cheisiadau am ganiatâd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymgynghori â rhanddeiliaid yn eu cylch.

Gweithio gyda'r gymuned drwy wardeniaid coed a chynlluniau llysgenhadon i hyrwyddo rheolaeth goedyddol dda o goed presennol, ac eiriol dros ddatblygu coetiroedd cymunedol.

Gweithio gyda'r gymuned a Coed Cadw i gofnodi, gwarchod a dathlu coed hynafol, urddasol, a chynllunio ar gyfer cenedlaethau pellach o goed hynafol. Gweithio gyda rheolwyr tir i annog datblygiad coed-borfeydd, sef defnyddio tir ar gyfer coed a chynhyrchu bwyd.


Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Byddwn yn mesur cynnydd yn erbyn y Cynllun Coedliniau wrth inni ei roi ar waith.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Mi fydd y Cynllun Coedliniau ar gyfer adfer ac ehangu coetiroedd wedi'i ddatblygu a bydd ei roi ar waith wedi'n helpu i wneud y canlynol:

- Diffinio'r amcanion ar gyfer Statws Cadwraeth Ffatriol coetiroedd llydanddail a phriddoedd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Diffinio llwybr i sicrhau Statws Cadwraeth Ffatriol coetiroedd, gan gynnwys
- Adfer 'coedcae/ ffridd' a pharthiad lledredol coetiroedd a choed
- Adfer ac ehangu tir pori coediog a thir parc.
- Adfer ac ehangu coetir torlannol
- Adfer ac ehangu coetir llydanddail ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol Planedig
- Adfer ac ehangu bioamrywiaeth cynefinoedd coediog.
- Sicrhau consensws ar y ffordd orau o weithredu i adfer coetiroedd ar dir comin cofrestredig.
- Adfer arllwysiad afonydd mwy gwastad a rheolaidd trwy gydol y flwyddyn.
- Datblygu a gweithredu protocol ar gyfer cynyddio coed, ffibr, a dal carbon.
- Osgoi plannu gormod o goed conwydd ar dir a ryddhawyd o amaethyddiaeth.
- Cael gwared â lleiniau cysgodi a choetir amhriodol (gan gynnwys cael gwared â choed ac adfer mawndiroedd).
- Cynyddu'r canopi o orchudd coed mewn trefi a phentrefi.
- Cefnogi a chynyddu nifer y mentrau coetir cymunedol.
- Byddwn wedi diogelu'r amgylchedd hanesyddol yn ystod cynlluniau creu coetiroedd.




Mae'r cynllun hwn yn hyrwyddo adferiad Mawndir ar draws y Parc am ei werth ecolegol a'i gyfraniad yn y dyfodol tuag at wrthdroi'r newid yn yr hinsawdd.

Byddwn yn cyflawni strategaeth mawndir Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac yn cynorthwyo gyda rhai ein partneriaid.

Mae mawndiroedd yn cynnal nifer o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig. Maent yn adnodd naturiol a phwysig ar gyfer dal a storio carbon, rheoleiddio allyriadau nwyon tŷ gwydr, bioamrywiaeth, a rheoleiddio dŵr. Mae tua 12% o'r Parc Cenedlaethol yn fawndir.

Mae cefnogi'r Strategaeth yn darparu cyfle amlswyddogaethol ac integredig allweddol i ymateb i'r argyfwng bioamrywiaeth ac argyfwng yr hinsawdd.

MAWNDIR



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae mawndiroedd y Parc – sef gorgorsydd yr ucheldir (lle mae'r mawn gwaelodol yn ddyfnder o 40cm o leiaf), y rhostir gwlyb, cyforgorsydd yr iselder, y gwernydd a'r corsydd dyffrynol – mewn cyflwr ecolegol anffafriol ar y cyfan o ganlyniad i effeithiau andwyol hanesyddol, gan gynnwys eu gorbori, eu difrodi'n fynych gan danau, llygredd atmosfferig a 'ffrwythloniad' gan lygryddion, eu sathru (gan dda byw a phobl), erydiad (niwed gan dda byw a phobl, gan gynnwys gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd, tanau a llygredd), a choedwigo i greu planhigfeydd masnachol.

Mae'r rhan fwyaf o'r gorgorsydd yn cynnwys ardaloedd eang o llystyfiant sy'n laswellt yn bennaf, yn enwedig gwellt y gweunydd, nad yw'n cynrychioli gorgors iach na chwaith y llystyfiant a ddymunir ar gyfer ecoleg, da byw, gwydnwch rhag tanau bwriadol a thanau gwyllt, neu i ddal, a sicrhau ansawdd dŵr. Yn aml, nid yw ardaloedd sy'n ymddangos fel ucheldir eang o laswelltir gwlyb yn ddim mwy na gorgorsydd a rhostiroedd sydd wedi dirywio.

Mae'r Parc Cenedlaethol hefyd yn cynnwys dwysedd uchel ac ardaloedd eang o fawndir dwfn rhigolog a thoredig (torlannau mawn) sydd wedi erydu'n ddifrifol, gydag arwyddion o ddraenio hanesyddol (ffosydd gweundirol). Yn nhermau allyriadau nwyon tŷ gwydr, y mawndiroedd hyn, sydd wedi erydu'n ddifrifol ac yn draenio'r tir, yw'r ardaloedd sydd angen eu hadfer ar frys yn y tymor byr. Mae'r gorgorsydd glaswelltog a'r gweundiroedd gwlyb, yn ogystal â'r mawndiroedd coediog, hefyd angen eu hadfer dros y tymor hirach.

Lle maent heb eu hadfer eto, mae amgylcheddau mawndir ar draws y Parc Cenedlaethol angen sylw ar frys i wrthdroi'r broses o golli cynefinoedd, a mynd i'r afael â'u cyflwr gwael fel eu bod o fwy o fudd i natur a phobl.

Mae'r buddiannau lluosog mae mawndiroedd iach a gweithredol yn eu darparu, lle maent eisoes yn gyforiog o fioamrywiaeth, yn cynnwys:

- Dal a storio CO₂
- Cylchredau carbon ac ocsigen iach
- Gwelliannau i Ansawdd Dŵr
- Dŵr yn ymdreiddio i'r dirwedd
- Lleihau'r perygl o lifogydd
- Cadwraeth ecoleg y pridd
- Byd natur cyfoethog ac amrywiol
- Cysylltedd tirwedd Hamdden
- Iechyd a Llesiant Pobl
- Cadwraeth yr Amgylchedd Hanesyddol

Ble mae'r polisi hwn yn berthnasol?

Mae'r 15,922 hectar bras o fawndiroedd yn y Parc yn syrthio i dri phrif floc daearyddol neu dair ardal cyflawni mawndir yng ngorllewin, canol a dwyrain y tir parc sy'n addas ar gyfer rhaglenni rheoli tir integredig:

- Y Mynyddoedd Duon
- Mynydd Du ac ochr orllewinol Fforest Fawr a Blaenddyfroedd Tawe
- Ochr ddwyreiniol Fforest Fawr - Maenor Penderyn – Bannau Canolog Taf (a Mynydd Llangynidr - Mynydd Llangatwg)

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Mae'r APC wedi bod yn weithredol mewn amrediad o brosiectau adfer mawndir, gan gynnwys Prosiect Mawndiroedd Cymru, Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon, prosiect adfer cors Waun Figen Felen, prosiectau adfer cyfredol ar safleoedd, amrediad o brosiectau adfer llwybrau'r ucheldir sydd o fudd i orgorsydd, a nifer o brosiectau sydd o fudd i gyforgorsydd yr iseldir. Mae'r APC hefyd yn cefnogi ymchwil gymhwysol sydd o fudd i orgorsydd a chyforgorsydd a gweundir gwlyb. Mae'r APC yn paratoi'r Strategaeth Adfer Mawndiroedd yn ogystal â'r protocolau gwarchod safle ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Trwy ein partneriaethau, byddwn yn cefnogi adferiad mawndiroedd a gweundiroedd gwlyb wedi eu coedwigo.

- Rhoi cyngor a chymorth i dirfeddianwyr i wneud y gorau o gyfleoedd i adfer eu mawndiroedd, drwy:
- Roi cynlluniau adfer ar waith ar gyfer mawndiroedd wedi eu herydu a'u draenio.
- Troi gorgorsydd glaswelltog yn fawndiroedd iach.
- Rheoli cyforgorsydd yr iseldir, gwernydd y Cymoedd a ffeniau i gael gwerth natur uchel.
- Osgoi llosgi a diddymu tanau bwriadol a thanau gwyllt ar orgorsydd.
- Helpu tirfeddianwyr i ddatblygu eu syniadau a'u cynlluniau adfer eu hunain

Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a monitro eu cyflwr yn gyfnodol.

Byddwn yn adnabod cynnydd fel cynnydd yn yr ardaloedd o fawndir a adferwyd, a'r camau adfer a gyflawnwyd.

Byddwn yn adnabod cynnydd drwy'r prosiectau sy'n cael eu dilysu gan y Cod Mawndir.

Bydd y canlyniadau o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn cael eu rhannu'n eang er mwyn helpu i ffurfio corff cadarn o dystiolaeth a fydd yn cyfrannu at ddyluniad a blaenoriaethau rheoli ac adfer yn y dyfodol.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Erbyn 2032, bydd yr holl fawndiroedd moel sydd wedi eu herydu a'u draenio yn cael eu gwarchod ac wedi eu hadfer.

Erbyn 2042, bydd cynnydd yng nghadernid y dirwedd o ganlyniad i ddal dŵr.

Bydd rhwng 2,656 a 486,648 o dunelli o CO2 cyfwerth wedi eu dal a'u storio.

Bydd rheoli tir cynaliadwy wedi ei gyflwyno a fydd yn arwain at:

- Trwy roi'r strategaeth ar waith, byddwn hefyd wedi
- Cael gwared â'r defnydd anghyfreithlon o gerbydau oddi ar y ffordd yn yr ucheldir
- Cyflawni targedau bioamrywiaeth ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau dangosol
- Diogelu amgylchedd hanesyddol yr ucheldir
- Sicrhau cyllid ar gyfer y Strategaeth Adfer Mawndiroedd a'r Rhaglen ddilynol.


Lefelau pori da byw cywir i wartheg a defaid y bryniau a bugeilio yn yr ucheldir.

- Pori cymysg dwysedd isel a rheoli llwyth tanwydd i leihau pa mor eithriadol o agored i niwed y mae gorgorsydd o danau gwyllt sy'n ymwneud â thanau bwriadol.
- Mesurau ymyrryd gan y gwasanaethau brys a gwybodaeth i'r cyhoedd er mwyn diddymu tanau gwyllt sy'n ymwneud â thanau bwriadol.



**Byddwn yn adfer dalgylchoedd
gorlifdiroedd ac afonydd iach sy'n
gweithredu'n naturiol ar draws y
Parc Cenedlaethol – gan ddarparu
dŵr glân, cyfleoedd hamdden,
lliniaru llifogydd a sicrhau eu bod yn
llawn bywyd gwyllt.**

Rydym eisiau i afonydd a llynnoedd sy'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (afonydd Gwy ac Wysg a Llyn Syfaddan) a Chamlas Mynwy a Brycheiniog fod yn enghreifftiau balch a gorfoleddus o ecosystemau iach yn y Parc Cenedlaethol.



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae angen adferiad ecolegol ar afonydd y Parc a'u gwlypdiroedd cysylltiedig

Mae Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog yn adnodd strategol i gyflenwad dŵr Dŵr Cymru. Mae rhai o'r dalgylchoedd uwch wedi eu haddasu'n fawr gan gronfeydd dŵr.

Mae newid mewn defnydd tir a rheoli tir, yn ogystal â mewnbynnau dynol o ddatblygiadau adeiledig, wedi achosi dirywiadau yn ansawdd y dŵr a'r gordyfiant algâu cysylltiedig, gan gael effaith ddinistriol ar ecoleg dŵr croyw, pobl a chymunedau lleol ar draws y Parc.

Mae angen dull gweithredu system gyfan i leihau a chael gwared ag effeithiau niweidiol rheoli tir, tynnu dŵr, erydiad tir, llygredd, chwalu cynefinoedd, trefoli a rhywogaethau estron goresgynnol (INNS), ac i helpu i liniaru ac addasu i ganlyniadau'r newid yn yr hinsawdd. Mae arnom angen mawndiroedd, coetiroedd, coed, pridd tir fferm a'n hamgylcheddau adeiledig i helpu i storio ac arafu'r llif dŵr yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol.

Mae afonydd, nentydd a llynnoedd iach yn cynnwys mwy o ocsigen, mwy o fywyd, ac felly mwy o garbon, sy'n gwbl hanfodol os ydym am liniaru'r cynhesu byd-eang ac addasu iddo - byddai adfer ecosystemau dŵr croyw yn ddatrysiad seiliedig ar natur i'r newid yn yr hinsawdd.

Pan gafodd y Parc Cenedlaethol ei ddynodi ym 1957, roedd afonydd Gwy ac Wysg a Llyn Syfaddan yn eiconig, gydag enwau da yn genedlaethol am y cyfleoedd hamdden a gyflwynwyd gan eu dyfroedd glân, eu bywyd gwylt a'u prydferthwch naturiol.

Mae adfer yr afonydd a'r llyn i'w gogoniant blaenorol yn flaenoriaeth amlwg i ni. Bydd dolydd a chyrion coetiroedd ar orlifiediroedd, coetiroedd newydd ar ochr y cymoedd, ffriddoedd, rhosydd a mawndiroedd wedi eu hadfer ar yr ucheldir, a seilwaith priodol sy'n amddiffyn yr afon o darddle penodol ac yn lleihau llygredd yn cefnogi poblogaethau ffyniannus o fywyd gwylt ac yn darparu nwyddau hanfodol ar gyfer y cyhoedd drwy wella ansawdd y dŵr, a lleihau'r perygl o lifgydd i bobl ac amgylcheddau adeiledig.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Mae'r polisi yn gofyn i brif randdeiliaid a sectorau sy'n dylanwadu ar y cynefinoedd hyn weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru Welsh Water, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Glandŵr Cymru, Sefydliad Gwy ac Wysg, perchnogion preifat glannau'r afon a thirfeddianwyr yr ucheldir, ffermwyr a rheolwyr tir eraill.

Er mwyn cymryd camau i gyflawni'r amcan hwn, bydd angen newid yr holl system – mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i'r holl sectorau ddod ynghyd â chynig awgrymiadau i ateb yr her. Byddwn yn hyrwyddo datblygiad datrysiadau arloesol seiliedig ar natur o fewn y Parc Cenedlaethol.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Lleihau ac, mor fuan â phosibl, dod â'r gormodiant o lwythi critigol o ffosffadâu a gordyfiant algâu perthnasol i ben yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonydd Gwy ac Wysg a Llyn Syfaddan. Dŵr afon mwy clir, gyda llai o benllanwau 'sydyn' ar adegau o law trwm mewn gorsafoedd monitro allweddol.

Trwy roi'r strategaeth ar waith, byddwn hefyd wedi amddiffyn amgylchedd hanesyddol afonydd a llynnoedd.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?


Byddwn yn monitro cynnydd drwy ddangosyddion priodol yn yr Adroddiad Cyflwr y Parc (ACyP), gan ystyried camau gweithredu a gymerwyd ac a adroddwyd arnynt yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol. Byddai'r llwyddiant yn cael ei ddangos yn yr adolygiad o Adroddiad Tystiolaeth 489 Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (a ddisgwyllir yn 2024), a thrwy ddiddymu unrhyw ddigwyddiadau o ordyfiant algâu yn y dyfodol.

POLISI'AU SY'N YMWNEUD Â CHRAIDD EIN PARC CENEDLAETHOL

Er mwyn cyflawni'r amcan sy'n ymwneud â'n hail bwrpas a chraidd y Parc Cenedlaethol, rydym wedi nodi cyfres o ymyriadau polisi sy'n canolbwyntio ar roi cyfleoedd i fwynhau a deall y Parc, gan weithredu o fewn terfynau amgylcheddol a chymdeithasol.

Polisi	Tudalen
TWRISTIAETH GYNALIADWY	59
MANNAU PRYSUR	62
HAWLIAU TRAMWY	64
YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL	66
GEOPARC	68
WYBRENNAU TYWYLL	71






**Byddwn yn galluogi profiadau
ymwelwyr cadarnhaol sydd yn fuddiol
i'n cymunedau, adfer natur ac addasu
i'r newid yn yr hinsawdd fel ei gilydd
ar draws y Parc.**

Nodweddion y dirwedd a'i systemau diwylliannol lled-naturiol yw pwyntiau gwerthu unigryw profiad yr ymwelydd o'r Parc Cenedlaethol a llawer o'n heconomi dwristiaeth. Byddwn yn sicrhau bod adfer natur a chymunedau cynaliadwy yn ganolog i'n strategaeth yn y dyfodol er mwyn gwella profiad yr ymwelydd.

Rydym eisiau cynnig profiadau cadarnhaol i ymwelwyr a chyfleoedd i bobl ddod, mwynhau a chysylltu â'r Parc Cenedlaethol.

TWRISTIAETH GYNALIADWY



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae miliynau o bobl yn ymweld â'n Parc Cenedlaethol bob blwyddyn. Rydym yn rhoi cyfle amhrisiadwy i bobl o bell ac agos ymhél â natur, ein diwylliant a'n mannau agored lled-naturiol. Yn ogystal â chynnig lliaws o fuddion i'n hymwelwyr, mae'r ardal yn dibynnu'n drwm ar yr economi ymwelwyr.

Y nod a rennir gennym ar gyfer ein hymwelwyr yw galluogi profiadau cadarnhaol a chofiadwy, gan sicrhau bod eu hymweliad o fudd i amgylchedd naturiol a hanesyddol y Parc, ac i gymunedau lleol. Mae'r galw i brofi ac archwilio tirwedd y Parc wedi mynd ymhell y tu hwnt i'r seilwaith etifeddol sy'n gwasanaethu'r ardal. Caiff lleoliadau eu hyrwyddo ar y cyd gan gyfryngau cymdeithasol ac mae gallu'r APC a'i bartneriaid i ymateb i hyn wedi dod yn lleilai effeithiol.

Mae'r effeithiau yn rhoi pwysau ar gymunedau lleol a'u gallu i weithio, mae'n peri i grwpiau defnyddwyr gwahanol dynnu'n groes i'w gilydd ac mae'n lleihau gwaith a chadernid ecosystemau i gefnogi natur hyd eithaf eu potensial.

Mae'n bwysig bod twristiaeth yn rhoi budd net i'r Parc Cenedlaethol a'i gymunedau, bod profiadau'n ddilys ac o ansawdd uchel a bod pobl o bob cefndir neu allu yn gallu cael mynediad i'r dirwedd arbennig hon a chael budd ohoni.

Dengys yr ymchwil y gall rhyngweithiadau cadarnhaol mewn amgylcheddau naturiol greu ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol mewn unigolion. Mae hyn yn golygu y gallai cael diwrnod allan ysbrydoledig yn y Parc helpu i feithrin ffyrdd o fyw mwy ystyriol o natur a'r hinsawdd y tu allan i'n ffiniau.

Y nod cyfunol a rennir gennym yw i'r Parc Cenedlaethol ffynnu fel cyrchfan a gerir gan lawer.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Fel y mwyafrif o gamau gweithredu o fewn y cynllun hwn, ein cam cyntaf yw adeiladu ar gydberthnasau cydweithredol sydd eisoes yn bodoli i ffurfio Partneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy.

O fewn y bartneriaeth hon, bydd yr APC yn arwain y symudiad at gyflwr sefydlog yn niferoedd yr ymwelwyr, gan ganolbwyntio ar gynyddu dilysrwydd/ansawdd y profiad er mwyn hybu budd economaidd gwell i'r ardal.

Datblygu strategaeth seilwaith o fewn y bartneriaeth i gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni seilwaith allweddol i gefnogi ymwelwyr a rheoli ymwelwyr.

Bydd y bartneriaeth yn datblygu strategaeth gyfathrebu i gydlynu cyfathrebu effeithiol drwy daith yr ymwelydd gan ddefnyddio'r holl offer sydd ar gael.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Bydd y bartneriaeth twristiaeth gynaliadwy yn unedig o ran cyflwyno neges glir a nodau allweddol a fydd yn cefnogi datblygiad ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol ymhlith ymwelwyr er budd cymunedau cynaliadwy ac adfer natur.

Bydd ymwelwyr i'r Parc Cenedlaethol yn mynd â chysylltiad â natur adref â nhw a fydd wedi eu helpu i wella eu hymddygiad personol at adfer natur ac at liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Bydd y cynllun seilwaith ymwelwyr yn cael ei gefnogi gan amrediad o gyllidwyr a darparwyr gwasanaethau, bydd prosiectau allweddol wedi eu rhoi ar waith, ac eraill wrthi'n cael eu datblygu er mwyn cyflawni profiad gwell i ymwelwyr.

Sut byddwn yn mesur cynnydd ?


Trwy siarad â'n hymwelwyr mewn modd strwythuredig, gall y bartneriaeth gasglu tystiolaeth ansoddol o brofiad yr ymwelydd.

Byddem yn adnabod cynnydd fel mwy fyth o adroddiadau ar foddhad, dealltwriaeth a mwynhad ymwelwyr o'r Parc.

Byddwn yn monitro allbynnau sy'n ymwneud ag ymwelwyr gan holl gyrff y bartneriaeth, yn adnabod cynnydd drwy gysondeb y negeseuon a welir a chydymffurfiaeth â'r strategaeth gyfathrebu gytunedig.

Byddwn yn monitro ystadegau cyflogaeth a gynhyrchir gan StatsCymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Byddem yn adnabod cynnydd fel gostyngiad mewn cyflogaeth dymhorol ran-amser a chynnydd mewn swyddi amser llawn ar y cyflog byw neu'n uwch.


Byddem yn adnabod cynnydd fel llai o adroddiadau ar effeithiau sy'n ymwneud ag ymwelwyr ar gymunedau a difrod i ffactorau a warchodir drwy ein diben cyntaf.



Bydd mannau prysur yn cael eu rheoli'n weithredol er mwyn sicrhau y gall ymwelwyr i'r Parc fwynhau ac ymhél â'r nodweddion arbennig heb niweidio'r cymunedau preswyl na'r amgylchedd naturiol a hanesyddol.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn croesawu dros 5 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, ac mae hynny i'w ddisgwyl; mae'n lle eithaf arbennig wedi ei warchod gan ddynodiad sydd yn ei hanfod yn hyrwyddo cyfleoedd hamdden awyr agored. Rydym yn gwerthfawrogi hyn. Cyfyd y broblem pan fydd nifer yr ymwelwyr yn fwy na chymhwysedd cludo lleoliad penodol. Mae'r 'safleoedd pot mêl' hyn yn llenwi'n gyflym â cheir a phobl, sy'n arwain at effeithiau negyddol ar y cymunedau lletyol a'r amgylchedd, gan ddiraddio'r dilysrwydd a'r ymdeimlad o ddianc sydd mor hanfodol i gynifer o'n hymwelwyr.

MANNAU PRYSUR



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae ein mannau prysur yn safleoedd 'gordwristiaeth', hynny yw, maen nhw'n ennyn cymaint o ddiddordeb fel eu bod yn denu gormod o ymwelwyr, gan achosi effeithiau annymunol.

Rydym yn poeni bod y niferoedd hyn o ymwelwyr, yn y pen draw, yn tarfu ar brofiad pobl o'r Parc, gan ddifetha'r profiad ac ychwanegu at yr effeithiau negyddol. Rydym eisiau ymyrryd â'r gylchred hon i reoleiddio sut mae ymwelwyr yn dod i'n hardaloedd prysur, gan ganolbwyntio'n benodol ar draffig ymwelwyr. Trwy wneud hyn, rydym yn gobeithio y byddwn yn cyflwyno buddion i'n hamgylchedd, ein tirwedd ac i'r cymunedau lletyol sydd yng nghanol y mannau arbennig hyn.

Trwy reoli'r ardaloedd hyn sydd eisoes yn brysyr mewn modd gweithredol, rydym yn bwriadu cadw ardaloedd eraill yn heddychlon a digyffro, gan roi lle i natur flodeuo a darparu cyfleoedd ar gyfer y rheini sy'n chwilio am brofiad mwy gwyllt.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Bydd yr Awdurdod yn arwain datblygiad Cynlluniau Bro ar gyfer pob un o'n safleoedd prysur, gan ganolbwyntio ar wella'r seilwaith sy'n cefnogi pob safle prysur.

Cynllun Bro ar gyfer Pen y Fan. Trwy weithio gyda'r holl gyrff hynny sydd â rôl i'w chwarae mewn rheoli Pen y Fan er mwynhad i genedlaethau'r dyfodol, byddwn yn datblygu cynllun sy'n ceisio taflu mwy o olau ar Ben y Fan fel lle arbennig i bawb ei fwynhau. Elfen hanfodol o'r amcan hwn yw gwneud teithio cyhoeddus a chynaliadwy yn ffordd ymarferol o gyrraedd y Mynydd.

Bydd Cynllun Rheoli Gwlad y Sgydau yn cael ei ddatblygu drwy weithio ochr yn ochr â'r gymuned leol: rydym eisiau datblygu cynllun ar gyfer Gwlad y Sgydau sy'n ceisio sicrhau mai'r gymuned yw buddiolwyr amlwg poblogrwydd yr ardal

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Ni fydd ceir yn cael parcio mwyach ar leiniau ymyl ffordd yr A470 wrth Bont ar Daf. Bydd ymwelwyr yn gallu parcio a theithio ar fws trydanol i Storey Arms lle byddant yn gallu mwynhau diwrnod ar y mynydd cyn dychwelyd i leoliad parcio eu ceir a chwilio am ychydig o letygarwch lleol o ansawdd.

Bydd ymwelwyr i Wlad y Sgydau yn cyrraedd rhai lleoliadau allweddol ar y ffiniau, lle byddant yn gallu defnyddio systemau trafnidiaeth gyhoeddus trydanol (neu neidio ar feic trydanol, gobeithio, a dilyn llwybr beiciau dynodedig) i ddechrau taith gerdded y Sgydau.

Bydd ymwelwyr yn gallu ac yn mynd ar drafnidiaeth gyhoeddus neu feic drwy gydol eu hymwelriad â'r Parc.


Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Byddwn yn monitro nifer y ceir sy'n dod i'r mannau prysur gyda'r nod o weld lleihad.

Byddwn yn arolygu ymwelwyr ar eu profiad ac yn monitro gwefannau fel 'Trip Advisor' er mwyn pennu ansawdd profiad yr ymwelydd.

Byddwn yn defnyddio'r 'Rhyngwrwyd Pethau' i fonitro'r ansawdd aer yn y safleoedd hyn gyda'r nod o weld lleihad.


Byddwn yn sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy a thir mynediad yn fwy hygyrch i fwy o ddefnyddwyr, yn gysylltiedig ac yn ddigon cadarn i wynebu'r holl alwadau a fydd yn cael eu gosod arno.



Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'n cyfrifoldebau statudol i reoli, datblygu, integreiddio a hyrwyddo'r rhwydwaith hawliau tramwy a thir arall y mae gan y cyhoedd fynediad ato o fewn y Parc Cenedlaethol.

Ein rhwydwaith o hawliau tramwy yw'r pibellau gwythiennol o lwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd sy'n cris-croesi ardal y Parc. Mae'r rhain, ynghyd â thir mynediad agored, yn caniatáu i bobl ymgolli eu hunain yn ein nodweddion arbennig ar droed, beic, ceffyl, sgwter symudedd a char a cheffyl i gael hamdden awyr agored â lliaws o fuddion iechyd a llesiant.

HAWLIAU TRAMWY



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy yn hanfodol i'n gwaith o gyflwyno cyfleoedd i fwynhau'r Parc Cenedlaethol. Cynnal rhwydwaith cysylltiedig a hygyrch yw un o'r ysgogiadau sydd gennym i agor y Parc i bob darpar ddefnyddiwr a chwalu'r rhwystrau i gymryd rhan.

Gall y profiadau sydd ar gael o fewn y Parc Cenedlaethol leihau effeithiau negyddol tldi, gwella cyfleoedd am gynhwysiant cymdeithasol a gwella iechyd a llesiant y boblogaeth. Mae gwella ansawdd y rhwydwaith hawliau tramwy a'r ffordd yr ydym yn rhannu gwybodaeth amdano, yn hanfodol i alluogi pob darpar ddefnyddiwr i fanteisio ar y buddion hyn.

Mae rhwydwaith hygyrch o lwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd sy'n cael eu cynnal a chadw'n dda yn creu mwy o gyfleoedd i ddefnyddwyr gerdded neu ddefnyddio beic, ceffyl, sgwter symudedd a char a cheffyl fel dulliau teithio yn lle defnyddio cerbydau modur preifat.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith ?

Mae gan yr Awdurdod hanes hir o weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau mynediad a hawliau tramwy. Bydd hyn yn parhau dros gyfnod y cynllun hwn, a thrwy weithio gyda'r Fforwm Mynediad Lleol, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

Lleihau rhwystrau i fynediad ar hyd ein rhwydwaith hawliau tramwy drwy gael gwared â rhwystrau fel camfeydd.

Mynd i'r afael â'r erydu sy'n gysylltiedig â mynediad dynol drwy waith gwella hawliau tramwy.

Creu llwybrau diogel oddi ar y ffordd sy'n gallu cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr lluosog pan fydd hyn yn gyson â nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol (gweler hefyd y Polisi Teithio Llesol).

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Mae pob darpar ddefnyddiwr o'r rhwydwaith hawliau tramwy a thir mynediad yn cael ei alluogi i werthfawrogi a mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol mewn modd cynaliadwy, sydd felly o fudd i'w iechyd a llesiant.


Mae aneddiadau allweddol wedi eu cysylltu â hawliau tramwy mwy hygyrch a allai gefnogi defnyddwyr lluosog.

Sut byddwn yn mesur cynnydd ?

Byddwn yn monitro'r rhwydwaith hawliau tramwy gyda'r nod o gynyddu ei hygyrchedd o un flwyddyn i'r llall.

Byddwn yn monitro cyfanswm hyd yr hawliau tramwy sydd wedi eu gwella gyda'r nod o gynyddu'r ffigur o un flwyddyn i'r llall.

Byddwn yn monitro'r cynnydd ar ddatblygu hawliau tramwy mwy hygyrch i gysylltu aneddiadau (gweler hefyd y Polisi Teithio Llesol).




Byddwn yn sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei reoli yn unol â'r egwyddorion rheoli cadwraeth gorau. Wrth wneud hyn, byddwn yn ceisio

a) Meithrin gwerthoedd pobl tuag at dreftadaeth a'u dealltwriaeth ohoni fel y gellir ei dathlu am ei gwerth cynhenid, ei buddion iechyd a llesiant ac fel ffynhonnell o ysbrydoliaeth, dysgu ac ymgysylltu; A

b) Cefnogi ffyrdd cynhwysol a hygyrch o gymryd rhan mewn prosiectau i reoli, ymchwilio, monitro, dathlu a chael budd o gymeriad prydfferth ac amrywiol yr amgylchedd hanesyddol a threftadaeth.

Mae amgylchedd hanesyddol ein Parc Cenedlaethol yn cynrychioli ymddangosiad ffisegol ein treftadaeth ddiwylliannol, a gwarchod a gwella hwn yw un o ddibenion yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae ein treftadaeth yn fwy na safleoedd dynodedig yn unig - mae cwmpas amser ein trefluniau a'n tirweddau lleol yn cyfrannu at nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol: tirweddau o werth sy'n dweud rhywbeth wrthym am barhad a newid, am hanesion dwfn a'n gorffennol diweddar. Yn y modd hwn, mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynrychioli bywydau, gwybodaeth, dysgu a phrofiad cenedlaethau. Mae ei arwyddocâd yn fawr a bydd ei fuddion parhaus yn effeithio ar y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL



Pam mae hyn yn bwysig?

Fel awdurdodau lleol, perchnogion, rheolwyr, trigolion ac ymwelwyr i'r mannau arbennig hyn, ni yw ceidwaid ein treftadaeth, i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n rhaid i ni, fel un o'r rhesymau dros gael dynodiad Parc Cenedlaethol, reoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol yn ofalus, gan gyfrannu at y camau angenrheidiol i liniaru ac addasu'r newid yn yr hinsawdd, adfer bioamrywiaeth a natur, gwarchod a gwella'r dirwedd ac iechyd a llesiant.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Rydym yn bwriadu rhoi'r polisi ar waith drwy Bartneriaeth Amgylchedd Hanesyddol Bannau Brycheiniog a ffurfiwyd yn ddiweddar a mynd ati i wneud penderfyniadau a dechrau, cynllunio a gweithredu prosiectau mewn ffyrdd amlddisgyblaethol mewnol cymhleth.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Gweithio gyda'r Bartneriaeth Amgylchedd Hanesyddol, a thrwy ein gwaith statudol fel tirwedd ddynodedig, i fonitro effaith yr holl gamau gweithredu o fewn yr amgylchedd hanesyddol gyda'r nod o weld gwelliannau yn y canlynol:

- Cyflwr safleoedd dynodedig a safleoedd heb eu dynodi
- Cyflwr ein trefluniau hanesyddol
- Gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'n hamgylchedd hanesyddol

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?


Bydd cymeriad prydferth ac amrywiol ein hamgylchedd hanesyddol yn cael ei reoli a'i ofalu amdano'n dda.

Bydd newid tirwedd yn cael ei reoli mewn modd sy'n fuddiol i dreftadaeth ddiwylliannol y Parc.

Byddwn yn gweithio o fewn rhwydweithiau gweithredol gan gydweithredu i gyflawni prosiectau er mwyn rheoli, ymchwilio, monitro, dathlu a chael budd o gymeriad prydferth ac amrywiol amgylchedd hanesyddol y Parc Cenedlaethol.


Bydd yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei ddeall a'i werthfawrogi'n well fel cysylltiad pwysig rhwng cenedlaethau'r gorffennol, y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol ac fel ffynhonnell o ysbrydoliaeth, dysgu ac ymgysylltu.

Bydd mwy o gapasiti a mynediad at yr adnoddau sydd ar gael i reoli'r amgylchedd hanesyddol o fewn y Parc Cenedlaethol drwy weithredu'n gydweithredol a dilyn prosesau partneriaeth.



Bydd y Geoparc yn cyflawni canlyniadau sydd o fudd i iechyd a llesiant ac sy'n cefnogi adfywio dan arweiniad twristiaeth mewn lleoliadau priodol, mewn partneriaeth ag amrediad o randdeiliaid o'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

Bydd y Geoparc yn helpu i ddehongli stori'r dirwedd dros amser a sut mae prosesau naturiol, ynghyd â gweithgareddau dynol, wedi llunio'r dirwedd yr ydym yn ei gweld heddiw. Bydd yn helpu i lywio ein rôl bosibl yn y dyfodol fel ceidwaid da ac yn chwarae rhan allweddol mewn cefnogi'r gwaith o adfer systemau naturiol.



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae statws Geoparc Byd-eang UNESCO yn darparu platfform proffil uchel ar gyfer ehangu dealltwriaeth a dyfnhau'r cysylltiadau sydd gan bobl â thirweddau a hanes carbon, gan gyflwyno cyfleoedd i wella iechyd a llesiant ochr yn ochr â buddion economaidd-gymdeithasol.

Mae statws Geoparc Byd-eang UNESCO yn cydnabod pwysigrwydd rhyngwladol ein treftadaeth ddaearegol; ei pherthnasedd i'r Chwyldro Diwydiannol a ddigwyddodd yn ne Cymru a sut mae hyn wedi llunio'r tirweddau lled-naturiol a diwylliannol yr ydym yn eu gweld heddiw.

Mae'n egluro sut mae bioamrywiaeth yn seiliedig ar geoamrywiaeth, gan achosi mathau amrywiol o briddoedd a'r cynefinoedd sy'n deillio o'r amrywiaeth hwnnw, a sut y gwnaeth ddarparu'r sylfaen i ddynion ecsbloetio'r cyfoeth o fwynau a'r cymunedau a'r diwylliant a ddeilliodd o'r gweithgarwch hwn.

Mae'r Geoparc yn cynnig cyfle unigryw i edrych yn ôl mewn amser, yn ein helpu i ddeall sut y cododd y problemau yr ydym yn mynd i'r afael â nhw heddiw ac yn cynnig mewnwelediadau i'n cydberthynas â'r tir yn y dyfodol. Mae'n egluro pam mae lleoedd yn y mannau y maen nhw, eu hunaniaeth a'r ymdeimlad unigryw o le mewn treftadaeth adeiledig a naturiol.

Mae'n cynnig platfform y gall partneriaid a chymunedau ei ddefnyddio i fod yn rhan o'r hanes naturiol a diwylliannol a rennir gennym, a ffordd o adfywio dan arweiniad twristiaeth ar hyd cyron deheuol y Parc.

Mae'r Geoparc yn dathlu'r etifeddiaeth ddiwydiannol, yn creu cysylltiadau ar draws tirweddau y tu hwnt i ffiniau'r Parc ac yn defnyddio ei statws rhyngwladol i gyflwyno buddion cymdeithasol, economaidd ac ecolegol.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Mae'n galluogi i ni ddathlu etifeddiaeth ddiwydiannol yr ardal, yn creu cysylltiadau ar draws y dirwedd, y tu hwnt i ffiniau'r Parc a, chan ddefnyddio statws rhyngwladol y Geoparc, mae'n cyflwyno buddion cymdeithasol, economaidd ac ecolegol.

Edrych ar y potensial i ehangu'r Geoparc (o fewn y canllawiau o 10%) er mwyn ateb yr heriau sy'n dod i'r amlwg, fel lefelau rhy uchel o ffosffad o fewn yr ardal ddynodedig a phroblemau economaidd-gymdeithasol ar hyd coridor Blaenau'r Cymoedd/gweithfeydd haearn.

Adnewyddu Grŵp Rheoli'r Geoparc a datblygu gwaith partneriaeth agosach gyda'n hawdurdodau cyfagos er mwyn nodi cyfleoedd i adfywio dan arweiniad twristiaeth a chael mwy o'r cyhoedd i ymhél â threftadaeth ddaearegol, adeiledig a naturiol yr ardal.

Datblygu a gwella proffil ac atyniad y Geoparc ymhellach mewn mannau eraill o fewn ardal ddynodedig UNESCO, gan adeiladu ar y presenoldeb deongliadol newydd ym Mharc Gwledig Craig y Nos a chyfleoedd mewn lleoliadau eraill ar gyfer ymwelwyr.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

cyfleoedd i gyflwyno buddion economaidd-gymdeithasol i'n partneriaid mewn awdurdodau cyfagos.

Bydd rôl yr 'hyb' a sefydlwyd ym Mharc Gwledig Craig y Nos, fel cyflwyniad i'r Geoparc Byd-eang, yn cael ei hintegreiddio yng nghynllun rheoli a chynnal a chadw'r safle ac yn rhan allweddol o'i 'gynnig' i ymwelwyr.

Defnyddir statws y Geoparc i gefnogi cymunedau cynaliadwy ac annog ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol.


Bydd cynulleidfa amrywiol yn ymhél â threftadaeth ddaearegol, ddiwylliannol a naturiol y dirwedd ar hyd cefnwlad ddeheuol ôl-ddiwydiannol y Parc Cenedlaethol yn bersonol a thrwy sianeli a phlatformau cyfryngau cymdeithasol.

Bydd safleoedd yn ein cefnwlad yn elwa ar ein statws Geoparc ac yn cydweithio gyda ni ar brosiectau a fydd o les i'r naill a'r llall ohonom sy'n cefnogi adfywio dan arweiniad twristiaeth.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Bydd cynnydd yn cael ei fesur trwy fonitro:

- Mwy o barodrwydd gan sefydliadau partner i gefnogi'r strategaeth a gwaith llwyddiannus Grŵp Rheoli'r Geoparc.
- Mwy o barodrwydd gan gymunedau/busnesau a phartneriaid lleol i gefnogi cysyniad y Geoparc a'r dynodiad UNESCO.
- Cynnydd tuag at gwblhau arfarniad opsiynau ar gyfer adfywio dan arweiniad twristiaeth a gefnogir gan y Geoparc ar yr Ymylon Deheuol.
- Geoparc â phroffil ar safleoedd allweddol o fewn y Parc a'i ffiniau.
- Nifer y prosiectau geoparc sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chreu cynefinoedd a/neu gyflawni gwaith adfer.




**Byddwn yn amddiffyn ac yn gwella
amgylchedd y nos a'n hwybrennau
tywyll fel y gall y genhedlaeth hon a
chenedlaethau'r dyfodol brofi
rhyfeddod a llonyddwch awyr
gwirioneddol dywyll, ac fel y gall
bywyd gwyllt ac iechyd dynol gael
budd ohono.**

Mae'r cynnydd mewn llygredd golau yn broblem fyd-eang a lleol sydd, ymhlith effeithiau negyddol eraill, yn difrodi nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac yn cyfrannu at ddirywiad bioamrywiaeth a'r newid yn yr hinsawdd. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, mae mesurau wedi eu rhoi ar waith i reoli llygredd golau. Mae'r rhain, ynghyd â chymau gweithredu eraill, wedi arwain Bannau Brycheiniog i ennill statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol (IDSR) yn 2012.

Fodd bynnag, mae bygythiad uchel y llygredd golau yn sgil gosod a defnyddio unedau goleuo amhriodol yn parhau ac yn cynyddu. Os na chaiff hyn ei atal, bydd amgylchedd nos y Parc yn cael ei ddinistrio, a bydd hyn yn effeithio ar amgylchedd dydd y Parc a'i lefel o fioamrywiaeth.

WYBRENNAU TYWYLL



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae ein hwybrennau nos yn adnodd gwerthfawr, yn cynnig cyfleoedd am fyfyrdd tawel a dwfn sy'n cysylltu'r unigolyn â rhyfeddodau'r bydysawd, ac eto, maent yn fregus a gellid eu colli'n hawdd i genedlaethau'r dyfodol os na chânt eu hamddiffyn.

Mae bod heb dywyllwch yn effeithio ar ein hiechyd a'n llesiant. Mae bodau dynol yn byw yn ôl rhythmau circadaidd, a gall absenoldeb tywyllwch darfu ar hyn gan achosi effeithiau iechyd fel atal y system imiwnedd rhag gweithio.

Ac nid yw'n effeithio ar bobl yn unig. Mae ein hecosystemau hefyd yn hynod sensitif i effeithiau golau. Mae golau'r lloer yn dylanwadu ar ymddygiad anifeiliaid, ac nid ar rywogaethau'r nos yn unig. Trwy gadw ein hwybrennau tywyll yn dywyll, rydym yn cadw cydbwysedd naturiol y byd naturiol.

Mae'r ynni sydd ei angen i gyflenwi un golau 500W a adewir ynghyn am 8 awr y nos gyfwerth ag oddeutu 1.4 tonnell o CO2 mewn blwyddyn, sy'n golygu bod gormod o oleuadau nid yn unig yn niweidiol i fodau dynol a bioamrywiaeth, ond hefyd yn cael effaith ar iechyd ein planed.

Sut bydd y polisi yn cael ei roi ar waith?

Mae pwerau cynllunio statudol y Parc Cenedlaethol yn cynnig ffordd glir o reoli golau o ddatblygiadau newydd, ond dim ond rhan o'r darlun yw hyn.

Bydd cyfathrebu ac eirioli yn ein helpu i rwystro'r effeithiau mwyaf sy'n deillio o ddatblygiadau cyfredol a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymgyrch 'Golau Allanol Cyfrifol' er mwyn helpu i leihau golau diangen.

Gweithio gydag asiantaethau eraill fel Asiantaethau'r Prifffyrdd a Chefnffyrdd i leihau goleuadau ar gyfer diogelwch ffyrdd, a chynlluniau cymdogaethau, lleol a bro. Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddatblygu polisiau ardaloedd sensitif i olau er mwyn cyfyngu faint o olau a ddaw o'n hardaloedd ymylol.

Gweithio gyda'n cymunedau a'n hymwelwyr i ddeall, gwerthfawrogi ac amddiffyn natur arbennig ein Statws fel Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol a'i rôl mewn cefnogi iechyd a llesiant bodau dynol, ac iechyd a llesiant creaduriaid y nos sydd angen nosweithiau tywyll i chwilota, hela a mudo.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Mae rheoli llygredd golau wedi cyflwyno buddion i'r amgylchedd, allyriadau nwyon tŷ gwydr, iechyd a llesiant pobl ac i'r gwaith o adfer natur.

Mae'r gofynion parhaus am adnoddau i gadw'r statws IDSR wedi eu hateb gan yr APC a'i sefydliadau partner yn y Warchodfa Awyr Dywyll.

Mae gan yr holl Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos bolisiau amddiffyn awyr tywyll priodol yn eu lle ac ar waith, ac mae gweithredwyr goleuadau stryd yn ymrwymedig i opsiynau goleuo priodol.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Erbyn 2026, byddwn wedi datblygu Cynllun Gweithredu 5 mlynedd ar gyfer yr IDSR ac wedi sicrhau adnoddau priodol drwy weithredu â phartneriaid perthnasol.

Erbyn diwedd cyfnod y cynllun, byddwn wedi ail-arolygu'r goleuadau allanol yn y Parthau Craidd a Chlustogi Hanfodol er mwyn asesu cynnydd, gyda'r nod o weld 100% o gydymffurfiaeth â'r argymhellion rheoli.

POLISI'AU SY'N YMWNEUD Â'N SYLFAEN GYMDEITHASOL

Er mwyn cyflawni amcan y cynllun hwn o ran ein dyletswydd economaidd-gymdeithasol, rydym wedi diffinio cyfres o ymyriadau polisi sydd wedi eu hanelu at roi cyfle cyfartal a bywyd hapus a ffyniannus i'n cymunedau yn y Parc.

Polisi	Tudalen
IECHYD A LLESIANT	74
CYMUNEDAU CYNALIADWY	76
ALLGYMORTH	79
BARGEN NEWYDD WERDD	81
BWYD LLEOL	84
SGILIAU GWLEDIG	86
TALIADAU AR GYFER GWASANAETHAU ECOSYSTEM	88
TEITHIO LLESOL	90
YR IAITH GYMRAEG	92

AMCAN: byddwn yn ceisio meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol.
DEILLIANT: caiff pob trigolyn o fewn y Parc gyfle i fyw yn dda ac yn ffyniannus, ac ni fydd unrhyw beth yn digwydd a fydd yn effeithio ar y gallu hwnnw.




**Bydd amgylchedd Bannau
Brycheiniog yn cael ei gydnabod a'i
ddefnyddio am y buddion di-ri y gall ei
gyflwyno i iechyd meddwl, iechyd
corfforol a llesiant cyffredinol pobl.**

Mae'r cysylltiad rhwng llesiant ac iechyd yn ddigyfnewid. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio iechyd fel cyflwr o lesiant llwyr, ond mae llesiant yn symud y tu hwnt i iechyd corfforol neu feddyliol i gynnwys cysyniadau o deimlo'n fodlon â bywyd.

Mae llawer o astudiaethau wedi clymu cysylltiad â natur i effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant, fel llai o straen, lefelau uwch o fodlonrwydd personol a llai o achosion o glefyd cardiofasgwlaidd. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnig cyfleoedd di-ri i bobl ryngweithio ag amgylcheddau naturiol i ffwrdd o broblemau trefol fel sŵn a llygredd aer. Mae'r Parc felly yn cynnig arena o bosibiliadau lluosog i gyflwyno buddion iechyd a llesiant hirdoedl i ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd.

IECHYD A LLESIANT



Pam mae hyn yn bwysig?

Sefydlwyd Parciau Cenedlaethol y DU ar ddiwedd yr ail ryfel byd fel rhan o ddiwygiadau cymdeithasol ysgubol a anelwyd at ailgodi'r genedl ar ôl caledi'r rhyfel. Ystyriwyd rhyddid i gael mynediad at hamdden awyr agored mewn tirweddau ysbrydoledig yn elfen hanfodol o genedl iach, ochr yn ochr â'r gwasanaeth iechyd gwladol, y wladwriaeth les a gwyliau â thâl.

Efallai bod ein sylfeini yn 70 mlwydd oed, ond mae'r angen i gefnogi iechyd a lles y genedl yn fwy o flaenoriaeth nag erioed i'r llywodraeth a llunwyr polisi ac wedi ei ymwreiddio o fewn fframwaith deddfwriaethol unigryw Cymru. Mae'r cynllun hwn yn cael ei ysgrifennu yn ystod haf 2021 wrth i'r genedl symud allan o'r 'cyfnod clo', y cyfyngiadau symud yn cael eu llacio a'r ymwelwyr yn dychwelyd i'r Parc mewn niferoedd enfawr, wedi'u sbarduno gan yr angen i ailgysylltu â natur. Wrth i'r genedl gymryd ei chamau cyntaf at adferiad, credwn y gallai Parciau Cenedlaethol yn gyffredinol, a Bannau Brycheiniog yn benodol, chwarae rhan allweddol mewn helpu i iacháu'r holl rai hynny a wynebodd galedi enfawr yn ystod y pandemig.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Rydym eisiau sicrhau bod yr ymwelwyr hynny sy'n dod i'r Parc Cenedlaethol i chwilio am iachâd yn gallu gwneud hynny. Rydym hefyd eisiau sicrhau y gall yr holl rai hynny mewn angen gael eu gwneud yn ymwybodol o fuddion yr amgylchedd y gallai'r Parc eu cyflwyno iddynt. Er mwyn cyflawni'r ddau amcan hyn, bydd angen mynd ati'n gydweithredol i weithio gydag amrediad o randdeiliaid ar gynllun uchelgeisiol i greu Gwasanaeth Iechyd Naturiol o fewn y Parc.

Bydd y Gwasanaeth Iechyd Naturiol yn brosiect blaenllaw, ar draws y cyfuniad o Fyrddau Iechyd Cyhoeddus sy'n cwmpasu'r Parc. Y nod fydd adeiladu brand y bydd amrediad o weithgareddau, digwyddiadau a chyhoeddiadau yn cael eu datblygu o'i fewn i ddangos sut y gallai tirwedd naturiol a hanesyddol y Parc gael ei defnyddio gan grwpiau ac unigolion er budd i'w hiechyd a llesiant.

Bydd Llysgenhadon Iechyd Proffesiynol hyfforddedig yn allweddol i ledaenu brand y Gwasanaeth Iechyd Naturiol. Gan adeiladu ar y rhaglen llysgenhadon hynod lwyddiannus a ddatblygwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB), bydd rhaglen wedi ei theilwra a'i hanelu at weithwyr iechyd proffesiynol yn cael ei datblygu a'i chyflwyno gyda'r nod o greu eiriolwyr 'rhwng cymheiriaid' dros ddefnyddio natur at ddibenion therapiwtig.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?


Mae rhwydwaith Gwasanaeth Iechyd Naturiol Bannau Brycheiniog o weithgareddau, digwyddiadau a theithiau cerdded hunandwysedig yn frand adnabyddus a dibynadwy a ddefnyddir i amlygu buddion iechyd a llesiant y Parc i drigolion ac ymwelwyr. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth yn hawdd ar-lein ac ar lawr. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn defnyddio'r rhwydwaith gwybodaeth hwn i ddod o hyd i weithgareddau perthnasol i greu presgripsiynau cymdeithasol am weithgarwch awyr agored. Mae cymunedau lleol yn ceisio llunio eu rhaglenni Gwasanaeth Iechyd Naturiol eu hunain o fewn eu Cynlluniau Bro.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Trwy ymhél â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r darparwyr gwasanaethau eraill sy'n rhan o'r Parc, gallwn gasglu tystiolaeth sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant cyffredinol ein trigolion, achosion o bresgripsiynu cymdeithasol, a digwyddiadau o weithgareddau awyr agored ffurfiol sy'n cyflwyno buddion iechyd.

Byddem yn adnabod cynnydd o fewn y data hwn fel cynnydd yn nifer y presgripsiynau cymdeithasol sy'n defnyddio'r Parc i drin anhwylderau iechyd corfforol a meddyliol o un flwyddyn i'r llall.

Byddem hefyd yn gweld cynnydd yn y defnydd o Frand y Gwasanaeth Iechyd Naturiol ar draws y Parc.




**Bydd y cymunedau yn y Parc
Cenedlaethol yn lleoedd bywiog,
cynaliadwy ac yn bwysicaf oll lleoedd
gwyh i fyw ynddynt.**

O fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol, mae rhwydwaith rhyngberthynol o drefi, pentrefi, pentrefannau a ffermdai unigol sydd, gyda'i gilydd, yn gartrefi i'n cymunedau.

Gwnaeth y cyfnod clo ddysgu llawer o wersi i ni am yr hyn sy'n gwneud rhywle yn lle braf i fyw. Gwelsom werth o'r newydd yn cael ei osod ar ddarparu gwasanaethau lleol, bwyd lleol a mannau gwyrdd lleol o ansawdd. I lawer, roedd gallu cerdded i siop i brynu pethau sylfaenol yn achubiaeth iddynt. Gelwir lleoedd o'r fath yn gymdogaethau cerddadwy, a chyfeirir atynt hefyd fel trefi/cymdogaethau 20 munud.

Mae cymuned 20 munud yn lasbrint ar gyfer cymuned gynaliadwy, un lle y gall trigolion fyw mewn tai fforddiadwy, diwallu anghenion sylfaenol o fewn 20 munud ar droed neu feic a lle y gallant gael mynediad hawdd at fan gwyrdd i wneud gweithgareddau hamdden bob dydd. Dyhead y cynllun hwn yw creu ffyrdd i'n holl gymunedau ddod yn lleoedd o'r fath.

CYMUNEDAU CYNALIADWY



Pam mae hyn yn bwysig?

Er mwyn i gymunedau'r Parc Cenedlaethol fod yn gynaliadwy yn y dyfodol, mae angen newid y ffordd yr ydym yn meddwl am dai, cyflogaeth a darpariaeth gwasanaethau yn llwyr. Heb wasanaethau a chyfleusterau, nid yw lleoedd yn ddim mwy na neuaddau, yn rhywle i bobl gysgu. Mae eu calon ar goll ac, o ganlyniad, yn effeithio ar lesiant trigolion.

Mae'r pandemig wedi cael effaith ddofn ar y cysylltiad rhwng ble mae pobl yn byw a gweithio. Wrth i lawer ledled y DU ddechrau gweithio gartref, mae'r diddordeb mewn tai mewn lleoliadau gwledig wedi cynyddu. Mae'r pandemig hefyd wedi golygu bod pobl wedi treulio mwy o'u hamser o fewn y lleoedd y maen nhw'n byw; i rai, mae hyn wedi amlygu'r diffygion o fewn y lleoedd y maen nhw'n byw, ac i eraill, mae wedi dangos cryfder eu cymuned.

Mae gallu trigolion i ymdopi â'r pandemig nid yn unig wedi dibynnu ar eu gallu i gyrchu cyfleusterau o'u cartrefi, ond hefyd ar eu gallu i gysylltu ag eraill ac ymgymryd â chyflogaeth â thâl yn ddigidol. Mae cyflymderau'r cysylltiad band eang yn arafach a chyda llai o gapasiti nag ardaloedd trefol. Mae gwahaniaethau o'r fath yn broblem o ran cydraddoldeb cymdeithasol, ac mae'n rhaid gwneud llawer i sicrhau nad yw byw yn rhywle gwledig yn atal trigolyn rhag cael cysylltiad cyflym. Bydd cysylltiadau o'r fath yn fwyfwy arwyddocaol yn y dyfodol a bydd ein trigolion dan anfantais sylweddol hebddynt.

Heb os, y broblem fwyaf arwyddocaol sy'n wynebu cynaliadwyedd ein cymunedau yn y dyfodol yw pris uchel tai o'i gymharu â'r cyflogau canolrifol. Awgryma'r data diweddaraf fod y morgais sydd ei angen i brynu tŷ cyffredin yn y Parc bron 9 gwaith yn fwy na'r incwm canolrifol. Mae'r prinder mewn tai fforddiadwy a chanolraddol (sydd ar gael i bobl mewn cyflogaeth â thâl) yn gwneud y sefyllfa'n waeth, sy'n golygu bod llawer o'r rheini a anwyd ac a fagwyd yn y Parc yn gadael yr ardal ar ddechrau eu hugeiniau ac yn dechrau teuluoedd y tu allan i'r Parc.

Mae cynyddu'r cyflenwad o dai i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn flaenoriaeth frys. Fodd bynnag, mae capasiti'r Parc i gael datblygiadau newydd wedi ei gyfyngu gan yr angen i warchod y nodweddion arbennig a chan gyfyngiadau amgylcheddol fel llwytho ffosffad mewn dalgylchoedd afonydd ACA sensitif. I gael cydbwysedd rhwng anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol, mae angen ymdrech gydweithredol ar lefelau llawr gwlad.

Cydnabyddir hefyd mai cymunedau gwledig sy'n wynebu rhai o'r heriau mwyaf o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. Mae natur wasgaredig aneddiadau gwledig yn creu heriau o ran cyflwyno seilwaith sylfaenol, fel trafnidiaeth gyhoeddus, band eang cyflym a chyfleusterau gwefru cerbydau trydanol, ac yn gwneud rhai gwasanaethau yn ddrytach nag mewn ardaloedd trefol (fel tanwydd ar gyfer gwresogi a thrafnidiaeth). Heb fuddsoddiad sylweddol yn y seilwaith, gallai bywyd cefn gwlad nid yn unig ddod yn afresymol o ddruod ond hefyd fod yn niweidiol tu hwnt i'r amgylchedd.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Mae'r APC eisoes wedi dechrau datblygu Cynlluniau Bro, gan weithio gyda chymunedau o fewn y Parc. Nod y cynlluniau llawr gwlad cydweithredol hyn yw grymuso cymunedau i ddiffinio eu hanghenion yn y dyfodol gyda chymorth darparwyr gwasanaethau lleol.

Y nod nawr yw mynd â'r cynlluniau hyn gam ymhellach a defnyddio Cynlluniau Bro fel ffordd o greu mapiau llwybr i bob cymuned ddod yn 'gymuned 20 munud'. Bydd yr ymdrechion yma yn canolbwyntio ar ddatblygu hybiau cymunedol er mwyn darparu gwasanaethau a chyfleusterau; manau tyfu cymuned ar gyfer iechyd a llesiant; tai dan arweiniad y gymuned sydd ar gael i bobl leol er mwyn cael cynaliadwyedd cymunedol; cyfleoedd i weithio gartref gan gynnwys gweithdai dan arweiniad y gymuned a swyddfeydd; a chynlluniau i hybu ôl-osodiad y stoc tai cyffredol er mwyn bod yn effeithlon o ran ynni, a chynlluniau ynni adnewyddadwy domestig.

Bydd pob datblygiad yn y dyfodol a gaiff ei alluogi gan gynlluniau o'r fath yn darparu gwelliant maethol.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Cefnogir ein prif gymunedau gan amrediad o wasanaethau a chyfleusterau sy'n galluogi trigolion i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol o fewn 20 munud ar droed neu feic ar hyd llwybrau amldeffnydd ynodedig di-geir.

Mae cymunedau yn gytbwys o ran oedranau ac yn lleoedd deniadol a fforddiadwy i deuluoedd ymgartrefu, ac yn cynnig tai i ddiwallu anghenion ein trigolion hŷn.

Gofelir am blant a phobl hŷn o fewn cymunedau gan drigolion lleol, gan ychwanegu at gyfalaf cymdeithasol cryf, cysylltiedig a chefnogi'r economi sylfaenol.

Mae cymunedau yn hyddysg mewn carbon, a llawer wedi datblygu eu systemau ynni adnewyddadwy eu hunain i gynnig ynni gwyrdd fforddiadwy yn uniongyrchol i aelodau'r gymuned sy'n annibynnol o'r grid. Mae llawer o'r bobl hynny hefyd wedi gallu defnyddio'r ffynhonnell hon o ynni i gefnogi cyfleusterau gwefru cerbydau trydanol.

Mae llawer o gymunedau wedi datblygu gerddi cymdeithasol, mannau tyfu, perllannau a choetiroedd. Mae hyn wedi cyflwyno man gwyrdd hygyrch i orffwys, wrth ddod â'r gymuned yn agosach at ei gilydd gan rannu'r nod o dyfu bwyd.


Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Mae cynaliadwyedd a chadernid cymunedol yn ganlyniad cymhleth ac amlweddol sy'n gofyn am amrediad o ddangosyddion monitro. Mae llawer o'r rhain yn ymwneud â dod â'r Parc o fewn safonau gofynnol ein sylfaen gymdeithasol.

Byddwn yn monitro'r cynnydd tuag at ddatblygu lleoedd deniadol a fforddiadwy drwy fonitro data rhestrau aros tai fforddiadwy gyda'r nod o weld llai o angen o un flwyddyn i'r llall.

Byddwn yn monitro cydraddoldeb mewn cysylltedd digidol drwy ddadansoddi lefel y ddarpariaeth a chost band eang cyflym. Byddai'r cynnydd tuag at ganlyniadau allweddol yn cynnwys darpariaeth gyffredinol ar draws y Parc Cenedlaethol ar lefelau fforddiadwy.

Byddwn yn monitro'r cynnydd tuag at 'gymunedau 20 munud' drwy archwiliadau cynaliadwyedd cymunedol blynyddol, gyda'r nod o weld pob un o'n cymunedau yn sgorio mwy nag 16 ar y mynegai.




Rydym yn credu y dylai'r Parc Cenedlaethol fod yn dirwedd i bawb.

Byddwn yn chwalu'r rhwystrau i fynediad a brofwyd gan rai grwpiau a chymunedau i wneud y Parc yn adnodd croesawgar a gaiff ei ddefnyddio'n eang gan bawb.

Noda dangosyddion Cymru ar gyfer amddifadedd a chanlyniadau iechyd cymharol, fod nifer o'r cymunedau ar gyrion y Parc Cenedlaethol ymhlith y rhai mwyaf economaidd amddifad yn y DU a chyda rhai o'r lefelau uchaf o glefydau cronig, y lefelau uchaf o farwolaethau o ganlyniad i glefydau mawr a chyda'r disgwyliad oes isaf yn y DU ([Headington a MacBride-Stewart 2019](#)).

Gwyddom o waith ymchwil fod y Parc yn cael ei werthfawrogi gan lawer o fewn y cymunedau hyn, ond mae rhwystrau i fynediad a allai, pe baent yn cael eu gwaredu, gyflwyno buddion cadarnhaol o ran canlyniadau iechyd a llesiant.



Pam mae hyn yn bwysig?

Dengys gwaith ymchwil fod cysylltiadau cryf rhwng y cymunedau hyn a'r Parc. Fodd bynnag, am resymau amrywiol, yn enwedig y prinder mewn trafnidiaeth gyhoeddus, mae'r mynediad yn gyfyngedig i ychydig o leoedd 'adnabyddus' sy'n cyfyngu nifer y rhyngweithiadau ystyrllon â'r Parc.

Gall y rhwystrau i fynediad a wynebir gan y cymunedau hyn ychwanegu ymhellach at yr amddifadedd a brofir. Mae'r cynnydd yn yr achosion o anhwylderau gorbryder, yn enwedig ymhlith plant, wedi ei briodoli i anhwylder diffyg natur sy'n gysylltiedig â mynediad cyfyngedig at fannau gwyrdd i rhyngweithio'n anffurfiol â'r amgylchedd naturiol.

Gwyddom hefyd fod rhyngweithiadau cadarnhaol ag amgylcheddau naturiol yn eithriadol o fuddiol i liniaru anhwylderau straen cronig, yn enwedig y ffurfiau hynny o straen cronig sy'n gysylltiedig ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Gall rhyngweithiadau o'r fath fod yn fwy effeithiol na thriniaethau traddodiadol â chyffuriau.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Awgryma cymhlethdod y problemau economaidd-gymdeithasol sy'n wynebu'r cymunedau hyn na fydd un datrysiad yn ateb yr her. Yn hytrach, bydd yr APC yn cydlyn partneriaeth anffurfiol o gyrff statudol a gwirfoddol i greu amrediad o ymyriadau gyda'r bwriad o gynyddu rhyngweithiadau

Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a phlatformau ar-lein i ddarparu gwell mynediad digidol ar gyfer y Parc fel dull cam wrth gam o annog mynediad ffisegol ymhlith y grwpiau mwyaf datgysylltiedig.

Cefnogi opsiynau gwell am drafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy o'r ymylon deheuol i mewn i'r Parc Cenedlaethol.

Ymgysylltu â'r sector awyr agored i ddarparu sesiynau blasu ar weithgareddau.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Bydd trafnidiaeth hygyrch a fforddiadwy o'r ymylon deheuol i'r Parc Cenedlaethol a fydd yn cael ei defnyddio gan drigolion y cymoedd i ddod i'r Parc i wneud gweithgareddau hamdden. Bydd rhywfaint o'r gweithgarwch hwnnw wedi ei strwythuro a'i drefnu gan yr Awdurdod (neu ein partneriaid), a rhywfaint ohono heb ei strwythuro a'i drefnu yn y modd hwn.


Bydd amgylchedd y Parc Cenedlaethol wedi chwarae rhan mewn gwella'r canlyniadau iechyd i rai o'r wardiau mwyaf amddifad yng Nghymru.

Bydd yr holl rwystrau i gael mynediad i'r parc wedi eu chwalu.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Byddwn yn monitro cyfran yr ymwelwyr i'r Parc o gymunedau'r cymoedd drwy ddefnyddio gwell technegau arolygu sy'n gallu cofnodi ymyriadau o'r fath yn well.

Byddwn yn monitro'r data iechyd a llesiant o fewn yr ardaloedd hyn, gan gynnwys lefelau'r presgripsiynu cymdeithasol o fewn cymunedau'r cymoedd sy'n gysylltiedig â defnyddio'r Parc.




I fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, mae angen edrych ar yr economi wledig mewn ffordd newydd. Er mwyn sicrhau cadernid a ffyniant cymunedau lleol yn y dyfodol, byddwn yn cydweithio â phartneriaid i gefnogi'r gwaith pontio i economi newydd a mwy cynaliadwy.

Mae'r patrwm twf cyfredol o fewn ystyriaethau economaidd traddodiadol yn broblemus yn ecolegol ac yn gymdeithasol. Mae'r modelau economaidd cyfredol, sy'n dibynnu ar ddefnyddio mwy o adnoddau y mae pen draw iddynt (tir, dŵr ac ynni), yn anghynladwy ac nid ydynt yn gweddu i amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

Yma, rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu economi 'cyflwr sefydlog' sy'n caniatáu rhywfaint o dwf cyfyngedig cyfrifol sy'n atebol yn ecolegol a chyda chyfiawnder cymdeithasol wrth ei gwraidd.

BARGEN NEWYDD WERDD



Pam mae hyn yn bwysig?

Caiff ansefydlogrwydd systemau economaidd byd-eang ei gydnabod yn eang bellach. Mae ein heconomiâu, ein bywoliaeth a'n llesiant i gyd yn dibynnu ar ein hased mwyaf gwerthfawr: natur. Fodd bynnag, fel y daeth Llwyfan Polisi Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystemau (IPBES) i'r casgliad yn eu Hadroddiad Asesu Byd-eang ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystem, 'Rydym yn erydu holl sylfeini ein heconomiâu, bywoliaeth, diogelwch bwyd, iechyd ac ansawdd bywyd ledled y byd'. Mae economi sy'n methu ag ystyried ei dibyniaeth ar natur yn un a fydd, yn y pen draw, yn ein tywys y tu hwnt i bwyntiau tyngedfennol byd-eang o ecsbloetio adnoddau.

Nid yw'n gorfod bod fel hyn; gallwn ailfeddwl ein heconomiâu fel eu bod yn rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Os byddwn ni'n dewis buddsoddi mewn natur yn hytrach na'i hecsbloetio, gallwn fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, iacháu ecosystemau, diogelu swyddi ac adeiladu economi atgynhyrchiol, gynaliadwy.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Cydnabyddir y Parc Cenedlaethol yn eang fel canolbwynt ar gyfer economïau gwyrdd cynaliadwy, ble mae arloesedd yn ffynnu a chymorth ar gael i'r rheini sy'n ymwneud ag adeiladu busnesau cryfach, mwy gwyrdd sy'n ceisio gweithredu o fewn y man teg a diogel.

Mae llawer o'r cwmnïau sy'n gweithredu o fewn y Parc Cenedlaethol wedi eu hardystio yn Gorfforaethau B ac yn enghreifftiau o weithredu o fewn yr economi gylchol.

Mae ein sector amaethyddol wedi symud yn hawdd i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac mae ffermwyr yn derbyn buddion am y nwyddau cyhoeddus y maen nhw'n eu cyflenwi.

Bydd y Parc yn cynnig entrepreneuriaeth gwerth ychwanegol uchel yn seiliedig ar yr economi ddigidol ac yn prosesu cynhyrchion naturiol cynaliadwy, yn enwedig coed a phren.

Bydd yr economi wasanaeth sy'n seiliedig ar dwristiaeth gynaliadwy yn ffynnu

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Nid yw datblygu economaidd ynddo'i hun yn rhan o ddibenion a dyletswydd yr APC, ond mae effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol camau gweithredu economaidd yn effeithio'n uniongyrchol ar sut mae ein dibenion a'n dyletswydd yn cael eu rhoi ar waith. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid i lunio nodau a rennir a datblygu economi atgynhyrchiol ar gyfer y Parc Cenedlaethol.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddiffinio 'bargen newydd werdd' wledig ar gyfer y Parc. Bydd hon yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cefnogi datblygiad entrepreneuriaeth arloesol ecogyfrifol
- Cysylltedd uchel sy'n seiliedig ar gyfathrebiadau digidol a thrafnidiaeth gynaliadwy
- Cefnogi gwaith pontio at fodelau newydd ar gyfer amaethyddiaeth, coetiroedd a chynhyrchu bwyd sy'n seiliedig ar ddal a storio carbon, cadernid yr ecosystem, adfer natur, arloesedd, cynhyrchu gwerth ychwanegol uchel a phwys ar wireddu gwerth y dirwedd

- Ymchwil a Datblygiadau gwyrdd
- Seilwaith ffisegol glân
- Adeiladu ôl-osodiadau effeithlonrwydd
- Addysg a hyfforddiant tuag at economi werdd
- Buddsoddiad cyfalaf naturiol ar gyfer cadernid yr ecosystem ac adfywio
- Cymorth ariannol cyhoeddus drwy fuddsoddiad byrdymor, nid cymorthdaliadau hirdymor
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu canol trefi'r dyfodol sy'n cynnwys hybiau arloesedd, cydweithio ac entrepreneuriaeth yn seiliedig ar rwydweithiau digidol o ansawdd uchel, gan alluogi gweithio 'yn agos i gartref' yn hytrach nag 'o gartref'.

Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Datblygu Lleol a ddaw i'r amlwg i ddatblygu polisi i gefnogi'r uchelgais hwn.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Byddwn yn mesur cynnydd drwy ddefnyddio ystadegau Cenedlaethol ar berfformiad economaidd yr ardal, gan geisio dod o hyd i ffyrdd eraill o fesur iechyd yr economi heblaw am gynnydd gwerth ychwanegol gros.

Bydd y lefel gyflogaeth ac incymau canolrifol yn cael eu monitro gyda'r nod o beidio â gweld swyddi yn cael eu colli a gweld cynnydd mewn incymau canolrifol.


Byddwn hefyd yn monitro'r gyflogaeth fesul diwydiant ac yn ceisio pennu sut mae ein sylfaen economaidd yn symud o ganlyniad i roi'r strategaeth gyflogaeth hon ar waith.



Byddwn yn helpu i sefydlu a thyfu economi bwyd lleol gref. Byddwn yn helpu i gynyddu'r amrywiaeth o fwyd a gynhyrchir o fewn Bannau Brycheiniog ac yn ei gwneud hi'n haws i bobl leol brynu bwyd a gynhyrchwyd yn yr ardal am bris fforddiadwy er budd yr amgylchedd a'r economi leol.

Y bwyd ei hun, sydd, er mwyn cael ei ystyried yn 'lleol', yn gorfod cael ei gynhyrchu yn agos at y man y caiff ei fwyta. Mewn cymhariaeth, mae'r dimensiwn economaidd yn ymwneud â dadadeiladu cadwynau cyflenwi cyfredol er mwyn cadw cymaint â phosibl o'r elw o fewn yr economi leol.

BWYD LLEOL



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae Bannau Brycheiniog yn dirwedd gynhyrchol, gyda'r rhan helaeth o'r tir yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu cig oen a chig eidion. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r cynnyrch a gaiff ei ffermio o fewn y Parc yn cael ei allforio. I'r gwrthwyneb, mae'r rhan fwyaf o'r bwyd a brynir yma yn cael ei fewnforio.

Gall cadwynau cyflenwi bwyd fod yn fawr, mae'r rhan helaeth o'r bwyd sydd ar werth mewn archfarchnadoedd cenedlaethol wedi ei hyperbrosesu ac ychydig iawn a gaiff cynhyrchwyr y cynnyrch sylfaenol (cig oen, cig eidion neu laeth) eu talu am eu hymdrechion gan archfarchnadoedd sy'n gosod prisiau. Mewn rhai amgylchiadau, gall hyn orfodi mwy o gynhyrchwyr i dorri costau (er nid hwn o reidrwydd yw'r darlun a welwn yn y Parc diolch byth), ac mae hyn, yn ei dro, yn gysylltiedig ag effeithiau amgylcheddol. Mae cost carbon sylweddol hefyd o ran cludo bwyd dros bellteroedd maith ac effeithiau iechyd sy'n gysylltiedig â deietau hyperbrosesu.

Er mwyn torri'r gylchred negyddol, dylai'r maes cynhyrchu bwyd arallgyfeirio i alluogi'r ardal i gynhyrchu mwy o'r bwyd sydd ei angen ac mae'n rhaid i gynhyrchwyr bwyd gael cyfleoedd i werthu eu cynnyrch yn lleol yn uniongyrchol i ddefnyddwyr er mwyn sicrhau bod cynhyrchiad o'r fath yn economaidd hyfyw, yn cyflwyno buddion lleol ehangach, yn cynhyrchu llawer llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn dal a storio mwy o garbon.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Mae'r APC yn un partner o fewn y Gweithgor I200. Eu gweledigaeth uchelgeisiol yw cael mynediad i I200 erw o dir ledled Sir Fynwy a'r Parc er mwyn trosglwyddo i wahanol fathau o ffermio, gan gynnwys y model Gardd Farchnad. Llawer o gynnyrch, cyflogaeth uchel ac yn broffidiol.

Y dyhead yw sefydlu ymddiriedolaeth tir er mwyn diogelu a rheoli'r tir hwn a'i lesio i genhedlaeth newydd o ffermwyr a garddwyr i danio'r trawsnewidiad mewn cynhyrchu bwyd. Bydd tir o'r fath yn cael ei ffermio gan ddefnyddio prosesau atgynhyrchiol ac yn cynnwys cynnydd net mewn storio carbon. Bydd rheoli maethynnau yn rhan greiddiol o athroniaeth y prosiect.

Yn gysylltiedig â hyn mae sefydlu rhwydwaith masnachu uniongyrchol a fydd yn galluogi pobl i gysylltu â'r cynnyrch lleol, gan gynnwys datblygu brand Bwyd y Bannau.

Bydd y Cynllun Cyflenwi Lleol yn cynnwys polisi galluogi sy'n cefnogi datblygiadau tai sydd ynghlwm wrth weithgarwch amaethyddol/garddwriaethol newydd.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Dethlir y Parc Cenedlaethol yn eang fel ardal cynhyrchu bwyd fywiog. Gall pobl leol gael gafael ar amrywiaeth o fwyd o ansawdd uchel a gynhyrchir yn lleol sy'n cynyddu ffyniant a chanlyniadau iechyd yr ardal.

Mae'r ymddiriedolaeth tir I200 ar waith, yn lesio tir a thai i genhedlaeth newydd o gynhyrchwyr bwyd.


Caniateir i ryw faint o hen dir pori adfywio'n naturiol ac adfer cynefinoedd lled-naturiol gan fod ardaloedd cynhyrchu bwyd yn gallu contractio drwy weithrediad dwysedd uwch. Mae da byw yn parhau i fod yn hanfodol i reoli tir.

Mae brand Bwyd Bannau Brycheiniog wedi ei ddatblygu sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd amgylcheddol a chynhyrchion o ansawdd uchel.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Byddwn yn monitro erwau'r tir o fewn rheolaeth Ymddiriedolaethau Tir I200.

Byddwn yn monitro'r amrywiaeth o fwydydd a'r maint a gynhyrchir gyda'r nod o weld cynnydd yn y ddwy elfen. Byddwn yn monitro cynnwys carbon priddoedd mewn daliadau ymddiriedolaeth tir I200 gyda'r nod o weld cynnydd yn swm y carbon a gaiff ei ddal a'i storio.

A group of people are working on a stone wall in a rural landscape. The background shows rolling hills and a clear sky. The people are wearing casual clothing and some are wearing gloves. They are focused on their work, with some bending over to place stones. The overall scene is one of community effort in a natural setting.


Byddwn yn sicrhau bod sgiliau gwledig yn cael eu cynnal, eu cadw a'u gwella o fewn Bannau Brycheiniog. Byddwn yn creu partneriaethau gweithredol wrth ddatblygu cynllun hyfforddi gweithlu gwyrdd sy'n defnyddio sgiliau gwledig i weithredu yn erbyn argyfyngau'r hinsawdd a bioamrywiaeth.

Mae 'sgiliau gwledig' yn derm eang sy'n cwmpasu amrediad o swyddi ymarferol a rheoli, sy'n benodol i'r cyd-destun gwledig.

Ffermydd teuluol bach yw calon y Parc, mae eu hirhoedledd yn dyst i wybodaeth am reoli tir sydd wedi ei throsglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Bydd sicrhau bod ffyrdd o barhau i drosglwyddo'r wybodaeth hon yn y dyfodol yn mynd yn bell i warchod tirwedd a diwylliant y Parc i genedlaethau'r dyfodol.

Er eu bod yn gysylltiedig â ffermio yn y bôn, mae sgiliau gwledig yn fwyfwy pwysig hefyd wrth gyflawni mesurau ar dir i liniaru'r newid yn yr hinsawdd, fel plannu coed ac adfer cynefinoedd.

SGILIAU GWLEDIG



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae'r Parc Cenedlaethol fel tirwedd weithiol, fyw wedi cael ei dylanwadu gan ymyrraeth ddynol ers milenia. Mae gan lawer o nodweddion y dirwedd a werthfawrogir, fel gwrychoedd a waliau sychion werth bioamrywiaeth a phwysigrwydd diwylliannol sydd angen eu cynnal a chadw'n grefftus os ydynt am barhau i gael eu mwynhau gan genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi ein tirwedd yn cael eu colli er fantais i'n hamgylchedd a'n trefnadaeth. Dengys tueddiadau demograffig fod ein pobl ifanc yn symud o'r ardal, gan ddim ond dychwelyd yn aml ar ôl ymddeol, os o gwbl. Mae colli aelodau cyflogedig y gymuned yn her i'n heconomi leol ac yn creu prinder sgiliau sylweddol mewn gwaith i gynnal a chadw ein hamgylchedd. Mae uwchsgilio ein pobl ifanc yn cynnig cyfle i'w cadw o fewn y gymuned, gan ddarparu gyrfaedd dichonadwy yn y dyfodol.

Gwyddom fod angen taer hefyd i wyrdroi effeithiau'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth. I wneud hyn, bydd angen datblygu gweithlu medrus a fydd yn gallu gweithio ar y tir yn rhoi rhaglenni creu cynefinoedd a phlannu coed ar waith, yn ogystal â hwyluso storffeydd a meithrinffeydd hadau lleol. Bydd hyn, yn ei dro, yn creu swyddi sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi leol.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Mae'r Parc Cenedlaethol wedi rhedeg nifer o brosiectau sydd wedi eu hanelu at wella sgiliau gwledig, a bydd yr APC yn parhau i ymgymryd â rôl arweiniol, yn datblygu ac yn darparu profiadau gwaith mewn swydd sy'n ymwneud â chadwraeth a rheoli tir. .

Gellid cyflawni llawer mwy drwy bartneriaeth o ddarparwyr hyfforddiant fel Coleg y Mynydd Du, y Cyngor Sgiliau Sector, Lantra, Ffermwyr Ifanc a Chyswilt Ffermio a fyddai'n cynyddu'r dyfnder a'r niferoedd sydd eu hangen i gefnogi adferiad gwyrdd y tir. Mae'r Cynllun hwn yn cefnogi datblygiad partneriaeth o'r fath. Un o brif ganlyniadau partneriaeth o'r fath fydd datblygu prentisiaethau a hyffordddeaethau gyda chyflogwyr amrywiol o fewn yr ardal.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Rydym wedi helpu i hyfforddi gweithlu gwyrdd newydd sy'n wybodus ac yn ddeheuig mewn sgiliau traddodiadol, ond sy'n flaengar ac yn gallu cymryd camau gweithredu ar lawr gwlad i adeiladu tirwedd fwy cadarn ar gyfer y Parc Cenedlaethol.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Bydd cynnydd at yr amcan hwn yn cael ei fesur drwy ddefnyddio mesurau ansoddol a meintiol.

Byddwn yn adnabod cynnydd drwy ddadansoddi data demograffig ar gyfer y Parc gyda'r nod o weld mwy o byramidiau demograffig gyda gwasgariad mwy cyfartal o oedranau.

Bydd cynnydd hefyd yn cael ei adnabod o fewn dadansoddiadau data cyflogaeth gyda chynnydd yn nifer y trigolion a gyflogir o fewn swyddi ar y tir.

Byddwn hefyd yn adnabod cynnydd pan fyddwn yn gweld cynnydd yn nifer y myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gysiau hyfforddi perthnasol.


Bydd data ansoddol yn cael ei gasglu drwy arolygon ymadawyr ysgol er mwyn deall y cymhellion i astudio ymhellach yn well.

Byddwn yn datblygu portffolio o brosiectau sy'n cynhyrchu taliadau ar gyfer Gwasanaethau Ecosystem.

Pan gyfeirir at wasanaethau ecosystem, rydym yn golygu'r amrediad eang o fuddion y mae bodau dynol yn eu cael o'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys sut mae natur yn cyfrannu at ein llesiant.

Mae taliadau ar gyfer gwasanaethau ecosystem, y cyfeirir atynt yn aml fel PES, yn ymwneud â thrafodiad rhwng rheolwr tir sy'n darparu gwasanaeth naturiol a buddsoddwr sy'n dymuno manteisio ar ganlyniadau'r gwasanaeth hwnnw, er enghraifft, gwrthbwysio allyriadau carbon drwy noddi cynllun creu coetir neu gynhyrchu dŵr yfed glân drwy hidlo gwelyau cyrs neu hyd yn oed cyflwyno mwy o gyfleoedd i gysylltu â'r amgylchedd naturiol. Mae hwn yn rhywbeth yr ydym wedi ei beilota o'r blaen drwy ein gwaith gyda Phartneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon ac yn cydweithio arno gyda'n teulu o Barciau Cenedlaethol.

TALIADAU AR GYFER GWASANAETHAU ECOSYSTEM



Pam mae hyn yn bwysig?

Er mwyn i dirweddau gwarchodedig ffynnu, mae angen i ni wella cysylltedd, cyflwr, graddfa/maint ac amrywiaeth ein hecosystemau. Mae'r polisi hwn yn un ffordd y byddwn yn ei defnyddio o godi proffil yr amcan hwn wrth greu buddsoddiad economaidd a fydd yn fuddiol i gymunedau gwledig.

Mae cwmnïau yn chwilio am gynlluniau buddsoddiadwy y gallir dechrau gweithio arnynt ar unwaith. Mae symudiad cynyddol o fewn y byd busnes am fuddsoddiadau sy'n cyfrannu at wireddu nodau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Mae cynlluniau o'r fath yn ategu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy datblygol a dylent weithio gyda'i gilydd er budd ecolegol ehangach.

Mae cyfle y gallir ei ehangu drwy gydlyniant. Gall yr Awdurdod ddefnyddio ei bwerau ymgynnull i ddwyn cyflenwyr gwasanaethau a buddsoddwyr ynghyd er budd i'r ddwy ochr.

Ble mae'r polisi hwn yn berthnasol?

Mae amgylchedd y Parc yn addas iawn i gyflwyno amrywiaeth o fuddion buddsoddiadwy. Cynigir ein bod yn canolbwyntio ar y tair ardal ganlynol: -

Mawndir ar gyfer credydau carbon. Adfer mawn wedi ei ddirywio yw'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o ddal a storio carbon. Byddai cael nawdd corfforaethol am waith adfer yn dod â'r Parc Cenedlaethol i mewn i'r arena fasnachu.

Ehangu ac adfywio coetiroedd. Ehangu ardaloedd coediog y Parc yw un o brif amcanion y cynllun hwn (cyfeiriwch at ein Polisi Coedweddau). Mae'n arena â dulliau masnachu sefydledig ac yn gymharol hawdd ei sefydlu o fewn y Parc. Gallai hyn drawsnewid cynhyrchiant tir ymylol.

Dalgylchoedd afon ar gyfer masnachu maethynnau.

Mae gan afonydd Gwy ac Wysg, dwy o'n hafonydd mwyaf eiconig, lefelau o lygredd ffosffad sy'n niweidiol i fywyd dyfrol. Mae'r lefelau hyn o lygredd mor uchel fel bod y diwydiant datblygu wedi arafu a stopio mewn rhannau helaeth o'r Parc Cenedlaethol. Gallai buddsoddwyr noddi'r gwaith o greu gwlypdiroedd, coetiroedd a nodweddion naturiol eraill o fewn dalgylchoedd er mwyn cyfrannu at adfer iechyd ecolegol yr afonydd a'r buddion y gallai hyn ei gyflwyno.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Mae cyflawni'r trywydd ar gyfer yr amcan polisi hwn yn ddibynnol ar allu'r Awdurdod i feithrin cydberthnasau o ymddiriedaeth â thirfeddianwyr a buddsoddwyr.

Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r holl arbenigedd sydd ar gael i dargedu lleoliadau priodol ar gyfer datblygu PES ac yn helpu i ddylunio systemau sy'n rhoi buddion ychwanegol sy'n ymarferol o ran buddsoddi.

Bydd yr Awdurdod yn gweithio drwy bob sianel sydd ar gael i ymgysylltu â thirfeddianwyr, rheolwyr, ffermwyr a dynion cyffredin i greu ffordd o gyflawni buddion buddsoddiadwy.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Byddwn yn adnabod cynnydd pan fydd corff staff yr APC wedi datblygu digon o arbenigedd i arwain gwaith datblygu portffolio.


Sut byddwn yn mesur cynnydd?

Byddwn yn adnabod cynnydd drwy nifer a chyfanswm ardal (hectarau) y cynlluniau PES sydd ar waith, a'r incwm ychwanegol a gaiff ei gynhyrchu a'i gadw o fewn y Parc.

Byddwn yn creu rhwydwaith beicio a cherdded cenedlaethol ledled y Parc a fydd yn helpu i greu parc cenedlaethol iachach a gwell, sy'n fwy cadarn yn economaidd gyda chanol trefi wedi eu hadfywio, sy'n fwy cymdeithasol deg ac sy'n rhoi dewis arall deniadol, go iawn i bobl yn hytrach na gyrru pan fyddant angen mynd o gwmpas y Parc Cenedlaethol.

Dylai pobl sy'n byw a gweithio yn y Parc Cenedlaethol a phobl sy'n ymweld ag ef gael y cyfle i deithio o fewn y Parc Cenedlaethol a chyrchu mannau cyhoeddus heb y perygl a ddaw yn sgil rhannu mannau a llwybrau cyhoeddus gyda cheir a beiciau modur.

TEITHIO LLESOL



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae ei gwneud hi'n haws i bobl o bob gallu symudol deithio ar feic yn fater o iechyd cyhoeddus, cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol.

Ni ellir parhau i drin beicio a cherdded fel ôl-ystyriaeth ar adeg pan mae gennym dagfeydd ar y ffyrdd, llygredd aer a lefelau uchel o anweithgarwch corfforol. Yn y DU, nid oes gan oddeutu chwarter o'r holl aelwydydd fynediad at gar, felly maen nhw'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus nad yw'n gwasanaethu holl bentrefi ac atyniadau'r Parc Cenedlaethol. Mae teithio llesol a thrafnidiaeth carbon isel/di-garbon a rennir yn cyflwyno cyfleoedd i archwilio a chysylltu â phobl yn y Parc Cenedlaethol a phobl sy'n mynd i'r Parc mewn ffyrdd nad ydynt yn bosibl mewn ceir preifat. Mae hefyd angen i ni ddatgarboneiddio'n gyflym ac mae cludiant i'r Parc Cenedlaethol ac o'i fewn yn cyfrannu'n sylweddol at allyriadau CO₂; mae gronynnau mewn digon o grynodiad yn risg iechyd i'r cyhoedd ac nid yw ansawdd yr aer yn cael ei fonitro digon yn ein trefi.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Mae angen paru ein huchelgais â model cyllido a gaiff ei neilltuo ar hyn o bryd ar gyfer dulliau eraill o drafnidiaeth a gwaith cynnal a chadw ffyrdd yn unig. Rydym hefyd eisiau gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu dylunio mewn ffyrdd sy'n galluogi pobl o bob gallu symudol i ymweld â'r Parc Cenedlaethol yn hawdd.

Bydd angen rhoi'r polisi ar waith mewn partneriaeth ag Awdurdodau Prifffyrdd Lleol, drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru ac elusennau trafnidiaeth gynaliadwy. Bydd uchelgais ac arweinyddiaeth a rennir yn allweddol.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Mae cymaint o enghreifftiau o'r hyn a fydd yn arwydd o lwyddiant, o'r diwylliant beicio ym Mharciau Cenedlaethol yr Hague a De Hoge Veluwe yn yr Iseldiroedd, i rwydwaith teithio llesol y 'Bee' sy'n cael ei gyflwyno ym Manceinion Fwyaf.

Drwy roi pobl yn gyntaf, creu strydoedd o'r radd flaenaf ar gyfer cerdded, adeiladu un o rwydweithiau beicio gorau'r byd a chreu diwylliant gwirioneddol o deithio heb gar, ein nod yw dyblu'r lefelau beicio, a'u dyblu eilwaith a gwneud cerdded yn ddewis naturiol ar gyfer cynifer â phosibl o deithiau byr.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?


Mae angen cynllun arnom i sicrhau cyflawniad. Cyn sicrhau cyllid seilwaith, mae angen cyhoeddi cynllun seilwaith Cenedlaethol ledled y Parc ar gyfer cerdded, beicio a sgwteri symudedd mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid allweddol. Dylid blaenoriaethu'r buddsoddiad ar sail mesuriadau o symudiad pobl. Gyda diwrnodau lle gwelir 5 miliwn+ o ymwelwyr yn y Parc Cenedlaethol a thueddiadau sy'n awgrymu y bydd hyn yn parhau i gynyddu, mae cyfle gwych i wneud gwahaniaeth enfawr. Mae angen i ni rannu a dathlu'r llwyddiant.



Byddwn yn dathlu'r Gymraeg o fewn y Parc drwy adrodd stori ei phwysigrwydd ac annog ei defnydd ym mhopeth a wnawn.

Cymraeg yw un o'r ieithoedd hynaf yn Ewrop. Mae wedi llunio diwylliant a hunaniaeth y Genedl Gymreig ac mae ganddi gysylltiad cynhenid â thirwedd a chymunedau'r Parc Cenedlaethol. Yn y polisi hwn, rydym yn ceisio pwysleisio pwysigrwydd yr iaith i ddiwylliant, treftadaeth a hunaniaeth yr ardal; annog ei defnydd ym mywydau bob dydd ein trigolion a'n hymwelwyr a sicrhau bod yr iaith yn cael ei gwerthfawrogi gan bawb, waeth beth yw lefel y rhuglder a tharddle'r diwylliant.

YR IAITH GYMRAEG



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o'r hyn sy'n gwneud Cymru yn unigryw. O fewn y Parc, rydym yn adnabod y dirwedd drwy'r enwau Cymraeg sy'n diffinio'r trefi, pentrefi, afonydd, copaon, strydoedd a'r lleoedd. Er bod llwynnau o gymunedau Cymraeg eu hiaith yn parhau yng Ngorllewin y Parc, mae gan yr ardal yn gyffredinol gyfraddau is o siaradwyr Cymraeg a phobl â gwybodaeth o'r Gymraeg na'r cyfartaledd yn Nghymru.

Mae newidiadau deddfwriaethol a pholisi yr hanner can mlynedd diwethaf wedi gweithio i helpu i gefnogi'r iaith a'r defnydd ohoni; fodd bynnag, mae'r Gymraeg yn parhau i fod o dan fygythiad uchafiaeth strwythurol yr iaith Saesneg. Mae gwybodaeth am y Gymraeg yn cyfoethogi'r ddealltwriaeth o'r dreftadaeth Gymreig a'r ymdeimlad o berthyn. Mae lefel y siaradwyr Cymraeg o fewn cymunedau'r Parc yn creu diffyg sy'n ymdebygu i anfantais ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith

Hyrwyddo dealltwriaeth, mwynhad a diogelwch o'r Gymraeg a'i diwylliant – byddwn yn datblygu Brand y Parc Cenedlaethol fel marc sy'n gysylltiedig â chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ardal. Byddwn yn datblygu'r rhaglen lysgennad er mwyn creu hyrwyddwyr y Gymraeg a fydd yn hyrwyddo'r iaith a'i gwerth diwylliannol.

Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg yn yr ardal – byddwn, gyda phartneriaid, yn datblygu amrediad o adnoddau am y parc i ddysgwyr Cymraeg. Byddwn yn datblygu rhaglen o 'deithiau cerdded i ddysgwyr' gan ddefnyddio llwybrau cerdded hunandywysedig a thywysedig wedi eu targedu yn benodol at ddysgwyr Cymraeg i ymhél â'r Parc a'i hanes wrth wella'u sgiliau a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg.

Diogelu enwau lleoedd Cymraeg – drwy weithio gyda Phartneriaeth yr Amgylchedd Hanesyddol, byddwn yn datblygu rhaglen ymchwil a hyrwyddo sy'n canolbwyntio ar enwau lleoedd Cymraeg o fewn y Parc, gan edrych ar eu pwysigrwydd diwylliannol a hanesyddol. Byddwn yn datblygu sianeli lluosog i ledaenu canfyddiadau'r gwaith ymchwil.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Bydd y Gymraeg yn cael ei dathlu o fewn yr ardal.

Bydd dysgwyr Cymraeg yn teimlo bod y Parc yn gyfaill sy'n eu helpu ar eu taith i ddysgu'r iaith.


Bydd gan siaradwyr di-Gymraeg ragor o wybodaeth am yr iaith a'r rôl y mae'n ei chwarae mewn llunio'r Parc fel lle, a byddant yn gwerthfawrogi'r iaith fel rhywbeth arbennig i ofalu amdani.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?


Byddwn yn edrych ar nifer y bobl o fewn yr ardal sy'n nodi bod ganddynt wybodaeth am Gymraeg, a bydd cynnydd yn y ffigur hwn yn cael ei ystyried yn lwyddiant.

FFYRDD O WEITHIO

Un o brif ddibenion Cynllun Rheoli fel Bannau'r Dyfodol yw dwyn ynghyd yr holl rai hynny sydd â budd mewn datblygu dyfodol cynaliadwy i'r Parc Cenedlaethol i weithio gyda'i gilydd. Dyma pam y mae'n bwysig iawn bod y Cynllun yn diffinio sut y bydd pob un ohonom yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ein hamcanion cyfunol. Mae'r ffyrdd hyn o weithio yn ymwneud â sut mae'r APC yn rhyngweithio â'r holl randdeiliaid yn y Parc i greu cydberthnasau hirhoedlog a fydd yn fuddiol i bawb dan sylw, gyda buddion sy'n ymestyn i'n hamgylchedd a'n cymunedau.



Polisi	Tudalen
Partneriaethau	95
Cyfalaf Dynol	97
Gwirfoddoli	99




Er mwyn gwireddu'r weledigaeth a'r dyheadau ar gyfer y Parc Cenedlaethol, rydym am weithio mewn partneriaethau llwyddiannus.

Er mwyn creu a chynnal y man teg a diogel i'r cyhoedd ei fwynhau, bydd angen i'r Parc Cenedlaethol weithredu ar y cyd â'r holl rai hynny â budd yn rheolaeth y Parc Cenedlaethol. I sicrhau y bydd gweithredu cyfunol o'r fath yn gynhyrchiol, hoffem ysgogi gweithio mewn partneriaeth o fewn y Parc.

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi diffinio gweithio mewn partneriaeth fel "Cydberthynas gydweithredol barhaus rhwng neu ymysg sefydliadau o wahanol fathau o randdeiliaid sy'n cydweddu eu diddordebau â gweledigaeth gyffredin, gan gyfuno eu hadnoddau a'u cymwyseddau ategol a rhannu risg, er mwyn cynhyrchu cymaint â phosibl o werth a chyflwyno budd i bob un o'r partneriaid." " (UN 2020)

PARTNERIAETHAU



Pam mae hyn yn bwysig?

Os ydym am wireddu'r weledigaeth a chyflawni'r canlyniadau uchelgeisiol ar gyfer y Parc Cenedlaethol gan weithredu o fewn y man teg a diogel, mae'n well gwneud hynny, mewn llawer o achosion, mewn partneriaeth ag eraill. Y rheswm dros hyn yw bod llawer i'w wneud mewn ychydig iawn o amser.

Os caiff hyn ei wneud yn llwyddiannus, gall gweithio mewn partneriaeth arwain at fwy o bobl a sefydliadau yn cyfrannu mwy o adnoddau at ganlyniadau cadarnhaol mewn mwy o fannau yn y Parc Cenedlaethol.

Gall partneriaethau gofodol gynnig y cydbwysedd a'r amrediad o weithgareddau a gwasanaethau na all ein sefydliad bach ni ei gynnig i bawb ar yr un pryd – a chan hynny, creu cwrdd i gynyddu a chyflawni penderfyniadau ar y lefel fwyaf lleol bosibl.

Mae gennym hefyd gyfrifoldeb statudol i ystyried sut gallai ymddwyn mewn modd cydweithredol fod o gymorth i gyflawni ein hamcanion llesiant.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Er mwyn rheoli ein gweithgarwch partneriaeth, byddwn yn sefydlu protocolau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth sy'n seiliedig ar yr Arweiniad i Nodau Datblygu Cynaliadwy Partneriaethau.

Rydym yn cydnabod bod angen cryn dipyn o amser ac ymdrech fel arfer i ddatblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth ac ymrwymiad gan yr holl bartneriaid i weithio gyda'i gilydd, a gall hyn ddim ond digwydd pan fydd yn amlwg bod y buddiannau yn cydweddu â'i gilydd.

Pan mae'r buddiannau'n cydweddu â'i gilydd, mae'r adnoddau ategol ac amrywiol y gall gwahanol bartneriaid eu cynnig yn cyflwyno llawer mwy o fudd ac effaith nag y gallent ar eu pennau eu hunain.

Rydym hefyd yn sylweddoli bod yn rhaid i'r holl bartneriaid gael gwerth o'u hymgilymiad os ydynt i barhau i weithio mewn partneriaeth.

Beth fydd yn arwydd o llwyddiant?

Mae partneriaethau iach a llwyddiannus yn dangos:

- Cytundeb bod angen partneriaeth
- Parch ac ymddiriedaeth rhwng gwahanol fuddiannau
- Arweinyddiaeth gan unigolyn neu unigolion a berchir
- Ymrwymiad buddiannau allweddol a ddatblygwyd drwy broses eglur ac agored
- Datblygiad gweledigaeth a rennir o'r hyn y gellir ei gyflawni
- Amser i adeiladu'r bartneriaeth
- Gorchmynion neu agendâu a rennir
- Datblygiad ffyrdd cyson, a hyblyg, o weithio
- Cyfathrebu effeithiol a gynorthwyr gan hwylusydd
- Penderfyniadau cydweithredol, gydag ymrwymiad i ddod i gonsensws ynghylch materion a chamau gweithredu o fewn cwrdd y bartneriaeth
- Rheoli sefydliadol effeithiol.


Sut byddwn yn mesur cynnydd ?

Trwy drefniadau craffu priodol, byddwn yn adolygu ein gweithgarwch partneriaeth yn gyson er mwyn sicrhau mai dyma'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o hyd o wireddu gweledigaeth ac uchelgeisiau'r Parc Cenedlaethol.

Byddwn yn hyrwyddo'r parc fel ardal ar gyfer dysgu gydol oes.

A group of children and an adult are standing in a grassy field, looking towards a hazy, distant landscape. The children are wearing colorful raincoats and backpacks. The adult is wearing a high-visibility orange and black jacket. The background shows rolling hills under a cloudy sky.

Mae cyfalaf dynol yn ymwneud â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiadau sydd gan unigolion, cymunedau neu sefydliadau a'r gwerth y mae'r pethau hyn yn ei gyflwyno i lesiant unigolion a chymdeithas. Mae cael Parc llawn cyfalaf dynol yn hanfodol os ydym am weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ardal, fel y newid yn yr hinsawdd, dirywiad bioamrywiaeth, diboblogaeth wledig a demograffeg sy'n heneiddio.



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae nifer o resymau pam y mae'n rhaid i'r Cynllun hwn hyrwyddo'r Parc fel arena ar gyfer pob math o ddysgu, boed hynny drwy'r system addysgu ffurfiol neu drwy gyfleoedd addysgol mwy anffurfiol. Ail ddiben y Parc Cenedlaethol yw cyflwyno cyfleoedd i ddeall y Parc.

Dengys gwaith ymchwil fod y cymdeithasau hynny lle y gellir cael gafael hawdd ar addysg a lle y caiff dinasyddion eu cefnogi i fanteisio ar ddysgu gydol oes yn fwy cynhwysol ac yn fwy cyfartal yn gymdeithasol.

Ychydig iawn o gyfleoedd sydd o fewn y Parc Cenedlaethol i bobl dros 18 oed ddysgu, sy'n golygu bod llawer o bobl ifanc yn gadael y Parc er mwyn parhau â'u haddysg. Caiff yr 'ymfudiad ymennydd' hwn ei waethgu gan gost uchel tai a'r prinder mewn cyfleoedd gwaith yn y Parc, sy'n golygu nad yw llawer o bobl ifanc yn dychwelyd i'r ardal ar ôl bod yn y brifysgol serch eu hawydd i ddod adref.

Mae'r Parc, fel ardal warchodedig a chasgliad o gymunedau gwledig, yn wynebu amrediad o broblemau dychrynlyd y gellir ond eu datrys drwy arloesedd gwybodus.

Mae'r ffactorau hyn gyda'i gilydd yn creu rheidrwydd i sicrhau bod ein holl weithgareddau yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu, addysg ac ymchwil.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Mae gan yr holl weithgareddau a gefnogir gan y Cynllun hwn y potensial i ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu ac ymchwil, mewn lleoliadau addysgol ffurfiol a thu hwnt. Byddwn yn sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn cael eu gweithredu er mwyn hyrwyddo:

- DYSGU ar bob lefel sy'n canolbwyntio ar ein dibenion a'n dyletswydd, gan gynnwys y systemau ecolegol a chymdeithasol sy'n cyfrannu at unigrywiaeth y Parc
- CEFNOGI dysgu cymunedol drwy wyddor dinasyddiaeth a phrosiectau ymchwil er mwyn cefnogi ein dealltwriaeth o'r Parc a'i systemau
- GYRRU creadigrwydd drwy raglenni artistiaid preswyl
- CEFNOGI llwybrau gyrfaol drwy brentisiaethau, interniaethau, rhaglenni blwyddyn i fwrdd a chyfleoedd i gamu ymlaen.
- DATBLYGU partneriaethau ymchwil gyda sefydliadau Addysg Uwch er mwyn hyrwyddo'r Parc fel arena ar gyfer gwneud gwaith ymchwil unigryw ar systemau cymdeithasol ac amgylcheddol a modelau economaidd newydd.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?


Mae'r Parc yn arena sy'n meithrin doniau ein cymunedau drwy allgymorth, mentrau addysgol i bob oed a chyfleoedd gwirfoddoli.

Cynhelir digwyddiadau dysgu rheolaidd gan yr APC a sefydliadau partner sydd wedi eu hanelu at gynyddu dealltwriaeth o'r problemau y mae Bannau'r Dyfodol yn bwriadu mynd i'r afael â nhw.

Mae mwy o ddealltwriaeth o'r Parc a'r problemau y mae'n ei wynebu. Mae gwaith ymchwil gweithredol yn helpu i ddiffinio llwybrau i'r dyfodol er mwyn datrys problemau dychrynlyd.

Sut byddwn yn mesur cynnydd?


Byddwn yn adnabod llwyddiant fel cynnydd mewn cyfleoedd am ddysgu ac ymchwil o fewn y Parc.

A photograph of two people working in a garden. In the foreground, a man wearing a light green shirt, dark trousers, a wide-brimmed hat, and yellow gloves is using a shovel to dig in a raised garden bed. In the background, another person in a blue shirt and light-colored trousers is also working in the garden. The garden bed is filled with dark soil and some green plants. There are trees and a wooden bench in the background.

**Byddwn yn ehangu cyfleoedd i
wirfoddolwyr weithio gyda'r
Awdurdod a sefydliadau partner er
budd pawb.**

Mae gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol hanes hir a llwyddiannus o weithio gyda gwirfoddolwyr. Gwirfoddolwyr yw unigolion sy'n rhoi eu gwasanaethau o'u gwirfodd heb dâl i helpu'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i gyflawni amrediad o brosiectau a gwasanaethau. Yn y trafodiad hwn, mae'r gwirfoddolwr yn ennill profiadau a sgiliau gyda chymorth rhwydwaith o bobl o'r un anian, a'r Awdurdod yn cael cymorth gwerthfawr i gyflawni ei amcanion.

GWIRFODDOLI



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae cyfraniad gwirfoddolwyr yn cefnogi ein nodau strategol ac yn ategu rôl staff cyflogedig. Mae cynnwys gwirfoddolwyr yn golygu y gallwn gyflawni mwy gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ac ymgymryd â thasgau a phrosiectau na fyddai'n cael eu gwneud fel arall.

Mae gwirfoddolwyr yn llysgenhadon ar gyfer yr Awdurdod. Mae gwirfoddolwyr yn bresenoldeb cyhoeddus, sy'n caniatáu i ni gyrraedd mwy o gymunedau lleol ac ehangu'r ddealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol. Mae gwirfoddoli yn fodd o gynnwys cymunedau a meithrin ymdeimlad o berthyn.

Gall cynnwys gwirfoddolwyr lywio penderfyniadau drwy fanteisio ar amrediad eang o brofiadau. Mae gwirfoddolwyr yn dod â sgiliau ychwanegol a safbwyntiau newydd i'r sefydliad.

Mae gwirfoddoli yn fuddiol i iechyd a lles pobl drwy'r cyfle i weithio mewn tirweddau gwarchodedig, a'r ymdeimlad o ddiben ac o 'roi rhywbeth yn ôl'.

Mae gwirfoddoli yn fodd o ddarganfod y Parc Cenedlaethol a gall helpu i ddatblygu gwybodaeth, hyder a sgiliau. Gall gwirfoddoli ddarparu profiad gwaith gwerthfawr a bod yn llwybr i yrfa mewn cadwraeth ac mae'n cefnogi cyflogadwydd yn fwy cyffredinol.

Sut bydd y Polisi yn cael ei roi ar waith?

Byddwn yn datblygu rhaglen integredig o gyfleoedd gwirfoddoli i gefnogi'r gwaith o gyflenwi Bannau'r Dyfodol, gyda'r amcan hirdymor o weithredu hon ar draws amrediad o sefydliadau partner.

Beth fydd yn arwydd o lwyddiant?

Rhaglen wirfoddoli ddiogel o ansawdd uchel gyda digon o adnoddau sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at warchod a gwella'r Parc Cenedlaethol, ac yn cyfrannu at fwynhad a dealltwriaeth pobl o'i nodweddion arbennig.

Amrediad hyblyg o gyfleoedd gwirfoddoli sy'n gynhwysol ac yn hygyrch; caiff pobl o amrediad eang o gefndiroedd, gydag anghenion a galluoedd amrywiol eu croesawu a'u galluoegi i wirfoddoli.

Mae gwirfoddoli gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB) yn rhoi boddhad, yn ystyrlon ac yn cyflwyno buddion iechyd, llesiant a chymunedol.

Mae gwirfoddoli yn cael ei hyrwyddo'n weithredol gan ein Prif Weithredwr a'n Haelodau.

Mae gwirfoddoli yn gydran ddyddiol o bob rhan o'n gwaith ar bob lefel o'r Awdurdod.

Caiff gwirfoddolwyr eu gwerthfawrogi a'u cydnabod am eu cyfraniad.

Mae staff APCBB yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn hyderus wrth weithio gyda gwirfoddolwyr.

Sut byddwn yn mesur cynnydd ?

Byddwn yn adnabod cynnydd fel cynnydd yn nifer yr oriau gwirfoddoli gweithredol a ddefnyddir o fewn yr Awdurdod.

Byddwn yn adnabod cynnydd fel gwelliant yn lefelau'r boddhad a nodir gan wirfoddolwyr.

Byddwn yn adnabod cynnydd fel datblygu a gweithredu strategaeth wirfoddoli integredig sy'n cwmpasu sefydliadau partner.

EICH PARC CHI

Gwyddom fod y Parc Cenedlaethol yn fwy na'r Awdurdod yn unig. Yn aml, rydym yn ymgymryd â rôl cydlynedd - yn dod â'r holl bobl sydd â diddordeb mewn pwnc penodol neu le penodol ynghyd i gydweithio ar gyflawni'r canlyniadau gorau. Dyma pam rydym yn dweud nad ein Cynllun ni yw'r Cynllun Rheoli, ond Cynllun yr holl Barc fel endid daearyddol i bawb sydd â budd yn ei ddyfodol. Mae eich barnau, felly, yn ganolog i sut rydym yn datblygu'r cynllun hwn gyda'n gilydd.

Gallwch gymryd rhan yn y camau nesaf at ddatblygu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol mewn nifer o ffyrdd ac mae'r rhain wedi eu nodi isod.

Ysgrifennwch atom ynghylch y weledigaeth ar gyfer y dyfodol

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn ysgrifenedig i nodi eich barn ar y weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Gallwch ddefnyddio'r cwestiynau cynorthwyol a nodwyd yn flaenorol neu amlygu meysydd eraill y credwch eu bod angen ein sylw. Darllenir ac ymatebir i bob sylw ac yn aml, bydd hyn yn arwain at newidiadau neu ddiwygiadau i'r ffordd yr ydym yn meddwl neu'n mynegi.

Gan ystyried ein trefniadau gweithio cyfredol, byddai'n haws i ni pe baech yn anfon eich ymatebion ar e-bost. Y cyfeiriad e-bost i'w ddefnyddio yw:

NPMP21@beacons-npa.gov.uk

Defnyddiwch y llinell testun Bannau'r Dyfodol

(Os na allwch anfon e-bost, rydym yn parhau i fwynhau llythyrau traddodiadol – defnyddiwch ein cyfeiriad awdurdod)

#BannaurDyfodol

Os oes well gennych gyfryngau cymdeithasol, gallwch drydar eich prif syniadau atom gan ddefnyddio'r hashnod uchod, a gallech ddefnyddio testun, lluniau neu fideo. Gallwch hefyd ei ddefnyddio ar Instagram, Facebook neu ar unrhyw un o'r platfformau yr ydych yn eu defnyddio yn eich bywyd bob dydd.



Os ydych yn unigolyn, ymunwch â'n paneli dinasyddion

Os oes well gennych siarad nag ysgrifennu, gallwch gofrestru i fod yn rhan o un o'n paneli dinasyddion annibynnol. Grŵp o unigolion yw panel ddinasyddion sydd â diddordeb yn Rheolaeth y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol. Rôl y Panel fydd clywed cyflwyniadau gan arbenigwyr ac yna gwneud penderfyniadau ar sut y gallai Bannau'r Dyfodol fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd. Bydd y Panel yn gwneud argymhellion i Fwrdd yr Awdurdod yn uniongyrchol. I gofrestru, defnyddiwch y ffurflen ar dudalen Bannau'r Dyfodol y wefan.

Os ydych chi'n darllen hwn am eich bod yn rhan o sefydliad neu grŵp sy'n gweithio yn y Parc, gallech ddewis ymuno â'n Panel Cyfeirio Rhanddeiliaid. Mae'r Panel Cyfeirio Rhanddeiliaid yn gweithredu fel gweithgor i ddatblygu ardaloedd Bannau'r Dyfodol. Mae'r Panel yn adrodd i'r Bwrdd ond mae ganddo hefyd rôl weithredol. Gallwch ddweud wrthym eich bod eisiau cyfrannu at y panel hwn, ond wrth wneud hynny, byddwch yn barod i ymrwymo i waith gweithredol yn y Parc wrth weithredu'r Cynllun.

Dewch yn wirfoddolwr

Un o'r ffyrdd mwyaf y gallwch gyfrannu at reolaeth y Parc yn y dyfodol yw drwy wirfoddoli i wneud gwaith ymarferol yn y Parc i wella'r canlyniadau i natur, ein treftadaeth, mynediad a dehongliad. Dyma ffordd i chi wneud gwahaniaeth go iawn. Ceir rhagor o fanylion [yma](#).

Eich Tîm Bannau'r Dyfodol

Y ddogfen hon a gwaith y Cynllun Rheoli yw canlyniad tîm ymroddedig o bobl sydd â brwdfrydedd go iawn am oroesiad y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol. Gallwch ddarllen rhagor amdanynt a sut i gysylltu â nhw isod.



Helen Roderick

Mae Helen yn bartner mewn busnes ffermio a chafodd ei geni a'i magu yn y Parc. Mae Helen yn frwd am dechnegau ffermio cynaliadwy ac yn credu'n gryf mai ffermwyr yw dyfodol y Parc. Mae gan Helen hanes hir o ddatblygu cymunedol yn y Parc a hi sy'n arwain ein gwaith gyda rhanddeiliaid ar hyn o bryd.

helen.roderick@beacons-npa.gov.uk



Naomi Davies

Mae Naomi yn ferch leol sy'n byw ar fferm ei rhieni. Mae ei chefnidir mewn ymarfer gwledig ac mae ganddi ben da am arallgyfeirio ffermydd a datblygu busnesau. Naomi yw un o'r bobl fwyaf effeithlon y gallech chi eu cyfarfod ac mae'n ein cadw yn drefnus ac ar y trywydd iawn. Naomi sy'n arwain datblygiadau ar safleoedd penodol.

naomi.davies@beacons-npa.gov.uk



Chris O'Brien

Mae Chris wedi bod yn byw yn Aberhonddu ers mwy na 15 o flynyddoedd. Yn gynllunydd tref siartredig, mae Chris wrth ei fodd yn yr awyr agored sy'n golygu ei fod wedi arbenigo mewn materion amgylcheddol ac mae'n gweithio at gymhwyster arweinydd bryn a rhostir. Mae hefyd yn gredwr brwd ym mudiad y Parc Cenedlaethol ac yn credu y dylai buddion y Parc Cenedlaethol fod yn hygyrch i bobl o bob lliw a llun eu mwynhau. christopher.obrien@beacons-npa.gov.uk



Helen Lucocq

Cafodd Helen ei geni yn Abertawe, ond mae ganddi hanes hir a hoffus gyda Bannau Brycheiniog (un o'i hoff ffrindiau yn ei phlentyndod oedd masgot y Parc ar un adeg, Mistar Pigog). Mae Helen yn dipyn o bolymath, gyda'i diddordebau yn amrywio o adrodd storïau, i dreftadaeth, i economeg, er mai cynllunydd tref siartredig yw ei gwaith bob dydd. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn dychryn ei mab ifanc i'r byw, felly mae hi wedi addo gwneud ei gorau glas i ddatrys hwn iddo.

helen.lucocq@beacons-npa.gov.uk



Sophie Jones

Tyfodd Sophie i fyny yn archwilio'r bannau, a rhoddodd hyn frwdfrydedd a gwerthfawrogiad iddi o'n byd naturiol a'r fioamrywiaeth sy'n byw ynddo. Aeth ymlaen i astudio cysylltiadau rhyngwladol a datblygu bydeang, gan ddatblygu brwdfrydedd am gynaliadwyedd, gwneud newidiadau, a hanes. Mae hyn wedi ei harwain i weithio ar brosiectau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, ochr yn ochr â'i gwaith fel gwirfoddolwr amgylcheddol. sophie.jones@beacons-npa.gov.uk




ATODIAD

CYFLWYNO TOESEN Y PARC

Mae'r Cynllun Rheoli hwn yn defnyddio model 'toesen' datblygu economaidd i gysyniadoli gweithrediad ein dibenion a'n dyletswydd. Mae hefyd yn defnyddio'r model i helpu i strwythuro sut mae'r cynllun hwn yn diffinio'r nodau polisi hirdymor ar gyfer ardal y Parc. Cafodd *The Doughnut model* (y model Toesen) ei ddatblygu'n gyntaf gan Kate Raworth yn 2017 yn ei chyhoeddiad o'r un enw. Ers hynny, mae'r doesen wedi ennill llawer o dir ac yn ddylanwadol iawn ymhlith pobl sy'n meddwl am ddatblygiadau cynaliadwy. Mae'r model wedi ei ddefnyddio gan leoedd mor amrywiol ag Amsterdam a Chernyw a chan sefydliadau fel Oxfam Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i helpu i greu dyfodol mwy cymdeithasol deg ac ecolegol ddiogel. Mae'r adran ganlynol yn egluro'r model Doesen yn gryno fel cysyniad a sut y mae wedi ei symleiddio i gynorthwyo â datblygiad y cynllun hwn a monitro ei lwyddiant.

Mae'r model Toesen yn creu fframwaith gweledol i fesur cyrhaeddiad datblygu cynaliadwy ar raddfeydd lluosog gan ddefnyddio dangosyddion lefel uchel (a elwir yn ffiniau). Mae'r model, fel y mae'r enw yn awgrymu, mewn siâp toesen gron (gweler gyferbynn).


Mae ochr allanol y doesen yn diffinio naw ffin blanedol sy'n berthnasol i derfyn yr adnoddau naturiol sy'n dderbyniol i'w defnyddio. Mae'r cylch teneuach yn diffinio sylfaen gymdeithasol, sydd â llawer o ddimensiynau o amddifadedd dynol oddi tani. Diffinnir yr ardal rhwng y ddwy ffin hyn fel y man diogel a theg i ddynoliaeth. Gellir dod o hyd i lwyddiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol o fewn y doesen, a'r tu allan i'r ffiniau hyn, mae niwed yn digwydd.




Kate Raworth's model Toesen

Mae Raworth wedi mynd gam ymhellach i ddangos pa mor bell ydym o'r man diogel a theg drwy fesur yn fyd-eang i ba raddau mae dynoliaeth naill ai yn mynd y tu hwnt i'r nenfwd ecolegol (yn cymryd mwy o adnoddau naturiol na'r hyn sy'n gynaliadwy) neu'n syrthio y tu draw i'r sylfaen gymdeithasol (gan achosi dioddefaint a niwed i bobl). (gweler gyferbynn isod)

At ddibenion y cynllun hwn, mae'r doesen yn darparu model defnyddiol ar gyfer diffinio cydrannau'r systemau amgylcheddol a chymdeithasol yr ydym yn gweithredu o'u mewn. Yn ei hanfod, mae'n ein helpu ni i ddeall i ba raddau y mae'r rhain o fewn terfynau 'diogel'. Mae ein fersiwn ni o Doesen Parc yn glynu wrth ddiffiniad gwreiddiol Raworth o nenfwd ecolegol a sylfaen gymdeithasol ond yn gosod y Parc Cenedlaethol fel craidd y man hwn. Mae Toesen y Parc yn diffinio'r hyn y dylai gweithredu dibenion a dyletswydd y Parc ei olygu yn ddelfrydol i'r dirwedd, bywyd gwyllt, treftadaeth ddiwylliannol, ymwelwyr, nodweddion arbennig a chymuned y Parc Cenedlaethol, ac yn gosod hyn o fewn cyd-destun sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.



Kate Raworth's 'global selfie'



TOESEN Y PARC – DIBENION A DYLETSWYDD FEL SYSTEM GYTBWYS

Mae Toesen y Parc wedi ei haddasu i amgylchiadau unigryw ein gwaith, mae'r nenfwd ecolegol allanol yn ymwneud â'n diben cyntaf i warchod a gwella prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc. Mae'n gosod hyn o fewn cyddestun sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang i ehangu gwarchod a gwella bywyd gwyllt a phrydferthwch naturiol i'w hystyr ehangaf, o warchod a gwella'r systemau planedol ac ecosystem y maen nhw'n dibynnu arnynt.

Mae'r sylfaen gymdeithasol fewnol yn ymwneud â'n dyletswydd statudol i geisio meithrin llesiant cymdeithasol ac economaidd ein cymunedau. Mae'n diffinio'r cydrannau sydd eu hangen ar gyfer llesiant cymdeithasol ac yn ceisio sicrhau bod ein holl weithrediadau yn bodloni'r gofynion hyn. Mae craidd ein toesen, y man teg a diogel, yn diffinio'r arena lle mae capasiti ecolegol a chymdeithasol i gyflawni ein hail ddiben, sef i gyflwyno cyfleoedd i bobl ddeall a mwynhau'r Parc Cenedlaethol.


yn hawdd a bod yn rhy adnodd-ddwys neu'r rhai hynny sy'n ecsbloetio ein cymunedau i'w gwrthio o dan y sylfaen gymdeithasol.

Er mwyn diffinio'r man diogel a theg lle gallwn alluogi dealltwriaeth a mwynhad o'r Parc, mae angen i ni edrych yn fanylach ar ein nenfwd ecolegol a'n sylfaen gymdeithasol.

NENFWD ECOLEGOL

Mae'r nenfwd ecolegol yn ymwneud â therfynau'r defnydd derbyniol o'r amgylchedd. Mae'r nenfwd yn cynnwys wyth sector allweddol, o'r newid yn yr hinsawdd i lygredd aer, ac o rywogaethau estron goresgynnol (INNS) i ansawdd pridd sydd, gyda'i gilydd, yn diffinio ein capasiti amgylcheddol. Gallwn ddefnyddio tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli ar gyfer pob sector i ddiffinio i ba raddau yr ydym yn deall a yw'r ffiniau hyn wedi eu cyrraedd neu eu croesi. Mae'r tabl canlynol yn diffinio ein nenfwd ecolegol mewn cyd-destun lleol a byd-eang fel y'i deallir ar hyn o bryd. Gobeithir y bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn ein helpu i fireinio a datblygu dangosyddion lleol a byd-eang. Bydd y modd y mae'r nenfwd lleol yn perthyn i'r nenfwd byd-eang yn cael ei archwilio'n fanwl gyda'n partneriaeth ymchwil yn ystod cyfnod y cynllun hwn gyda'r nod o greu darlun o'r Parc fel rhan o'n hadroddiad bob pum mlynedd ar Gyflwr y Parc.

Byddwn yn llunio ein polisïau a'n cynlluniau yn gadarnhaol, gan sicrhau eu bod yn cael eu dylunio i leihau'r defnydd amgylcheddol a'u bod yn mynd i'r afael â'r toriadau ym mhob sector.




Sector	Y Terfyn Lleol	Y Terfyn Byd-eang
Newid Hinsawdd	Defnydd o garbon ar lefel sy'n gymesur â chyfran deg o Darged Paris	Crynodiad carbon deuocsid atmosfferig, rhannau fesul miliwn (ppm) – 350ppm ar y mwyaf
Ansawdd pridd a dŵr croyw	Llai na 5% o wyriad rhag pridd hollol iach	Asesiad pridd hollol iach
Llygredd aer	Terfyn uchaf a argymhellir gan WHO o 20 micogram fesul metr ciwbic fel cymedr blyneddol ar gyfer DG10 a DG2.5 ardal y PC	Nid oes unrhyw newid yn rheolaeth fyd-eang wedi'i ddiffinio eto
Llygredd cemegol	Holl afonydd y Parc wedi'u cofnodi fel rhai â statws ecolegol da yn erbyn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr	Nid oes unrhyw newid yn rheolaeth fyd-eang wedi'i ddiffinio eto.
Rhywogaethau estron goresgynnol	Dim achos o bla'n ailsefydlu mewn ardaloedd lle mae mesurau i reoli rhywogaethau estron goresgynnol wedi'u rhoi ar waith	Nid oes unrhyw newid yn rheolaeth fyd-eang wedi'i ddiffinio eto
Trawsnewid Tir	40% o arwynebedd tir y Parc Cenedlaethol yn dirwedd goediog, gan gynnwys nodweddion llinellol megis gwrychoedd, glannau afonydd, ymyl ffyrdd, a choed trefol	Arwynebedd o dir coediog fel cyfran o dir wedi'i orchuddio â choedwig cyn ei newid gan bobl - o leiaf 75%
Colli bioamrywiaeth	Adar tir ffermio ar lefel llinell sylfaen y 1970au	Cyfradd difodiant rhywogaethau fesul miliwn o rywogaethau'r flwyddyn - 10 ar y mwyaf
Llwyth nitrogen a ffosfforws	Lefelau N a P o fewn y llwythi critigol ar gyfer cynefinoedd dŵr croyw a daearol	Ffosfforws a Nitrogen adweithiol sy'n cael ei roi ar dir fel gwrtaith: miliynau o dunelli'r flwyddyn – 6.2 (P), 62 (N)

Sylfaen Gymdeithasol: Ein Dyletswydd Statudol

Mae'r sylfaen gymdeithasol, cylch mewnol y doesen ar gyfer y Parc, yn debyg iawn i Nodau Datblygu Cymdeithasol y Cenhedloedd Unedig. Y rhain yw'r safonau gofynnol sydd eu hangen ar bobl i fyw yn rhydd. O fewn y Parc, mae hyn yn golygu pobl sy'n gallu fforddio i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol, tai, bwyd, ynni a dŵr. Mae hefyd yn golygu bod digon o gapasiti o fewn ein cymunedau i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol, fel unigrwydd ac anghydraddoldeb rhwng cenedlaethau. Yn wahanol i'r nenfwd ecolegol, mae'r sylfaen gymdeithasol yn cynnwys safonau gofynnol, yn hytrach na therfynau uchaf. Pan ddengys y data i ni nad yw'r safonau gofynnol hyn yn cael eu bodloni, cyfeiriwn at hyn fel toriad yn ein sylfaen.

Mae'r sylfaen gymdeithasol leol yn darparu meincnod clir y gallwn ei ddefnyddio i asesu cadernid ein cymunedau.

Yn y cynllun hwn, byddwn yn sicrhau bod ein polisïau yn cael eu datblygu fel eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar leihau niwed cymdeithasol a lleihau graddau'r toriad ym mhob sector.



Sector cymdeithasol	Sylfaen lleol	Sylfaen byd-eang
Bwyd	Dim un preswlydd mewn tlogi bwyd	Dileu diffyg maeth ym mhob poblogaeth
Tai	Costau tai ddim mwy na theirgwaith y cyflog canolrifol	Sicrhau bod pawb yn cael eu cartrefu gyda gwasanaethau sylfaenol
Addysg	Yr holl breswylwyr yn pasio arholiadau Saesneg a Mathemateg	Sicrhau bod pob person ifanc a chyfran sylweddol o oedolion, yn ddynion a menywod, yn cyflawni llythrennedd a rhifedd
Iaith	Yr holl breswylwyr â gwybodaeth o'r Gymraeg	d/g
Iechyd	Disgwyliad oes a chyfraddau marwolaeth sy'n cyfateb neu'n gydradd â chyfartaleddau Gogledd Ewrop	Disgwyliad oes adeg genedigaeth sy'n fwy na 70 oed
Trafnidiaeth	Yr holl breswylwyr yn gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hwylus ar gyfer eu gweithgareddau dyddiol	d/g
Mannau a rhwydweithiau cymdeithasol	Y lefelau unigrwydd a adroddir yn is na chyfartaleddau Gogledd Ewrop	Y gallu i ddibynnu ar o leiaf un cyswllt cymdeithasol i gael cefnogaeth
Ynni	Dim un preswlydd mewn tlogi tanwydd	Y gallu i gael gafael ar ynni ar gyfer coginio a diwallu anghenion sylfaenol
Dŵr	Dim un preswlydd mewn tlogi dŵr	Y gallu i gael gafael ar ddŵr glân a glanweithdra gwell
Incwm a Chyflogaeth	Dim un preswlydd yn byw islaw'r llinell dlogi	Y gallu i gael gafael ar incwm cyfreithlon i fodoli uwchlaw llinell dlogi fyd-eang
Heddwch a chyfiawnder	Y cyfraddau troseddau ac euogfarnau ar lefelau targed cenedlaethol	Cyfradd dynladdiad llai na 10 fesul 10,000 o'r boblogaeth
Cydraddoldeb rhywedd	Cau'r bwch o ran cyflogau a phensiynau yn y rhanbarth	Cynrychiolaeth gytbwys rhwng dynion a menywod mewn seneddau cenedlaethol
Llais Gwleidyddol	Mae mewnbnw cymunedol yn bwydo'r penderfyniadau a wneir gan lywodraeth leol	Pob poblogaeth yn byw mewn gwledydd sy'n sgorio uwch na 0.5 ar y mynegai llais ac atebolrwydd
Tegwch Cymdeithasol	Yr holl breswylwyr yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol	Incwm a chyfoeth wedi'u cydraddoli (a'u mesur fel 2 neu lai ar y gymhareb Palma)

CRAIDD Y PARC CENEDLAETHOL

Rhwng y nenfwd ecolegol a’r sylfaen gymdeithasol mae’r man teg a diogel lle mae systemau planedol a chymdeithasol yn gweithio heb niwed. Yn y man hwn credwn fod capasiti amgylcheddol a chymdeithasol i ddefnyddio’r Parc ar gyfer hamdden a mwynhad yn y dirwedd. Mae craidd y Parc Cenedlaethol yn cynnwys sectorau sy’n cydweddu â’n hail ddiben, sef i gynnig cyfleoedd i ddeall a mwynhau’r Parc Cenedlaethol.

Mae craidd y Parc Cenedlaethol yn rhoi cyfres o nodau i ni allu cyflawni gweithrediadau penodol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn llwyddiannus. O ddealltwriaeth i’r dirwedd, problemau mynediad i lonyddwch, dyma’r ffactorau sy’n hanfodol i ryngweithiad buddiol pobl â’r Parc. Y pethau sy’n denu pobl i ardal ac sy’n rhoi gwerth unigryw i ardal fel sydd gan yr ardal hon.


Mae’r craidd hefyd yn caniatáu i ni ddeall y gallai cyflwyno’r Parc fel adnodd i’w fwynhau achosi canlyniadau anfwriadol.

Gallai canlyniadau o’r fath olygu toriadau yn y sylfaen gymdeithasol neu’r nenfwd ecolegol.

Golyga hyn bod angen i ni sicrhau, wrth ddatblygu polisi sy’n ceisio bodloni ein hamcanion ar gyfer ysbrydoli pobl a lleoedd, bod polisi o’r fath yn cadw ein gweithrediadau o fewn y man teg a diogel a, lle’n bosibl, yn lleihau graddau’r toriadau sy’n bodoli; er enghraifft, rheoli mannau prysur i gefnogi mynediad ymwelwyr mewn modd sy’n lleihau’r effaith ar yr amgylchedd a niwed cymdeithasol.

Wrth adrodd ar graidd y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol, byddwn yn adrodd ar y cynnydd tuag at nodau craidd. Byddwn hefyd yn adrodd ar ble y mae nodau craidd wedi cyfrannu (yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol) at doriadau yn y nenfwd ecolegol a’r sylfaen gymdeithasol. Drwy wneud hyn, gallwn weld y systemau cymdeithasol, ecolegol ac amgylcheddol y mae ein gweithrediadau yn bodoli o’u mewn. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu fersiynau o’r Cynllun Rheoli yn y dyfodol i ddatblygu polisi sydd â’r nod o sicrhau man teg a diogel ar gyfer ein gweithrediadau.

Mae nodau craidd y Parc Cenedlaethol wedi eu nodi yn y tabl gyferbyn.



Ffactor Cydrannol	Nod Craidd y Parc Cenedlaethol
Llonyddwch	Mae’r ffactorau sy’n cyfrannu at ein llonyddwch yn cael eu mesur a’u mapio a’u cadw fel y maent
Boddhad ymwelwyr	Yr holl ymwelwyr yn cael profiad positif wrth ymweld â’r Parc
Trafnidiaeth	O leiaf 75% o ymweliadau â’r Parc yn elwa o drafnidiaeth gynaliadwy o ryw fath, gan gynnwys cerbydau trydan neu drafnidiaeth gyhoeddus
Mynediad	Rhwydwaith o hawliau tramwy hygyrch sydd wedi’u cysylltu’n dda
Tirwedd	1. Dim newid niweidiol 2. Gwella’r ardaloedd a nodwyd fel rhai gwael 3. Chwilio am ffyrdd o wella ansawdd a chyflwr y Parc cyfan
Amgylchedd hanesyddol	Yr holl nodweddion hanesyddol o fewn ein trefluniau a’n tirluniau mewn cyflwr ffafriol, p’un ai ydynt wedi’u rhestru ai peidio
Treftadaeth ddiwylliannol	Dim colled net o ran digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol traddodiadol, e.e. Sioeau Amaethyddol ac Eisteddfodau
Addysgu ymwelwyr	Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o’r Parc